



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2012
Tuesday, 10 January 2012

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister |
| 34 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement |
| 40 | Datganiad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: 'Gofal gydag Urddas?'—Cynnydd
Statement: Older People's Commissioner for Wales: 'Dignified Care?'—Progress |
| 53 | Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd
Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012
Motion to approve the London Olympic Games and Paralympics Games (Advertising
and Trading) (Wales) Regulations 2012 |
| 60 | Setliad Llywodraeth Leol
The Local Government Settlement |
| 74 | Rhaglenni Ewropeaidd
European Programmes |
| 104 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 113 | Dadl Fer: Gwneud Trafnidiaeth Gynaliadwy'n Haws ar gyfer Cymunedau Gwledig
Short Debate: Making Sustainable Transport Easier for Rural Communities |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. **The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Blaenoriaethau

Priorities

1. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn newydd. OAQ(4)0279(FM)*

1. Rhodri Glyn Thomas: *Will the First Minister outline his priorities for the new year. OAQ(4)0279(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Byddwn yn parhau i greu'r amgylchiadau iawn i sicrhau swyddi; yn parhau gyda'n cynlluniau i helpu'r economi; ac, fel a gyhoeddwyd yn y datganiad a wnaed y bore yma ym Mhenybont, yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yr ydym wedi dweud ei bod yn fwriad gennym ei chyflwyno yn cael ei phasio; ac, wrth gwrs, i greu Cymru gref, Prydain gref ac Ewrop gref.

The First Minister (Carwyn Jones): We will continue to create the right environment to create jobs; continue with the plans that we have in place to assist the economy; and, as announced this morning in Bridgend, to ensure that the legislation that we have committed to taking forward is passed; and, of course, to create a strong Wales, a strong Britain and a strong Europe.

Rhodri Glyn Thomas: You will be aware that concerns have been raised and, indeed, serious allegations made about the management of the All Wales Ethnic Minority Association. I trust that you have had an opportunity to read the report, which has resulted from the inquiry into the management of that organisation. Normally, I would not ask you to comment on such organisations, or individuals involved in them, but, in this case, this particular association manages £8.4 million in European projects. Can you tell us this afternoon, First Minister, whether you still have confidence in the ability of the association to manage those projects, and specifically, in its chief executive, Naz Malik?

Rhodri Glyn Thomas: Byddwch yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi ac, yn wir, bod honiadau difrifol wedi'u gwneud am y gwaith o reoli Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Hyderaf y byddwch wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad, sydd wedi deillio o'r ymchwiliad i reolaeth y sefydliad hwnnw. Fel arfer, ni fyddwn yn gofyn i chi roi sylwadau ar sefydliadau o'r fath, neu unigolion sy'n ymwneud â hwy, ond, yn yr achos hwn, mae'r gymdeithas arbennig hon yn rheoli £8.4 miliwn mewn prosiectau Ewropeaidd. A allwch chi ddweud wrthym y prynhawn yma, Brif Weinidog, a oes gennych hyder o hyd yng ngallu'r gymdeithas i reoli'r prosiectau hynny ac, yn benodol, yn ei phrif weithredwr, Naz Malik?

The First Minister: The allegations are serious. A full investigation is taking place and we will comment once that investigation is concluded.

Y Prif Weinidog: Mae'r honiadau yn rhai difrifol. Mae ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal a byddwn yn gwneud sylwadau unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau.

Christine Chapman: First Minister, like many people around Wales, I was sickened by reports in local and national papers over

Christine Chapman: Brif Weinidog, fel nifer o bobl ledled Cymru, roeddwn wedi fy mrawychu gan adroddiadau mewn papurau

recent weeks describing horrific attacks on a range of domestic animals. This is something that we should take seriously, as a growing body of evidence and academic research suggests that there is a link between violence towards animals and violence towards people, including child abuse and domestic violence. Bearing in mind the seriousness of this issue, will you give us an assurance that we can make tackling this issue a priority for 2012?

The First Minister: Absolutely. The legislation exists, and I would urge any member of the public who is aware of abuse of animals to make their concerns known to the RSPCA or to the police.

Paul Davies: Brif Weinidog, un o'r blaenoriaethau yn eich rhaglen lywodraethu yw gwella'r gwasanaeth iechyd. Yr wyf yn siwr y cytunwch ei bod yn hanfodol bod unrhyw newidiadau a chynigion newydd o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n hollbwysig felly fod gan bobl a chymunedau yr hawl i fod yn rhan lawn o unrhyw broses ymgynghori. Yn sgîl y newidiadau y bydd byrddau iechyd lleol yn eu cyflwyno yn y dyfodol agos, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod yn rhaid i fyrdau iechyd lleol ymgynghori'n llawn gyda'r cyhoedd a chymunedau, ac, os felly, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd yr Aelod. Mae'n bwysig dros ben bod y byrddau iechyd yn ymgynghori'n fanwl gyda chymunedau lleol, a bydd proses graffu yn cael ei chynnal gan y fforwm clinigol cenedlaethol, a chan Weinidogion Cymru.

Eluned Parrott: First Minister, I was very pleased to hear you say that the economy would be your top priority going into the new year. As I am sure you are aware, we welcomed the launch of the Wales economic growth forum on 12 December. However, I understand that the Federation of Small Businesses has a number of major concerns about the practicalities of delivering the scheme, specifically about the ratio of match

lleol a chenedlaethol dros yr wythnosau diwethaf yn disgrifio'r ymosodiadau erchyll ar amrywiaeth o anifeiliaid domestig. Mae hyn yn rhywbeth y dylem ei gymryd o ddifrif, gan fod corff cynyddol o dystiolaeth a gwaith ymchwil academaidd yn awgrymu bod cysylltiad rhwng trais tuag at anifeiliaid a thrais tuag at bobl, gan gynnwys cam-drin plant a thrais yn y cartref. O gofio difrifoldeb y mater hwn, a roddwch sicrwydd i ni y gallwn roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn yn 2012?

Y Prif Weinidog: Yn bendant. Mae'r ddeddfwriaeth yn bodoli, a byddwn yn annog unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o achosion o gam-drin anifeiliaid i hysbysu'r RSPCA neu'r heddlu ynghylch eu pryderon.

Paul Davies: First Minister, one of the priorities in your programme for government is to improve the health service. I am sure that you will agree that it is vital that any changes and new proposals within the health service in Wales are transparent and accountable to the people who use the service. It is essential, therefore, that people and communities have the right to be included fully in any consultation process. In light of the changes that will be introduced in the near future by local health boards, does the First Minister agree that there should be full consultation between local health boards and the public and communities, and if so, what is the Welsh Government doing to ensure that that happens?

The First Minister: I wholeheartedly agree with what the Member has said. It is very important that the health boards consult in detail with local communities, and a scrutiny process will be carried out by the national clinical forum and by Welsh Ministers.

Eluned Parrott: Brif Weinidog, roeddwn yn falch iawn o'ch clywed yn dweud mai'r economi fydd eich prif flaenoriaeth yn y flwyddyn newydd. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, gwnaethom groesawu lansiad fforwm twf economaidd Cymru ar 12 Rhagfyr. Fodd bynnag, deallaf fod gan y Ffederasiwn Busnesau Bach nifer o bryderon mawr ynghylch yr agweddau ymarferol ar gyflawni'r cynllun, yn benodol ynghylch y

funding to funding available and the timing of the deadline, which gives people six weeks to develop and cost proposals, raise a minimum of £100,000, and then write and submit an application. Are you entirely satisfied with the level of applications?

The First Minister: Yes, I am. It is inevitable that the money will have to be spent within a certain time, but we are encouraged by the healthy number of applications received to date. However, details of those applications obviously are commercially confidential at this time.

The Presiding Officer: Before we move to question 2, I had hoped that I would not have to remind people so early in the new year that this is question time. If you can keep your preamble short and make the questions a little longer, it would be helpful.

Cytuniad UE

2. Sandy Mewies: *A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o'r effaith ar Gymru yn sgil penderfyniad diweddar Prif Weinidog y DU i roi feto ar newidiadau i'r cytuniad UE. OAQ(4)0287(FM)*

The First Minister: It will not be possible to gauge the impact of the alleged veto at the European Council until a clearer picture emerges of the fiscal compact. However, it is important that the UK does not appear to be marginalised in Europe.

Sandy Mewies: Thank you for that. Wales's links with Europe are essential to our future economic prosperity. The EU is our biggest trade destination, and hundreds of thousands of Welsh jobs are dependent on those links. Therefore, First Minister, is it not the case that we in Wales need to continue to strengthen links with Europe and be at the centre of decision making, rather than engaging in the posturing and pandering behaviour displayed by David Cameron, which will only result in isolation and a weakening of our economic interests?

The First Minister: There are two important points here. First, we in Wales have benefited handsomely from European funding,

gymhareb rhwng yr arian cyfatebol a'r arian sydd ar gael ac amseriad y dyddiad cau, sy'n rhoi chwe wythnos i bobl ddatblygu a chostio cynigion, i gasglu o leiaf £100,000, ac yna i lunio ac i gyflwyno cais. A ydych yn gwbl fodlon ar lefel y ceisiadau?

Y Prif Weinidog: Ydw. Mae'n anochel y bydd yn rhaid gwario'r arian o fewn amser penodol, ond rydym wedi ein calonogi gan nifer iach y ceisiadau a ddaeth i law hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae manylion y ceisiadau hynny yn amlwg yn fasnachol gyfrinachol ar hyn o bryd.

Y Llywydd: Cyn inni symud i gwestiwn 2, roeddwn yn gobeithio na fyddai'n rhaid i mi atgoffa pobl mor gynnar yn y flwyddyn newydd mai amser ar gyfer cwestiynau yw hwn. Os gallwch gadw eich rhaglith yn fyr a gwneud eich cwestiynau ychydig yn hwy, byddai o gymorth.

EU Treaty

2. Sandy Mewies: *Has the Welsh Government made any assessment of the impact the Prime Minister's recent veto of changes to the EU treaty will have on Wales. OAQ(4)0287(FM)*

Y Prif Weinidog: Ni fydd yn bosibl mesur effaith y feto honedig yn y Cyngor Ewropeaidd nes y daw darlun cliriach o'r cytundeb cyllidol i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'n ymddangos bod y DU ar y cyrion yn Ewrop.

Sandy Mewies: Diolch am hynny. Mae cysylltiadau Cymru ag Ewrop yn hanfodol i'n ffyniant economaidd yn y dyfodol. Yr UE yw ein marchnad fasnach fwyaf, ac mae cannoedd o filoedd o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar y cysylltiadau hynny. Felly, Brif Weinidog, onid yw'n wir fod angen i ni yng Nghymru barhau i gryfhau cysylltiadau ag Ewrop a bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir, yn hytrach na dilyn ymddygiad ymhongar David Cameron sydd ond yn ceisio plesio, a fydd yn arwain at ynysu'r wlad ac at wanhau ein buddiannau economaidd?

Y Prif Weinidog: Gwnaethoch ddau bwynt pwysig. Yn gyntaf, rydym ni yng Nghymru wedi elwa'n fawr ar gyllid Ewropeaidd, yn

particularly, but not exclusively, structural funds. Also, there are a number of employers who are in Wales because they can access the single European market, and nothing should interfere with that access.

William Graham: First Minister, having been in Brussels three weeks ago today, I know that it was absolutely definite that all officials were only too pleased to engage with the United Kingdom delegation on all aspects of the European Union. The Prime Minister's veto was specifically with regard to financial services, and while they may not be a very popular thing, they employ well over 1 million people, including people in Wales. Anything that does for the prosperity of Wales must be good.

The First Minister: The difficulty with the Prime Minister's position is that it has had no effect, because the reality is that every country in the European Union is now going off to do its own thing, and Britain is now left isolated. What troubles me is that the Prime Minister is in favour of the European Union—and I take him at his word on that—so it is unfortunate that those who were celebrating most were those members of the Conservative Party who, if they thought they could get elected, would stand under a UKIP banner.

Simon Thomas: First Minister, do you agree with me that it is rather ironic that we have a UK Prime Minister who has refused us a referendum on membership of the European Union but thinks that he can tell Scotland when it should have its referendum on membership of the United Kingdom? What are you doing, First Minister, to ensure that whatever happens between the UK Government and Brussels, Wales's voice is directly represented by your Government as we discuss CAP reform and the future of structural funds?

The First Minister: You will of course have seen my views on Wales's national interests, which I expressed before Christmas. There is pragmatic co-operation between the UK Government and the Welsh Government in a

enwedig, ond nid yn unig, drwy gronfeydd strwythurol. Hefyd, mae nifer o gyflogwyr wedi'u lleoli yng Nghymru oherwydd eu bod yn gallu cael mynediad i'r farchnad Ewropeaidd sengl, ac ni ddylai unrhyw beth ymyrryd â'r mynediad hwnnw.

William Graham: Brif Weinidog, oherwydd i mi fod ym Mrwsel dair wythnos yn ôl i heddiw, gwn yn gwbl bendant fod yr holl swyddogion yn falch o ymgysylltu â dirprwyaeth y Deyrnas Unedig ar bob agwedd ar yr Undeb Ewropeaidd. Roedd fetô'r Prif Weinidog yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau ariannol, ac er nad ydynt efallai yn boblogaidd iawn, maent yn cyflogi ymhell dros 1 filiwn o bobl, gan gynnwys pobl yng Nghymru. Mae'n rhaid bod unrhyw beth a ddaw â ffyniant i Gymru yn beth dda.

Y Prif Weinidog: Yr anhawster gyda safbwynt y Prif Weinidog yw nad yw wedi cael unrhyw effaith oherwydd, mewn gwirionedd, mae pob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd yn awr yn dilyn ei thrywydd ei hun, ac mae Prydain yn awr wedi'i hynysu. Yr hyn sy'n fy mhryderu i yw bod y Prif Weinidog o blaid yr Undeb Ewropeaidd—ac rwyf yn cymryd ei air ar hynny—ac felly mae'n anffodus mai'r rhai a oedd yn dathlu fwyaf oedd yr aelodau hynny o'r Blaidd Geidwadol a fyddai'n sefyll o dan faner UKIP, pe byddent yn credu y gallent gael eu hethol.

Simon Thomas: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno â mi ei bod yn eithaf eironig bod gennym Brif Weinidog yn y Deyrnas Unedig sydd wedi gwrthod rhoi refferendwm i ni ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ond sy'n credu y gall ddweud wrth yr Alban pryd y dylai gynnal ei refferendwm ar ei aelodaeth o'r Deyrnas Unedig? Beth rydych yn ei wneud, Brif Weinidog, i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei gynrychioli'n uniongyrchol gan eich Llywodraeth wrth i ni drafod diwygio'r PAC a dyfodol y cronfeydd strwythurol, beth bynnag sy'n digwydd rhwng Llywodraeth y DU a Brwsel?

Y Prif Weinidog: Byddwch, wrth gwrs, wedi gweld fy safbwynt ar fuddiannau cenedlaethol Cymru, a fynegais cyn y Nadolig. Ceir cydweithredu pragmataidd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth

number of areas, as the public would expect, but there will be some issues where there is little scope for agreement. When it comes to the Scottish referendum, I always think it unwise for a UK Prime Minister to get involved in the politics of Scotland when that UK Prime Minister does not represent a Scottish seat.

Cymru mewn nifer o feysydd, fel y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, ond bydd rhai materion lle nad oes llawer o gwmpas i gytuno arnynt. O ran refferendwm yr Alban, rwyf bob amser yn meddwl ei bod yn annoeth i Brif Weinidog y DU gymryd rhan yng ngwleidyddiaeth yr Alban pan nad yw'n cynrychioli sedd yn yr Alban.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol erbyn hyn, Brif Weinidog, fod yr economi'n gwegian a'i bod yn bosibl yr awn i ddirwasgiad eto cyn hir—os nad ydym yno yn barod. Gan eich bod wedi dadlau bod pwerau trethiannol pwysig yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, onid yw'n rhyfedd felly nad ydych wedi ysgrifennu'r un llythyr at David Cameron ar fater yr economi er mis Mai? Pam hynny?

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): I am sure that you will be aware by now, First Minister, that the economy is creaking and that it is possible that we will re-enter recession before long—if we are not there already. As you have argued that important powers on taxation lie in the hands of the UK Government, is it not astonishing that you have not written a single letter to David Cameron on the issue of the economy since May? Why is that?

Y Prif Weinidog: Mae sawl achlysur wedi bod lle cafwyd trafodaeth am yr economi. Llofnodwyd *communiqués* y llynedd gennyf fi, Alex Salmond, Peter Robinson a Martin McGuinness yn mynegi barn am gyflwr yr economi. Y gwahaniaeth i ni, wrth gwrs, yw sicrhau ein bod yn delifro ac nid yn ysgrifennu.

The First Minister: We have had discussions on the economy on a number of occasions. Last year, *communiqués* were signed by me, Alex Salmond, Peter Robinson and Martin McGuinness expressing our views on the state of the economy. The difference for us, of course, is to ensure that we deliver and not just write.

Ieuan Wyn Jones: Fel y'ch atgoffais ychydig yn ôl, nid ydych wedi ysgrifennu llythyr am yr economi at David Cameron, ond yr ydych wedi ysgrifennu llythyr am ffiniau etholiadol, sydd yn amlwg yn dangos eich blaenoriaethau chi.

Ieuan Wyn Jones: As I just reminded you, you have not written a single letter on the economy to David Cameron, but you have written a letter on electoral boundaries, which clearly demonstrates your priorities.

Ar fater arall, er mis Mai, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi chwe Bil. Un a gyhoeddwyd gennych chi, a hwnnw ar fater allweddol is-ddeddfau llywodraeth leol. Hoffwn eich atgoffa, lle bo Llywodraeth Cymru'n Un yn y cwestiwn, yn y ddau fis cyntaf hyd at fis Medi 2007, roedd Llywodraeth Cymru'n Un wedi cyhoeddi tri Gorchymyn a thri Mesur. Mewn datganiad ym mis Medi 2007, dywedoch ein bod 'wedi cymryd camau breision ymlaen' wrth ddwyn deddfwriaeth gerbron.

On another issue, the Scottish Government has published six Bills since May. You have published just one, on the crucial issue of local authority bye-laws. I would like to remind you that, as far as the One Wales Government was concerned, in the first two months up to September 2007, the One Wales Government had published three Orders and three Measures. In a statement in September 2007, you said that we had 'made substantial progress' in bringing forward legislation.

Pam yr oedi gyda'ch Biliau y tro hwn, Brif Weinidog?

Why the delay with your own Bills this time, First Minister?

Y Prif Weinidog: Mae dau Bapur Gwyn wedi cael eu cyhoeddi. Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae rhaglen o ddeddfwriaeth wedi cael ei chyhoeddi gan y Llywodraeth. Nid oes prinder syniadau ar yr ochr hon. Mae'n rhaid imi ddweud nad oedd dim syniadau o gwbl am unrhyw ddeddfwriaeth yn y maniffesto a gyhoeddwyd gan ei blaid ef cyn yr etholiad.

Ieuan Wyn Jones: Rwyf yn eich atgoffa mai chi yw'r Prif Weinidog, ac y byddwn yn craffu ar eich rhaglen ddeddfwriaethol chi, pan fyddwn yn ei chael. Brif Weinidog, ar fater yr economi, y realiti yw nad ydych wedi gwneud dim sylwadau i David Cameron mewn llythyr, ac, o ran materion deddfwriaethol, un Bil rydych chi wedi'i gyhoeddi mewn bron i flwyddyn. Rydych yn dangos diffyg gweithgarwch, brwdfrydedd ac uchelgais dros Gymru ar faterion yn ymwneud â'r economi a deddfu. Ar ôl wyth mis, onid ydy hon yn feirniadaeth ddamniol o'ch Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Yr argraff yr wyf yn ei chael yw bod Plaid Cymru fel hen gar sydd wedi torri lawr wrth ochr y ffordd heb unrhyw danwydd, neu heb syniadau. O ran helpu'r economi, rhoddwyd £55 miliwn i helpu busnesau, rhoddwyd £90 miliwn fel arian cyfalaf, a rhoddwyd £38.9 miliwn yn syth i mewn i'r economi. Y bore yma, gwnaed datganiad am £30 miliwn i helpu sgiliau. Mae'r arian hwn yn dangos ein bod, fel Llywodraeth, eisiau delifro. Y cyfan y mae Plaid Cymru yn ei wneud yw ysgrifennu llythyron.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Some four months ago, First Minister, your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science announced the creation of enterprise zones. Little or no information has since come out to facilitate any understanding of how these enterprises will work; why is this?

The First Minister: We are waiting for final clarification from the Treasury on the capital allowances. We are looking to make an announcement towards the end of this month.

Andrew R.T. Davies: Time and again, I

The First Minister: Two White Papers have been published. As the Member knows, a programme of legislation has been published by the Government. There is no lack of ideas on this side. I must say that there were no ideas at all on legislation in the manifesto published by his party before the election.

Ieuan Wyn Jones: I remind you that you are the First Minister, and it is your programme of legislation that we will scrutinise, when we get it. First Minister, the reality on the economy is that you have made no written representations to David Cameron, and on legislation, you have published just one Bill in almost 12 months. On the issue of the economy and legislation there is a lack of action, enthusiasm and ambition for Wales. After eight months, is that not a damning criticism of your Government?

The First Minister: The impression that I get of Plaid Cymru is that of an old banger, broken down at the side of the road with no fuel, without ideas. In relation to assisting the economy, £55 million has been invested to assist businesses, £90 million has been invested on capital, and £38.9 million has been invested directly in the economy. This morning, an announcement was made of £30 million to assist with skills. That demonstrates that we, as a Government, want to deliver. All that Plaid Cymru does is write letters.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Tua phedwar mis yn ôl, Brif Weinidog, cyhoeddodd eich Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y bydd ardaloedd menter yn cael eu creu. Prin yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd ers hynny i hwyluso unrhyw ddealltwriaeth ynghylch sut y bydd y mentrau hyn yn gweithio; pam hynny?

Y Prif Weinidog: Rydym yn aros am eglurhad terfynol gan y Trysorlys ar y lwfansau cyfalaf. Rydym yn bwriadu gwneud cyhoeddiad tua diwedd y mis hwn.

Andrew R.T. Davies: Rwyf wedi gofyn y

have asked this question. As I understand it, the information is available to your Government. Businesses are waiting, as are the local authorities that will be integral partners in delivering the enterprise zones. Back in the summer, your Minister said

‘what’s been made clear to me over the summer from industry and all the people I’ve spoken to is they regard enterprise zones as a real focal point for them.’

Is it not time that Government officials and your Minister started to drive this programme forward so that people can have confidence that your Government is engaged in economic regeneration in this country?

The First Minister: I repeat that we have not received the information that we require on capital allowances. We look forward to receiving it.

Andrew R.T. Davies: I think that the information exists and is available to you. Listen to what senior business leaders are talking about; David Stevens, who is the chief executive of Admiral Group, has said that if the group was thinking of locating itself in a part of the United Kingdom or the European Union today, it would probably not consider Wales. One of Sir Terry Matthews’s senior executives has compared your Government with something between a small government and a local authority regarding its critical mass and size. When are you and your Minister going to get a grip on economic development in Wales, so that we can move off the bottom of the prosperity table and start moving to the top?

The First Minister: We look forward to seeing the money being made available for the electrification of the Valleys lines and the railway line between Cardiff and Swansea, both of which would stimulate economic development. I can tell the leader of the opposition that both of those schemes would cost substantially less than a one-mile tunnel in Buckinghamshire—it will cost £500 million to buy off the Secretary of State for Wales, and that is money that could be used for the Welsh rail network.

cwestiwn hwn dro ar ôl tro. Hyd y deallaf, mae’r wybodaeth ar gael i’ch Llywodraeth. Mae busnesau’n aros, fel y mae’r awdurdodau lleol a fydd yn bartneriaid hanfodol yn y broses o gyflwyno’r ardaloedd menter. Yn ôl yn yr haf, dywedodd eich Gweinidog

gwnaethpwyd yn glir imi dros yr haf gan ddiwydiant a’r holl bobl rwyf wedi siarad â hwy eu bod yn ystyried ardaloedd menter fel canolbwynt gwirioneddol.

Onid yw’n amser i swyddogion y Llywodraeth a’ch Gweinidog fwrw ymlaen â’r rhaglen hon fel y gall pobl fod yn hyderus bod eich Llywodraeth yn ymwneud ag adfywio economaidd yn y wlad hon?

Y Prif Weinidog: Dywedaf eto nad ydym wedi cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom ar lwfansau cyfalaf. Rydym yn edrych ymlaen at ei chael.

Andrew R.T. Davies: Credaf fod y wybodaeth yn bodoli a’i bod ar gael i chi. Gwrandewch ar yr hyn y mae’r uwch arweinwyr busnes yn ei drafod; mae David Stevens, sef prif weithredwr Grŵp Admiral, wedi dweud pe bai’r grŵp yn ystyried lleoli ei hun mewn rhan o’r Deyrnas Unedig neu’r Undeb Ewropeaidd heddiw, mae’n debyg na fyddai’n ystyried Cymru. Mae un o uwch swyddogion Syr Terry Matthews wedi disgrifio eich Llywodraeth fel rhywbeth rhwng llywodraeth fach ac awdurdod lleol o ran ei màs critigol a’i maint. Pryd rydych chi a’ch Gweinidog yn mynd i fynd i’r afael â datblygu economaidd yng Nghymru, fel y gallwn symud oddi ar waelod y tabl ffyniant a dechrau symud i’r brig?

Y Prif Weinidog: Rydym yn edrych ymlaen at weld yr arian yn cael ei ddarparu ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a’r llinell reilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe; byddai’r ddau ohonynt yn ysgogi datblygiad economaidd. Gallaf ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid y byddai’r ddau gynllun hynny’n costio llawer llai na thwnnel un filltir yn Swydd Buckingham—bydd yn costio £500 miliwn i dalu’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, a gellid defnyddio’r arian hwnnw ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd Cymru.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, before the election last May, Labour promised that it would require general practitioners to make surgeries more accessible by opening in the evenings and on Saturday mornings. In the run-up to Christmas, we saw a number of health boards having to close facilities so that they could redirect their staff to larger centres because of an issue with recruitment and retention of staff. In November, you told us that you were launching a campaign to attract doctors to Wales to address these staff shortages. However, there is still no sign of that campaign, either. When will you make progress on these two health promises that you have made to the people of Wales?

1.45 p.m.

The First Minister: First, progress is being made with GP appointments. The other issue that you raise is to do with accident and emergency departments, particularly in Pwllheli, Tenby and, I believe, Pembroke Dock, where staff had to be diverted to Worthybush General Hospital. We will begin the campaign to attract new doctors to Wales this month.

Kirsty Williams: Thank you for that clarity, First Minister. However, constituents continue to raise questions about access to GPs, and no decision has yet been taken by the Minister for Health and Social Services to sign off on that recruitment campaign for doctors.

Moving on to another area in which there is concern about a lack of progress, in October, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science scrapped the Prince of Wales Innovation Scholarships scheme that supported research projects of national and international excellence within the business sector. Before Christmas, she announced a further delay in providing the details of the long-awaited enterprise zones. Could you clarify when a decision will be made on a successor project for POWIS?

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, cyn yr etholiad fis Mai diwethaf, addawodd Llafur y byddai'n ei gwneud yn ofynnol bod meddygon teulu yn gwneud meddygfeydd yn fwy hygyrch drwy agor gyda'r nos ac ar foreau Sadwrn. Yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, bu'n rhaid i nifer o fyrddau iechyd gau cyfleusterau er mwyn iddynt allu ailgyfeirio eu staff i ganolfannau mwy oherwydd y broblem o ran recriwtio a chadw staff. Ym mis Tachwedd, dywedasoeh wrthym eich bod yn lansio ymgyrch i ddenu meddygon i Gymru i fynd i'r afael â'r prinder staff. Fodd bynnag, nid oes dal unrhyw arwydd o'r ymgyrch honno ychwaith. Pryd y byddwch yn gwneud cynnydd ar y ddau addewid iechyd hyn rydych wedi'u gwneud i bobl Cymru?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, mae cynnydd yn cael ei wneud o ran apwyntiadau meddyg teulu. Mae'r mater arall rydych yn ei godi yn ymwneud ag adrannau damweiniau ac achosion brys, yn enwedig ym Mhwillheli, yn Ninbych y Pysgod ac, rwy'n credu, yn Noc Penfro, lle'r oedd rhaid i staff gael eu symud i Ysbyty Cyffredinol Llwyn Helyg. Byddwn yn dechrau'r ymgyrch i ddenu meddygon newydd i Gymru y mis hwn.

Kirsty Williams: Diolch am yr eglurder hwnnw, Brif Weinidog. Fodd bynnag, mae etholwyr yn parhau i ofyn cwestiynau am gael gafael ar feddygon teulu, ac nid yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad eto o ran cymeradwyo'r ymgyrch recriwtio ar gyfer meddygon.

Rwyf am symud ymlaen i faes arall lle mae pryder am ddiffyg cynnydd. Ym mis Hydref, bu i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth gael gwared ar gynllun Ysgoloriaeth Arloesi Tywysog Cymru, a oedd yn cefnogi prosiectau ymchwil o ragoriaeth genedlaethol a rhyngwladol o fewn y sector busnes. Cyn y Nadolig, dywedodd fod oedi pellach o ran darparu manylion yr ardaloedd menter hirdisgwyliedig. A allwch egluro pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar brosiect i

With regard to the enterprise zones, could you confirm that your Minister has set the boundaries for those zones, and has established the policy interventions in each of them? Her letter of last month indicated that she had done neither.

The First Minister: In relation to POWIS, the plan is to look at putting forward a replacement scheme during the course of this month. With regard to the enterprise zones, we still await the full information on capital allowances. We remain committed, of course, to enterprise zones. We have had a number of new applications for enterprise zones in other parts of Wales, and they are currently being assessed.

Kirsty Williams: With respect, First Minister, that is not the question I asked you. In her letter to me last month, the Minister confirmed that she had not agreed the boundaries of the enterprise zones that she had already announced, nor had she agreed the exact policy interventions for them. I ask you again: has she now made a decision on those two crucial, strategic questions? She had not in December. Is it not the reality that decision after decision is flunked, delayed, fudged or avoided altogether? The Minister for housing tells us that there is a need for the Government to set a target for the building of new homes; no target has been set. The Minister for environment has kicked a decision on bovine TB into the long grass, and the Minister for transport is keeping councils and bus companies waiting with regard to the level of grant that will be available. Whether it is health, the economy, the environment or transport, your Government is failing to take the decisions that the people of Wales need. Should that not be your new year's resolution: to take those decisions and get Wales moving?

The First Minister: We have a number of decisions that will be announced in the near future. They have been considered very carefully. It cannot be right, on the one hand, to accuse the Government of prevarication and, on the other, to suggest that it should

olynu POWIS? O ran yr ardaloedd menter, a allwch gadarnhau bod eich Gweinidog wedi gosod y ffiniau ar gyfer yr ardaloedd hynny, a'i bod wedi sefydlu'r ymyriadau polisi ym mhob un ohonynt? Mae ei llythyr, a anfonodd fis diwethaf, yn dangos nad yw wedi gwneud yr un o'r pethau hynny.

Y Prif Weinidog: Mewn perthynas â POWIS, y bwriad yw edrych ar gynnig cynllun newydd yn ystod y mis hwn. O ran yr ardaloedd menter, rydym yn dal i aros am y wybodaeth lawn am lwfansau cyfalaf. Rydym yn parhau i ymrwymo, wrth gwrs, i'r ardaloedd menter. Rydym wedi cael nifer o geisiadau newydd ar gyfer ardaloedd menter mewn rhannau eraill o Gymru, ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Kirsty Williams: Gyda pharch, Brif Weinidog, nid dyna'r cwestiwn a ofynnais ichi. Yn ei llythyr i mi fis diwethaf, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd wedi cytuno ar ffiniau'r ardaloedd menter yr oedd wedi'u cyhoeddi eisoes, ac nad oedd wedi cytuno ar yr union ymyriadau polisi ar eu cyfer. Gofynnaf ichi eto: a yw hi bellach wedi gwneud penderfyniad ar y ddau fater hanfodol a strategol hyn? Nid oedd wedi gwneud hynny ym mis Rhagfyr. Onid y realiti yw bod penderfyniad ar ôl penderfyniad yn methu, yn cael ei oedi, yn cael ei wyrdroi, neu'n cael ei osgoi yn gyfan gwbl? Mae'r Gweinidog tai yn dweud wrthym fod angen i'r Llywodraeth bennu targed ar gyfer adeiladu cartrefi newydd; nid oes targed wedi'i osod. Mae Gweinidog yr amgylchedd wedi rhoi'r penderfyniad ar TB buchol o'r neilltu, ac mae'r Gweinidog trafnidiaeth yn cadw cynghorau a chwmnïau bysiau i aros o ran lefel y grant a fydd ar gael. P'un a ydyn yn sôn am iechyd, yr economi, yr amgylchedd neu drafnidiaeth, mae eich Llywodraeth yn methu â gwneud y penderfyniadau y mae pobl Cymru eu hangen. Onid hynny ddylai fod eich adduned blwyddyn newydd: i wneud y penderfyniadau hynny ac i symud Cymru ymlaen?

Y Prif Weinidog: Mae gennym nifer o benderfyniadau, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos. Maent wedi cael eu hystyried yn ofalus iawn. Ni all fod yn iawn, ar y naill law, i gyhuddo'r Llywodraeth o osgoi ymateb ac, ar y llaw arall, i awgrymu y

consult widely. The two things do not go together in the sense of ensuring that people have the opportunity to have their say before Ministers take decisions. We all saw what happened to the UK Government with feed-in tariffs on solar panels; it took a decision to get rid of the subsidy before the consultation period had even ended. We saw what happened in the court action that took place afterwards. We have shown time and again that we are delivering for the people of Wales, and we will continue to do so.

Digartrefedd

3. Rebecca Evans: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddigartrefedd yng Nghymru. OAQ(4)0284(FM)*

The First Minister: The latest figures show a continued increase in homelessness in Wales. This is due to a combination of economic and housing market pressures, which will not be helped by the policies of the UK Government. We will do all that we can to mitigate those pressures.

Rebecca Evans: First Minister, homelessness is at a five-year high in Wales, and with rising living costs and cuts to housing benefit, many families face an uncertain future in 2012. I welcome your commitment to getting long-term empty properties back into use. How are you supporting local authorities to take urgent strides in that direction?

The First Minister: In December we announced £5 million of new investment for a national co-ordinated programme of action to tackle empty homes. It provides local authorities with working capital to develop a recyclable loan fund, which will help to overcome one of the main barriers to empty homes being brought back into use.

Mark Isherwood: As you know, one of the main contributory factors to homelessness is

dylai ymgynghori'n eang. Nid yw'r ddau beth yn cyd-fynd o ran sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i leisio eu barn cyn i Weinidogion wneud penderfyniadau. Gwelsom i gyd yr hyn a ddigwyddodd i Lywodraeth y DU gyda'r tariff cyflenwi trydan ar gyfer paneli solar; penderfynodd gael gwared ar y cymhorthdal cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, hyd yn oed. Gwelsom yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos llys a ddigwyddodd ar ôl hynny. Rydym wedi dangos dro ar ôl tro ein bod yn cyflawni dros bobl Cymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Homelessness

3. Rebecca Evans: *Will the First Minister make a statement on homelessness in Wales. OAQ(4)0284(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd parhaus mewn digartrefedd yng Nghymru. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o bwysau economaidd a phwysau yn y farchnad dai, na fydd yn cael eu helpu gan bolisiau Llywodraeth y DU. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r pwysau hynny.

Rebecca Evans: Brif Weinidog, mae digartrefedd yng Nghymru yn uwch nag y bu ar unrhyw bryd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gyda chostau byw yn codi a thoriadau i'r budd-dal tai, mae llawer o deuluoedd yn wynebu dyfodol ansicr yn 2012. Croesawaf eich ymrwymiad i ddefnyddio eiddo sydd wedi bod yn wag dros gyfnod hir o amser. Sut ydych yn cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau brys yn y cyfeiriad hwnnw?

Y Prif Weinidog: Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi £5 miliwn o fuddsoddiad newydd ar gyfer rhaglen weithredu genedlaethol gydlynol i fynd i'r afael â chartrefi gwag. Mae'n rhoi cyfalaf gweithio i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu cronfa ar gyfer benthyciadau y gellir eu hailgylchu, a fydd yn helpu i oresgyn un o'r prif rwystrau i ddefnyddio cartrefi gwag eto.

Mark Isherwood: Fel y gwyddoch, un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd

mortgage repossession—either repossession of the homeowner or, increasingly, repossession of the landlord, where the tenant may be vulnerable if there was not an effective tenancy agreement in place. The good news is that the Council of Mortgage Lenders has indicated that the number of repossessions in 2011 was significantly below the number forecast.

In Wales, we know that the figures peaked at nearly 8,000 in 2008 but fell to around 3,000 in 2011. However, as the council has said, it is not sanguine. We are all aware that we face difficult times, that there are ongoing pressures and there is no doubt that there are difficult times ahead for homeowners, landlords and tenants. Therefore, what action is your Government taking to prevent mortgage repossessions for homeowners and in cases where tenants are affected by action being taken against their landlords?

The First Minister: We have committed £1.4 million over two years to help to mitigate the impact of the housing benefit cuts through offering advice to tenants and landlords. We have put in place a comprehensive review of the existing legislation on homelessness, which is part of the work being done as we move forward on the housing Bill. The homelessness grant programme continues to support a range of services to prevent homelessness and supports more than 100 projects across Wales.

Leanne Wood: First Minister, the changes to housing benefit, coupled with other attacks on the welfare state, will have—and are already having—a detrimental impact on the level of homelessness in Wales. These are ideological changes that are being carried out to appease the Tory press, rather than being based on evidence. The logical conclusion of opposition to Westminster taking decisions like this is that decisions should instead be made here, where we can at least make those decisions based on the interests of the people living in Wales as opposed to the interests of tabloid headline writers. Does the First

Minister yw adfeddiannu mewn perthynas â morgais—naill ai adfeddiannu eiddo perchennog tŷ neu, yn gynyddol, adfeddiannu eiddo landlord, lle gallai'r tenant fod yn agored i niwed os nad oedd cytundeb tenantiaeth effeithiol ar waith. Y newyddion da yw bod Cyngor Benthycwyr Morgeisi wedi nodi bod nifer yr achosion o adfeddiannu yn 2011 yn sylweddol is na'r nifer a ragwelwyd.

Yng Nghymru, rydym yn gwybod bod y ffigurau wedi cyrraedd uchafbwynt o bron i 8,000 yn 2008, ond iddynt ostwng i tua 3,000 yn 2011. Fodd bynnag, fel y mae'r cyngor wedi dweud, nid yw'n sefyllfa obeithiol. Rydym i gyd yn ymwybodol ein bod yn wynebu cyfnod anodd, bod pwysau parhaus, ac nid oes amheuaeth bod cyfnod anodd i ddod ar gyfer perchnogion tai, landlordiaid a thenantiaid. Felly, pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i atal adfeddiannu mewn perthynas â morgais i berchnogion tai ac mewn achosion lle bydd camau sy'n cael eu cymryd yn erbyn landlordiaid yn effeithio ar eu tenantiaid?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi ymrwymo £1.4 miliwn dros ddwy flynedd er mwyn helpu i liniaru ar effaith y toriadau i fudd-dal tai drwy gynnig cyngor i denantiaid ac i landlordiaid. Rydym wedi sefydlu adolygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddigartrefedd, sy'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud wrth inni symud ymlaen ar y Bil tai. Mae'r rhaglen grantiau digartrefedd yn parhau i gefnogi amrywiaeth o wasanaethau i atal digartrefedd ac mae'n cefnogi mwy na 100 o brosiectau ledled Cymru.

Leanne Wood: Brif Weinidog, bydd y newidiadau i'r budd-dal tai, ynghyd ag ymosodiadau eraill ar y wladwriaeth les, yn cael effaith andwyol ar lefel y digartrefedd yng Nghymru; yn wir, mae eisoes yn cael effaith andwyol arni. Mae'r rhain yn newidiadau ideolegol sy'n cael eu gwneud i fodloni'r wasg Doriaidd, yn hytrach na bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Os ydych yn gwrthwynebu bod San Steffan yn gwneud penderfyniadau fel hyn, y casgliad rhesymegol yw y dylid gwneud penderfyniadau yn y fan hon, lle gallwn o leiaf wneud y penderfyniadau hynny ar sail

Minister agree with that analysis?

The First Minister: I have always been a strong supporter of devolution, but I always counsel carefully against taking powers without having the budget to follow. One concern that I would have were housing benefit to be completely devolved would be that the UK Government would fail to deliver the right level of financial support to enable the Government to do what it wished to do in Wales.

Joyce Watson: First Minister, you will have seen reports in the news last week about the increase in the number of people turning to payday loans to cover their mortgage or rent. As more people feel the squeeze, do you agree that free debt advice services offer vital support to those struggling with debt and helping them to avoid falling into arrears and risking losing their homes? What can your Government do to put pressure on the UK Government to force banks to continue to fund free debt services after this April, when that funding is due to come to an end? What can the Welsh Government do to crack down on rogue debt advice firms that charge hidden fees and cold call vulnerable people?

The First Minister: We work closely with Citizens Advice Cymru and other stakeholders to identify these issues and deal with them. However, it is right to say that the advice sector, particularly third sector providers, is facing significant pressures, particularly in light of welfare reform and the changes being made to legal aid and the impact of the reduction in funding through the financial inclusion fund. However, we are in close contact with the independent advice providers' forum in order to support not-for-profit organisations in Wales to ensure that we can help to mitigate the effect of the changes that are occurring.

Sector Manwerthu

buddiannau'r bobl sy'n byw yng Nghymru, yn hytrach na buddiannau awduron penawdau'r papurau tabloid. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ar y dadansoddiad hwnnw?

Y Prif Weinidog: Rwyf bob amser wedi cefnogi datganoli yn gryf, ond rwyf bob amser yn cynghori'n ofalus yn erbyn cymryd pwerau heb gael y gyllideb i ddilyn hynny. Pe bai budd-dal tai yn cael ei ddatganoli yn llwyr, byddwn yn pryderu y byddai Llywodraeth y DU yn methu â darparu'r lefel gywir o gymorth ariannol i alluogi'r Llywodraeth i wneud yr hyn a oedd yn dymuno ei wneud yng Nghymru.

Joyce Watson: Brif Weinidog, byddwch wedi gweld adroddiadau yn y newyddion yr wythnos diwethaf am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n troi at fenthyciadau diwrnod cyflog i dalu eu morgais neu eu rhent. Wrth i fwy o bobl deimlo'r wasgfa, a ydych chi'n cytuno bod gwasanaethau cyngor ar ddyledion am ddim yn cynnig cefnogaeth hanfodol i'r rheini sy'n cael trafferth â dyledion ac yn eu helpu i osgoi mynd i ddyled a'r perygl o golli eu cartrefi? Beth all eich Llywodraeth ei wneud i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i orfodi banciau i barhau i ariannu gwasanaethau dyled am ddim ar ôl mis Ebrill eleni, pan fydd y cyllid yn dod i ben? Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael â chwmnïau cyngor ar ddyledion twyllodrus sy'n codi ffioedd cudd ac yn ffonio pobl sy'n agored i niwed heb rybudd?

Y Prif Weinidog: Rydym yn gweithio'n agos â Chyngor ar Bopeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i nodi'r materion hyn ac i ymdrin â hwy. Fodd bynnag, mae'n iawn dweud bod y sector cynghori, ac yn enwedig darparwyr yn y sector preifat, yn wynebu pwysau sylweddol, yn enwedig yng ngoleuni diwygiadau lles a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i gymorth cyfreithiol ac effaith y gostyngiad i'r cyllid sydd ar gael drwy'r gronfa cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, rydym mewn cysylltiad agos â fforwm y darparwyr cyngor annibynnol er mwyn cefnogi sefydliadau di-elw yng Nghymru i sicrhau y gallwn helpu i liniaru ar effaith y newidiadau sy'n digwydd.

Retail Sector

4. Peter Black: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau ei Lywodraeth ynghylch y sector manwerthu yng Nghymru. OAQ(4)0282(FM)*

The First Minister: As the Member will be aware, we are currently reviewing the best way to support businesses in Wales, particularly small and micro-businesses, many of which are retailers. Members will know that we are also reviewing our business rate policy.

Peter Black: Thank you for that answer, First Minister. You will know that many retailers, particularly those based in town and city centres, complain about the impact that out-of-town retail centres and large supermarkets have on their business. When you put together the promised Bill on planning, will you look at this aspect? What views do you have regarding ways in which we can counter that influence?

The First Minister: This is one issue that clearly resonates with members of the public. It is important that town centres are attractive places for people to come to shop. It is also important that we consider carefully what town centres should look like in the future—as they clearly will not be the same as they were 10 or 20 years ago—to ensure that there is sufficient business in town centres to attract people in and to ensure that retailers can make a living.

Nick Ramsay: First Minister, you spoke earlier about the importance of delivery, and I am sure that you will agree that there is a world of difference between words and actions when it comes to delivery. In terms of the problems affecting our town centres at the moment and the threat posed by supermarkets and other organisations, in the run up to the Assembly elections, my party proposed a shopkeeper strategy as a way of listening to those in the retail sector so that Government policy could be better fitted. Will you consider adopting a shopkeeper strategy or a wider retail strategy that will genuinely listen to the problems that shopkeepers are having,

4. Peter Black: *Will the First Minister make a statement on his Government's policies concerning the retail sector in Wales. OAQ(4)0282(FM)*

Y Prif Weinidog: Fel y mae'r Aelod yn gwybod, ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r ffordd orau o gefnogi busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a microfusnesau, y mae llawer ohonynt yn fanwerthwyr. Bydd Aelodau yn gwybod ein bod hefyd yn adolygu ein polisi cyfraddau busnes.

Peter Black: Diolch am hynny, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod llawer o fanwerthwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd, yn cwyno am yr effaith y mae canolfannau manwerthu y tu allan i'r dref ac archfarchnadoedd mawr yn ei gael ar eu busnes. Pan fyddwch yn llunio'r Bil cynllunio a addawyd gennych, a fyddwch yn edrych ar yr agwedd hon? Beth yw eich barn ynghylch sut y gallwn wrthbwysu'r dylanwad hwnnw?

Y Prif Weinidog: Mae hwn yn fater sy'n amlwg yn bwysig i aelodau o'r cyhoedd. Mae'n bwysig bod canol trefi yn lleoedd atyniadol i bobl ddod i siopa. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried yn ofalus sut y dylai canol trefi edrych yn y dyfodol—gan ei bod yn amlwg na fyddant yr un fath ag yr oeddent 10 neu 20 mlynedd yn ôl—er mwyn sicrhau bod digon o fusnes yng nghanol trefi i ddenu pobl i mewn ac i sicrhau y gall manwerthwyr ennill bywoliaeth.

Nick Ramsay: Brif Weinidog, soniasoch yn gynharach am bwysigrwydd cyflawni, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod byd o wahaniaeth rhwng geiriau a gweithredoedd pan mae cyflawni yn y cwestiwn. O ran y problemau sy'n effeithio ar ganol ein trefi ar hyn o bryd a'r bygythiad a berir gan archfarchnadoedd a sefydliadau eraill, yn y cyfnod cyn etholiad y Cynulliad, cynigiodd fy mhlaid strategaeth ar gyfer perchnogion siopau fel ffordd o wrando ar y rhai yn y sector manwerthu, fel y gellid teilwra polisi'r Llywodraeth yn well. A fyddwch yn ystyried mabwysiadu strategaeth ar gyfer perchnogion siopau neu strategaeth manwerthu ehangach a

so that we can address that particular problem?

The First Minister: We always listen to the problems of small retailers; I am sure that all Assembly Members do so as part of their work. These are difficult times for retailers, and not just for smaller retailers—as we know from the results that have been published, these are also difficult times for larger retailers. There was a particular challenge to retailers last year from online retailing, and that challenge will increase in years to come. It is important that we take steps—planning is one way of doing this—to make sure that our towns have vibrant centres.

Alun Ffred Jones: Gyda thymor pwysig y Nadolig newydd fynd heibio, byddwch yn ymwybodol bod nifer o ffactorau yn effeithio'n negyddol ar siopau yng nghanol trefi—dyna pam mae Plaid Cymru yn credu y dylid cael strategaeth fanwerthu. Os bydd adolygiad ardrethi busnes yr Athro Brian Morgan yn argymhell ehangu'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, a fyddwch mewn sefyllfa i allu ymateb yn gadarnhaol?

Y Prif Weinidog: Gallwn ymateb, wrth gwrs, ond mae pethau yn dibynnu ar faint o arian sydd ar gael.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(4)0285(FM), has been withdrawn.

Undeb Ewropeaidd

6. William Powell: *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ei ohebiaeth ddiweddar â Phrif Weinidog y DU yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd. OAQ(4)0294(FM)*

The First Minister: Following the UK veto at December's European Council, I wrote to the Prime Minister voicing my concern that the UK was in danger of marginalising itself and outlining the difficulties that would be caused to devolved administrations through a lack of consultation. He has responded, and I welcome his words that the UK will remain a

fydd wir yn gwrando ar broblemau perchnogion siopau, er mwyn inni fynd i'r afael â'r broblem honno?

Y Prif Weinidog: Rydym bob amser yn gwrando ar broblemau manwerthwyr bach; rwy'n siŵr bod holl Aelodau'r Cynulliad yn gwneud hynny fel rhan o'u gwaith. Mae hwn yn gyfnod anodd i fanwerthwyr, ac nid yn unig ar gyfer manwerthwyr llai—fel y gwyddom o ddarllen y canlyniadau a gyhoeddwyd, mae hefyd yn gyfnod anodd ar gyfer manwerthwyr mwy o faint. Roedd manwerthwyr yn wynebu her arbennig y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i fanwerthu ar-lein, a bydd yr her honno yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau—mae'r broses gynllunio yn un ffordd o wneud hyn—i sicrhau bod canol ein trefi yn ffynnu.

Alun Ffred Jones: The important Christmas season has just ended, so you will be aware that a number of factors negatively impact upon shops in town centres—that is why Plaid Cymru believes that we should have a retail strategy. If the business rate review being carried out by Professor Brian Morgan recommends extending the business rate relief scheme, will you be in a position to respond positively?

The First Minister: We can respond, of course, but things depend on how much money is available.

Y Llywydd: Tynnwyd Cwestiwn 5, OAQ(4)0285(FM), yn ôl.

European Union

6. William Powell: *Will the First Minister update the Assembly on his recent correspondence with the Prime Minister on the European Union. OAQ(4)0294(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn dilyn fetu y DU yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr, ysgrifennais at y Prif Weinidog i leisio fy mhryder bod y DU mewn perygl o ymyleiddio ei hun ac i amlinellu'r anawsterau i weinyddiaethau datganoledig o ganlyniad i ddiffyg ymgynghori. Mae wedi ymateb, a chroesawaf y ffaith ei fod wedi dweud y bydd

committed and influential member of the EU.

William Powell: As was said in answer to an earlier question, there is particular concern that the marginalisation that might result from the exercise of the so-called veto may make things difficult in conducting negotiations on the development of the common agriculture policy, the common fisheries policy and other critical areas. Have you raised those specific areas with the Prime Minister or with any other representatives in Westminster or Brussels?

The First Minister: I have said publicly that where a country is marginalised without any friends or allies in Europe, it is a failure of diplomacy. It is also important to understand that the rules will continue to be drawn up by the European Commission and the European Council but that the UK's influence on those rules will be diminished as a result. However, UK producers will still have to follow them. It is crucial that the UK plays a strong and central role in the European Union for the good of our manufacturers, and particularly for the good of our farmers.

Byron Davies: Is not unreasonable for us to expect you, in your position as First Minister and given the importance of improving the Welsh economy, to have a handle on Welsh exports within the EU. Can you explain how you got Wales's export figures to the EU so wrong in your letter to the Prime Minister? Do you appreciate that we are the least exposed nation within the UK to EU trade? What are your plans to deal with this?

The First Minister: Does the Member really believe that the Ford factory would be in Bridgend if we were not members of the European Union? Does he believe that Tata Steel would be in Port Talbot if we were not members of the European Union? Does he believe that Airbus UK would be on Deeside if we were not members of the European Union? The UK market is too small; the European market is very large. In line with many other parts of the UK, 150,000 jobs in Wales rely on our membership of the

y DU yn parhau i fod yn aelod ymrwymedig a dylanwadol o'r UE.

William Powell: Fel y dywedwyd mewn ateb i gwestiwn blaenorol, mae pryder arbennig y gallai'r ymleiddio a allai ddeillio o arfer y fetto hon, fel y'i gelwir, wneud pethau'n anodd wrth gynnal trafodaethau ar ddatblygu'r polisi amaethyddol cyffredin, y polisi pysgodfeydd cyffredin a meysydd allweddol eraill. A ydych wedi codi'r materion penodol hynny gyda'r Prif Weinidog neu gydag unrhyw gynrychiolwyr eraill yn San Steffan neu ym Mrwsel?

Y Prif Weinidog: Lle bo gwlad ar yr ymylon heb unrhyw ffrindiau neu gynghreiriaid yn Ewrop, mae'n fethiant o ran diplomyddiaeth. Rwyf wedi dweud hynny yn gyhoeddus. Mae hefyd yn bwysig deall y bydd y rheolau yn parhau i gael eu llunio gan y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ewropeaidd, ond y bydd dylanwad y DU ar y rheolau hynny yn lleihau o ganlyniad. Fodd bynnag, bydd cynhyrchwyr y DU yn dal yn gorfod eu dilyn. Mae'n hanfodol bod y DU yn chwarae rhan gref a chanolog yn yr Undeb Ewropeaidd, er budd ein cynhyrchwyr, ac yn enwedig er budd ein ffermwyr.

Byron Davies: Nid yw'n afresymol inni ddisgwyl i chi, yn eich swydd fel Prif Weinidog, ac o ystyried pwysigrwydd gwella economi Cymru, ddeall sefyllfa allforion Cymru yn yr UE. A allwch esbonio sut y cawsoch ffigurau allforio Cymru i'r UE mor anghywir yn eich llythyr at y Prif Weinidog? A ydych yn sylweddoli mai ni yw'r genedl leiaf agored yn y DU o ran masnachu i'r Undeb Ewropeaidd? Beth yw eich cynlluniau i ddelio â hyn?

Y Prif Weinidog: A yw'r Aelod wir yn credu y byddai'r ffatri Ford wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr os nad oeddem yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd? A yw'n credu y byddai Tata Steel wedi'i leoli ym Mhort Talbot os nad oeddem yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd? A yw'n credu y byddai Airbus UK wedi'i leoli ar Lannau Dyfrdwy os nad oeddem yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd? Mae marchnad y DU yn rhy fach; mae'r farchnad Ewropeaidd yn fawr iawn. Yn unol â llawer o rannau eraill o'r

European Union and access to the single European market. Without it, we would lose those jobs, and, on top of that, our farming industry would be decimated.

Llyr Huws Gruffydd: Gyda Phrydain wedi ei hynysu i'r fath raddau a goblygiadau hynny i fuddiannau Cymru, a fyddech yn cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn bwysicach nag erioed fod gan Gymru ei llais uniongyrchol ei hun o fewn yr Undeb Ewropeaidd?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig iawn fod gan Gymru lais cryf, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi ei adeiladu dros y blynyddoedd. Mae hynny'n cynnwys swyddfa a staff amser llawn ym Mrwsel yn cynrychioli Cymru o ddydd i ddydd.

Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd

7. Julie Morgan: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Network Rail am drydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd. OAQ(4)0288(FM)*

2.00 p.m.

The First Minister: We have held a number of discussions with the UK Government on the electrification of the Valleys network, and these are continuing. We have worked closely with Network Rail and others in preparing an outline business case, which was submitted to the Department for Transport in December.

Julie Morgan: If the business case for the electrification of the Valleys lines is viewed positively by the Treasury—which I am sure that it will be—what will be the next steps? How will funding be achieved in view of the fact that it is mostly non-devolved funding that will be required, and what will be the timetable?

The First Minister: Funding for railways infrastructure is not devolved, so it is reasonable that the people of Wales should expect to see a substantial amount of money

DU, mae 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a mynediad at y farchnad Ewropeaidd sengl. Heb hynny, byddem yn colli'r swyddi hynny, ac, ar ben hynny, byddai ein diwydiant ffermio yn cael ei ddifetha.

Llyr Huws Gruffydd: Given that Britain has become so marginalised, with the resulting implications for Wales's interests, would you agree, First Minister, that it is more important than ever that Wales has its own, direct voice within the European Union?

The First Minister: It is very important that Wales has a strong voice, and that is something that we have built up over the years. That includes an office and full-time staff in Brussels, representing Wales from day to day.

Electrification of Valley Lines

7. Julie Morgan: *What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales and Network Rail about the electrification of the Valleys Lines. OAQ(4)0288(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi cynnal nifer o drafodaethau â Llywodraeth y DU ar drydaneiddio rhwydwaith y Cymoedd, ac mae'r rhain yn parhau. Rydym wedi gweithio'n agos â Network Rail ac eraill wrth baratoi achos busnes amlinellol a gyflwynwyd i'r Adran Drafnidiaeth ym mis Rhagfyr.

Julie Morgan: Os bydd yr achos busnes ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn cael ymateb cadarnhaol gan y Trysorlys—ac rwy'n siŵr y bydd—beth fydd y camau nesaf? Sut y bydd y cyllid yn cael ei sicrhau o ystyried mai cyllid sydd heb ei ddatganoli sydd ei angen yn bennaf, a beth fydd yr amserlen?

Y Prif Weinidog: Nid yw ariannu'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli, felly mae'n rhesymol y dylai pobl Cymru ddisgwyl gweld swm sylweddol o arian yn dod i

come to Wales. The electrification of the Valleys network and of the line between Cardiff and Swansea would work out far cheaper than the 1.4 mile tunnel that is being built in Buckinghamshire for HS2. I have no comment to make about that tunnel; that is a matter for the people who live there and the UK Government but, if £500 million is going to Buckinghamshire, Wales deserves electrification.

Andrew R.T. Davies: The First Minister seems to be fixated with the Secretary of State for Wales's constituency. You have your own budget, which is Barnettised, and you allocate that money accordingly. That was a perfectly reasonable question from your own backbencher as to what actions you will take, but you chose to speak again about the Secretary of State's constituency. When are you going to start facing up to things and representing people in Wales and working for the best interests of businesses in Wales? We on this side wholly support the electrification of the Valleys lines and we will offer that support to the Government. Instead of reverting to your bunker in Cathays park, it is time that you engaged positively with the Westminster Government for the betterment of Wales.

The First Minister: He does not know that railway infrastructure is not devolved. He does not know that the budget is held in Westminster, not in Cardiff. The reality is that money for electrification is held by the UK Government for the benefit of England and Wales. The point that I make is simply this: if £500 million can be found for a 1 mile tunnel in Buckinghamshire, that money can be found for Valleys lines electrification and, indeed, for electrification of the line between Cardiff and Swansea. It is a shame that the leader of the opposition keeps on cleaving to his mistress's line.

Lindsay Whittle: First Minister, it was 42 years ago, in 1970, that Dr Phil Williams and I stood outside Bargoed train station calling for the electrification of the Rhymney valley line. So we may be getting there. Will you

Gymru. Byddai trydaneiddio rhwydwaith y Cymoedd a'r lein rhwng Caerdydd ac Abertawe yn llawer rhatach na'r twnnel 1.4 milltir o hyd sy'n cael ei adeiladu yn Swydd Buckingham ar gyfer HS2. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y twnnel; mae'n fater i'r bobl sy'n byw yno a Llywodraeth y DU ond, os yw £500 miliwn yn mynd i Swydd Buckingham, mae Cymru yn haeddu trydaneiddio.

Andrew R.T. Davies: Mae'n ymddangos bod gan y Prif Weinidog obsesiwn ag etholaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae gennych eich cyllideb ei hun, sy'n destun fformiwla Barnett, ac rydych yn dyrannu arian yn unol â hynny. Roedd y cwestiwn hwnnw'n gwbl resymol gan Aelod o'ch meinciau cefn eich hun o ran pa gamau y byddwch yn eu cymryd, ond rydych yn mynnu siarad am etholaeth yr Ysgrifennydd Gwladol. Pryd ydych chi'n mynd i ddechrau wynebu pethau a chynrychioli pobl yng Nghymru a gweithio er budd busnesau yng Nghymru? Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn gwbl gefnogol i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a byddwn yn cynnig y gefnogaeth honno i'r Llywodraeth. Yn hytrach na chilio'n ôl i'ch byncer ym mharc Cathays, mae'n amser ichi weithio'n gadarnhaol â Llywodraeth San Steffan er budd Cymru.

Y Prif Weinidog: Nid yw e'n gwybod bod seilwaith y rheilffyrdd heb ei ddatganoli. Nid yw'n gwybod mai yn San Steffan, ac nid yng Nghaerdydd, y mae'r gyllideb yn cael ei chadw. Y realiti yw bod yr arian ar gyfer trydaneiddio yn cael ei gadw gan Lywodraeth y DU er lles Cymru a Lloegr. Mae'r pwynt yr wyf i'n ei wneud yn un syml: os oes modd dod o hyd i £500 miliwn ar gyfer milltir o dwnnel yn Swydd Buckingham, gellir dod o hyd i arian i drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd ac, yn wir, i drydaneiddio'r lein rhwng Caerdydd ac Abertawe. Mae'n drueni bod arweinydd yr wrthblaid yn mynnu glynu at yr hyn y mae ei feistres yn ei ddweud wrtho.

Lindsay Whittle: Brif Weinidog, 42 mlynedd yn ôl, yn 1970, roeddwn i a Dr Phil Williams yn sefyll y tu allan i orsaf drenau Bargoed yn galw am drydaneiddio rheilffordd cwm Rhymni. Felly, efallai ein

use your influence to ensure that electrification begins at the Heads of the Valleys and moves south? I fear that if electrification starts at the cities and moves north it will take another 42 years to get there.

The First Minister: It has to go all the way. There would be no point electrifying between Rhymney and Pontlottyn, but I understand that you would want electrification between Rhymney and Cardiff. Electrification is a serious issue. I hope that, in the medium to long term, we will see electrification across other networks across Wales, but electrification of the Valleys lines would help the economy of all of the communities on the network going into Cardiff, and electrification between Cardiff and Swansea would help all those communities west of Cardiff and towards Swansea. We will work in good faith with the DfT to ensure that electrification takes place, but it is fair to say that, if money can be found for one tunnel, it surely can be found for Wales.

Hawliau Cyflogaeth

8. Vaughan Gething: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch cynigion Llywodraeth y DU i newid hawliau cyflogaeth. OAQ(4)0289(FM)*

The First Minister: I have written to the UK Government expressing my concerns and have sought to ensure proper engagement to ensure that these proposals do not impact on the fundamental rights of the workforce in Wales.

Vaughan Gething: As you will be aware, the UK already has some of the most, if not the most, liberal employment legislation in Europe. Does the Welsh Government share my view that making it even easier to sack employees will not create a single new job at a time when creating jobs should be the over-riding priority of the UK Government?

The First Minister: I fail to understand the

bod yn cyrraedd pen y daith yn ara deg. A wnewch chi ddefnyddio eich dylanwad i sicrhau bod trydaneiddio'n dechrau ym Mlaenau'r Cymoedd ac yn symud i'r de? Rwy'n ofni pe bai trydaneiddio'n dechrau yn y dinasoedd ac yn symud i'r gogledd y bydd yn cymryd 42 mlynedd arall i'w gwblhau.

Y Prif Weinidog: Mae'n rhaid iddo fynd yr holl ffordd. Ni fyddai unrhyw bwynt trydaneiddio rhwng Rhymni a Phontlottyn, ond rwy'n deall y byddech am drydaneiddio rhwng Rhymni a Chaerdydd. Mae trydaneiddio'n fater difrifol. Rwy'n gobeithio, yn y tymor canolig a'r tymor hir, y byddwn yn gweld trydaneiddio rhwydweithiau eraill ledled Cymru, ond byddai trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn helpu economi yr holl gymunedau ar y rhwydwaith sy'n mynd i Gaerdydd, a byddai trydaneiddio rhwng Caerdydd ac Abertawe yn helpu'r holl gymunedau hynny i'r gorllewin o Gaerdydd a thuag at Abertawe. Byddwn yn gweithio'n ddidwyll â'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod trydaneiddio'n digwydd, ond mae'n deg dweud, os gellir dod o hyd i arian ar gyfer un twnnel, mae'n sicr y gellir dod o hyd i'r arian i Gymru.

Employment Rights

8. Vaughan Gething: *What discussions has the First Minister had regarding the UK Government's proposals to change employment rights. OAQ(4)0289(FM)*

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn mynegi fy mhryderon ac wedi ceisio sicrhau ymrwymiad priodol i sicrhau nad yw'r cynigion hyn yn effeithio ar hawliau sylfaenol y gweithlu yng Nghymru.

Vaughan Gething: Fel y gwyrddoch, mae'r DU ymysg y gwledydd sydd â'r ddeddfwriaeth cyflogaeth mwyaf rhyddfrydol yn Ewrop—os nad y mwyaf rhyddfrydol. A yw Llywodraeth Cymru yn rhannu fy marn na fydd gwneud pethau'n haws fyth i gwmnïau ddiswyddo gweithwyr yn creu'r un swydd newydd, a hynny mewn cyfnod pan ddylai creu swyddi fod yn flaenoriaeth hollbwysig i Lywodraeth y DU?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn deall y

logic that, at a time when we are trying to create jobs, the UK Government wants to make it easier to destroy jobs. I do not follow the logic of that. It is clear that, by sacking one person, you do not create a job; you ensure that that person is without a job. It is absolutely right that those rights that have been fought for over many years by so many working people across the whole of the UK, and elsewhere in Europe, should be preserved.

Angela Burns: You will be aware that the Government has said clearly that it will ensure that a package of measures will remain to protect people. The whole point about being able to dismiss someone is that currently, if you run a small business and have an employee who is useless at their job, and, despite the training that you have given them, you simply cannot improve them and they are hindering your business from growing, it is almost impossible to get rid of them. I speak from personal experience of trying to get someone terminated: you have to pay a huge amount of money. Therefore, surely, First Minister, you need to go out and talk to small businesses in Wales about what they need in order to be able not to get rid of jobs left, right and centre, as your backbencher implied, but to have the right person in the right job in order to enable those small businesses to carry on and prosper in a difficult economic time.

The First Minister: It is still possible to dismiss people; it is not as if people have absolute protection from being dismissed. It is right that people should be free from exploitation, expect a minimum wage, and ultimately—it is a topical issue—expect to be paid the same for the same job in Bridgend as in Brighton. With regional pay, we have seen that the objective of the UK Government is to reduce public sector wages in Wales, and we know that that will have an adverse effect on the Welsh economy.

Bethan Jenkins: Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod cyfarwydddeb Ewrop ar weithwyr asiantaeth yn dod i rym yn hwyrach y mis hwn. Mae'r wasg adain dde ym Mhrydain eisoes yn hawlio y bydd yn costio

rhesymeg, a ninnau'n ceisio creu swyddi, pam bod Llywodraeth y DU am ei gwneud yn haws i ddinistrio swyddi. Nid wyf yn dilyn y rhesymeg honno. Mae'n amlwg nad yw diswyddo un person yn creu swydd arall; rydych ond yn sicrhau nad oes gan y person hwnnw swydd. Mae'n gwbl iawn y dylid cadw'r hawliau hynny y mae cynifer o weithwyr yn y DU a rhannau eraill o Ewrop wedi brwydro cymaint dros y blynyddoedd i'w hennill.

Angela Burns: Rydych yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi nodi'n glir y bydd yn sicrhau y bydd pecyn o fesurau i ddiogelu pobl yn parhau mewn grym. Yr holl bwyt ynglŷn â'r gallu i ddiswyddo rhywun ar hyn o bryd yw, os ydych yn rhedeg busnes bach a bod gennych weithiwr sy'n anobeithiol yn ei swydd ac, er gwaethaf yr hyfforddiant rydych wedi'i roi iddo, mae'n amhosibl ei wella ac mae'n rhwystro'ch busnes rhag tyfu, ei bod bron yn amhosibl cael gwared arno. Rwy'n siarad o brofiad personol o geisio terfynu cyflogaeth rhywun: rhaid i chi dalu swm enfawr o arian. Felly, Brif Weinidog, mae angen i chi fynd allan a siarad â busnesau bach yng Nghymru am yr hyn sydd ei angen arnynt, nid i'w galluogi i gael gwared ar swyddi fel y mynnont, fel yr awgrymodd eich Aelod o'r meinciau cefn, ond er mwyn cael y person cywir ar gyfer y swydd gywir fel bod y busnesau bach hynny yn parhau ac yn ffynnu mewn cyfnod economaidd anodd.

Y Prif Weinidog: Mae'n dal yn bosibl diswyddo pobl; nid yw fel pe bai pobl yn cael eu diogelu'n llwyr rhag cael eu diswyddo. Mae'n iawn y dylai pobl fod yn rhydd rhag cael eu hecsbloetio, y dylent ddisgwyl isafswm cyflog, ac yn y pen draw—mae hwn yn bwnc amserol—y dylent ddisgwyl cael eu talu yr un faint am wneud yr un gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr ag yn Brighton. Gyda chyflogau rhanbarthol, rydym wedi gweld mai amcan Llywodraeth y DU yw gostwng cyflogau sector cyhoeddus yng Nghymru, ac rydym yn gwybod y bydd hynny'n cael effaith andwyol ar economi Cymru.

Bethan Jenkins: The First Minister will be aware that the European agency workers directive is coming into force later this month. The right-wing press at a UK level have already claimed that it will cost tens of

degau o filoedd o swyddi pan, mewn gwirionedd, mae'r nod yw rhoi mwy o sicrwydd i rai sydd ar gcontractau dros dro. A oes gan y Llywodraeth ddarlun o sut y bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn effeithio ar fusnesau a gweithwyr yng Nghymru yn benodol?

Y Prif Weinidog: Mae'r wasg yn hoff o ddweud bydd unrhyw reoliadau newydd sy'n effeithio diogelwch, iechyd neu gyflogaeth yn cael effaith negyddol ar yr economi ac ar fywydau pobl. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir. Mae'n bwysig sicrhau bod astudiaeth fanwl o unrhyw reoliadau newydd i sicrhau nad oes effaith rhy negyddol ar y gallu sydd gennym yng Nghymru i sicrhau dyfodol economaidd i'n hunain.

Blaenoriaethau ar gyfer Dyffryn Clwyd

9. Ann Jones: *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dyffryn Clwyd yn 2012. OAQ(4)0281(FM)*

The First Minister: Our priorities for the Vale of Clwyd, as for other parts of Wales, are outlined in the programme for government.

Ann Jones: Thank you for that. I thank the Welsh Government for the work that it has done in the Vale of Clwyd over the past years. I hope that that will continue. David Cameron promised that his administration, when it took over, would be the most family-friendly Government ever. That Tory promise is like pie crusts: easily broken. A recent report by the Institute for Fiscal Studies has revealed that a couple with two children will be £1,250 a year worse off by 2015 as a result of the Tory tax and benefit reforms. First Minister, will you assure me that families in the Vale of Clwyd can rely on a more responsible and honest financial approach from your Government?

The First Minister: Yes. An example of what I regard as the wrong-headed approach to this is the fact that, when it comes to child benefit, from next year, families who earn £48,000 a year will lose child benefit, while families who earn £80,000 a year will not.

thousands of jobs when, in reality, the aim will be to provide more certainty for those who are on temporary contracts. Does the Government have any picture of how this new legislation will impact upon businesses and workers, specifically here in Wales?

The First Minister: The press love to say that any new regulations that impact on health, safety or employment will have some kind of negative impact on the economy and on people's lives. I do not believe that that is true. Of course, it is important to ensure that any new regulations are studied in detail so that they do not have an excessively negative impact on our ability in Wales to secure an economic future for ourselves.

Priorities for the Vale of Clwyd

9. Ann Jones: *What are the Welsh Government's priorities for the Vale of Clwyd in 2012. OAQ(4)0281(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Dyffryn Clwyd, ag ar gyfer rhannau eraill o Gymru, wedi eu hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu.

Ann Jones: Diolch i chi am hynny. Diolchaf i Lywodraeth Cymru am y gwaith y mae wedi'i wneud yn Nyffryn Clwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n gobeithio y bydd yn parhau. Addawodd David Cameron, mai ei weinyddiaeth ef, pan fyddai'n dod i rym, fyddai'r un fwyaf cyfeillgar i deuluoedd erioed. Mae'r addewid Toriaidd hwnnw fel crwst pastai: yn hawdd ei dorri. Mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dangos y bydd cwpl gyda dau o blant ar eu colled o £1,250 y flwyddyn erbyn 2015 o ganlyniad i ddiwygiadau treth a budd-daliadau'r Toriaid. Brif Weinidog, a wnewch chi fy sicrhau y gall teuluoedd yn Nyffryn Clwyd ddibynnu ar agwedd ariannol fwy cyfrifol a gonest gan eich Llywodraeth chi?

Y Prif Weinidog: Gallaf. Enghraifft o'r agwedd bengam hon yw'r mater o fudd-dal plant. O flwyddyn nesaf, bydd teuluoedd sy'n ennill £48,000 y flwyddyn yn colli budd-dal plant, ond bydd teuluoedd sy'n ennill £80,000 y flwyddyn yn ei gadw. Yn amlwg,

Clearly, that is not fair or right, but I am afraid that it demonstrates how the UK Government has approached the issue of child benefit.

Mark Isherwood: I will come back to devolved matters and to the Vale of Clwyd and services provided by Denbighshire County Council, rather than referring to versions of services provided by another place. Will you join me in congratulating Denbighshire County Council on being the highest performing council in Wales, based on figures from the Welsh Government's local government data unit? There are 143 performance indicators and the council has the highest number of indicators in the top quarter in Wales. Will you also join me in congratulating the leader of Denbighshire County Council on being awarded the Order of the British Empire in the Queen's new year honours list?

The First Minister: I will do that. I welcome any improvement in local government. However, I am slightly saddened by the fact that it is felt that child benefits and benefits in general are unworthy of discussion in this Chamber.

Llyr Huws Gruffydd: Y bore yma, cyflwynwyd deiseb i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad ar yr angen i ailedrych ar gynlluniau datblygu lleol. Mae enghraifft Bodelwyddan, yn etholaeth Dyffryn Clwyd, wedi ei godi yma'n gyson. A ydych o'r farn bod treblu maint unrhyw gymuned—nid oes angen ichi gyfeirio at unrhyw gymuned yn benodol wrth ateb—yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy?

Y Prif Weinidog: Gan y soniwyd am Fodelwyddan, mae'n amhosibl imi ddweud unrhyw beth ynglŷn â'r sefyllfa o ran y gymuned honno. Serch hynny, mae'n bwysig dros ben bod y system gynllunio'n cael ei gweithredu mewn modd agored, a bod gan bobl hyder ynddi.

Loteri Cod Post o ran rhoi Presgripsiwn am Feddyginiaethau

nid yw hynny'n deg nac yn gywir, ond yr wyf yn ofni ei fod yn dangos sut mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r mater o fudd-dal plant.

Mark Isherwood: Rwyf am ddychwelyd at faterion sydd wedi'u datganoli ac i Ddyffryn Clwyd a'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych, yn hytrach na chyfeirio at fersiynau o wasanaethau a ddarperir gan le arall. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Cyngor Sir Ddinbych am fod y cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru yn ôl ffigurau uned ddata llywodraeth leol Llywodraeth Cymru? Mae 143 o ddangosyddion perfformiad i'w cael, a'r cyngor hwnnw sydd â'r nifer uchaf o ddangosyddion yn y chwarter uchaf yng Nghymru. A wnewch chi hefyd ymuno â mi i longyfarch arweinydd Cyngor Sir Ddinbych am dderbyn Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig yn rhestr anrhydeddau blwyddyn newydd y Frenhines?

Y Prif Weinidog: Gwnaf hynny. Rwy'n croesawu unrhyw welliannau mewn llywodraeth leol. Fodd bynnag, rwyf ychydig yn drist bod pobl yn credu nad yw budd-daliadau plant a budd-daliadau yn gyffredinol yn deilwng o'u trafod yn y Siambr hon.

Llyr Huws Gruffydd: This morning, a petition was brought before the Assembly's Petitions Committee on the need to review local development plans and the example of Bodelwyddan, in the Vale of Clwyd constituency, has been raised here regularly. Do you believe that trebling the size of any community—you do not have to refer to any specific community in responding—is in keeping with the principles of sustainable development?

The First Minister: As Bodelwyddan has been mentioned, it is impossible for me now to say anything about the situation with regard to that community. However, it is exceptionally important that the planning system is implemented in a manner that is open and that people have confidence in it.

Post Code Lottery for Prescribing Medicines

10. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r loteri cod post o ran rhoi presgripsiwn am feddyginiaethau. OAQ(4)0286(FM)*

The First Minister: I do not accept that there is a postcode lottery.

William Graham: I make particular reference, First Minister, to cross-border areas, where this is immediately apparent. What steps can you take to alleviate the problem that arises when a person living in Wales and a person living in England go to the same GP surgery but do not receive the same medicines?

The First Minister: There is no reason why people cannot receive the same medicines. It is a matter for the prescribing clinician.

Lynne Neagle: As you are aware, First Minister, I have been doing a lot of work recently around the individual patient funding request process and its implications for cancer patients. Transparency is vital if we are all to be able to scrutinise the operation of this new process. The Minister for health has recently agreed to consider publishing data on funding requests and approvals on an all-Wales basis. Are you able to provide any update on progress in delivering this aim? Further to that, would you consider going further as a Government and publishing the figures on an LHB basis so that we can have genuine transparency to assure ourselves that there is indeed no postcode lottery?

The First Minister: Yes, we wish to publish that information on an LHB basis. We are now finalising with the LHBs the template that would be used to make that information available.

Undebau Credyd

11. Lynne Neagle: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i hyrwyddo Undebau Credyd yng Nghymru. OAQ(4)0291(FM)*

10. William Graham: *Will the First Minister outline the Welsh Government's policies for addressing the post code lottery for prescribing medicines. OAQ(4)0286(FM)*

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn derbyn bod yna loteri cod post.

William Graham: Rwy'n cyfeirio'n benodol, Brif Weinidog, at ardaloedd trawsffiniol, lle mae hyn i'w weld yn glir. Pa gamau allwch chi eu cymryd i liniaru ar y broblem sy'n codi pan fydd rhywun sy'n byw yng Nghymru a rhywun sy'n byw yn Lloegr yn mynd i'r un feddygfa ond ddim yn cael yr un meddyginiaethau?

Y Prif Weinidog: Nid oes unrhyw reswm pam na all pobl gael yr un meddyginiaethau. Mae'n fater i'r clinigydd rhagnodi.

Lynne Neagle: Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, rwyf wedi bod yn gwneud llawer o waith ynglŷn â'r broses ceisiadau cyllido cleifion unigol a goblygiadau hynny i gleifion â chanser. Mae tryloywder yn hanfodol os disgwylir i bob un ohonom allu craffu ar sut y bydd y broses newydd hon yn gweithredu. Mae'r Gweinidog iechyd wedi cytuno yn ddiweddar i ystyried cyhoeddi data ar geisiadau am gyllid, a'r rhai sy'n cael eu cymeradwyo, ar sail Cymru gyfan. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth gyflawni'r nod hwn? Yn ychwanegol at hynny, a fydech yn ystyried mynd ymhellach fel Llywodraeth a chyhoeddi'r ffigurau yn ôl bwrdd iechyd lleol fel y gallwn gael tryloywder gwirioneddol i'n sicrhau nad oes loteri cod post yn bodoli?

Y Prif Weinidog: Rydym yn dymuno cyhoeddi'r wybodaeth honno fesul bwrdd iechyd lleol. Rydym wrthi'n cwblhau'r templed â'r byrddau iechyd lleol a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r wybodaeth honno.

Credit Unions

11. Lynne Neagle: *Will the First Minister make a statement on efforts to promote Credit Unions in Wales. OAQ(4)0291(FM)*

The First Minister: Yes. Marketing and publicity to help promote Welsh credit unions is being organised with our partners in the social investment business. There is a television advertising campaign scheduled to begin next month.

Lynne Neagle: As you know, at this time of year, many people will fall victim to loan sharks, legal and otherwise, who prey on those struggling to make ends meet. I am very proud of the efforts of my party in fostering the growth of the credit union movement over the past decade. I welcome recent regulatory changes that will make it easier for credit unions to compete with banks and other lenders. I welcome what you have said about the television advertising campaign; I was going to ask whether you would consider that. Could you give assurances that the campaign will be a very high-profile campaign that will, hopefully, ensure that fewer families fall into the kind of debt that we would like to see them avoid next Christmas?

The First Minister: Yes. The campaign needs to have a significant impact. I know that the UK Government is working with the credit industry to improve consumer protection in the high-cost credit market, as it is described. As we know, concerns have been raised many times about the impact on vulnerable customers of this market. That has to be done at the UK level, given that so many of these companies operate across the whole of the UK.

Mark Isherwood: The chief executive of the Association of British Credit Unions has described changes to the Credit Unions Act 1979, which came into force a few days ago, on 8 January 2012, as a major breakthrough in the delivery of credit union services to communities around Britain. What action is the Welsh Government proposing to take to maximise the freedoms delivered by this amended legislation to extend their reach and work with organisations such as housing providers, employers and charities to bring financial services to new groups of people?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae'r gwaith marchnata a chyhoeddusrwydd i hyrwyddo undebau credyd Cymru yn cael ei drefnu gyda'n partneriaid yn y busnes buddsoddi cymdeithasol. Mae ymgyrch hysbysebu ar y teledu i fod i gychwyn fis nesaf.

Lynne Neagle: Fel y gwyddoch, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae llawer o bobl yn mynd i ddyled i siarcod benthycyca—rhai cyfreithlon ac anghyfreithlon—sy'n manteisio ar y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cadw dau ben llinyn ynghyd. Rwy'n falch iawn o ymdrechion fy mhhlaid i feithrin twf y mudiad undebau credyd dros y degawd diwethaf. Rwy'n croesawu'r newidiadau rheoleiddio diweddar a fydd yn ei gwneud yn haws i undebau credyd gystadlu â banciau a benthycwyr eraill. Croesawaf yr hyn rydych wedi'i ddweud am yr ymgyrch hysbysebu ar y teledu; roeddwn yn mynd i ofyn a fyddech yn ystyried hynny. Allech chi roi sicrwydd y bydd yr ymgyrch yn un uchel ei phroffil a fydd, gobeithio, yn sicrhau bod llai o deuluoedd yn mynd i'r math o ddyled y byddem yn hoffi eu gweld yn ei osgoi Nadolig nesaf?

Y Prif Weinidog: Gallaf. Mae angen i'r ymgyrch gael effaith sylweddol. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r diwydiant credyd i wella diogelwch i ddefnyddwyr yn y farchnad greyd cost uchel, fel y caiff ei disgrifio. Fel y gwyddom, mae pryderon wedi'u codi sawl gwaith am effaith y farchnad hon ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Mae'n rhaid gwneud hynny ar lefel y DU, o ystyried bod cynifer o'r cwmnïau hyn yn gweithredu ledled y DU.

Mark Isherwood: Mae prif weithredwr Cymdeithas Undebau Credyd Prydain wedi disgrifio'r newidiadau i Ddeddf Undebau Credyd 1979, a ddaeth i rym ychydig ddyddiau yn ôl, ar 8 Ionawr 2012, yn gam pwysig ymlaen o ran darparu gwasanaethau undeb credyd i gymunedau ledled Prydain. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i wneud y gorau o'r rhyddid y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei chynnig i ymestyn eu cyrhaeddiad a gweithio gyda sefydliadau fel darparwyr tai, cyflogwyr ac elusennau er mwyn cyflwyno gwasanaethau ariannol i grwpiau newydd o bobl?

The First Minister: I should expand on the earlier point and say that the advertising campaign is being taken forward to help Welsh credit unions to promote their services more widely. As a result of the changes that have been made, the next stage is to ensure that as many members of the public as possible know about the services that are offered by credit unions, so that they can take advantage of them.

Leanne Wood: First Minister, in a paper submitted to the former Enterprise and Learning Committee in July 2010, the Co-operatives and Mutuals Wales cited the example of the regional co-operatives capital fund that is available in Quebec. It began in 2001 and by 2010 C\$905 million had been raised from individuals in the private sector, and this money was supporting—through loans—225 co-operative enterprises. Would your Government be prepared to support and promote an initiative such as the one in Quebec, perhaps linked to the credit union network, in order to provide personal loans and business loans in order to stimulate the Welsh economy?

2.15 p.m.

The First Minister: Yes, we are willing to look at that model. Of course, I should add that direct financial support from the Welsh Government and the European regional development fund to improve the long-term sustainability and financial viability of credit unions has amounted to just over £4 million over the past three years. There has been substantial investment from the Government. In addition, from 2010, funding was made available to each credit union to support local marketing and publicity.

Cynlluniau ar gyfer Digwyddiadau Mawr

12. Julie James: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau mawr dros weddill tymor y Cynulliad hwn. OAQ(4)0283(FM)*

The First Minister: Yes. Our major events strategy sets out how we will build on the

Y Prif Weinidog: Dylwn ehangu ar y pwynt cynharach a dweud bod yr ymgyrch hysbysebu yn cael ei datblygu i helpu undebau credyd Cymru i hyrwyddo eu gwasanaethau yn ehangach. O ganlyniad i'r newidiadau sydd wedi'u gwneud, y cam nesaf yw sicrhau bod cymaint o'r cyhoedd â phosibl yn gwybod am y gwasanaethau a gynigir gan undebau credyd, fel y gallant fanteisio arnynt.

Leanne Wood: Brif Weinidog, mewn papur a gyflwynwyd i'r cyn-Bwyllgor Menter a Dysgu ym mis Gorffennaf 2010, nododd sefydliad Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru enghraifft y gronfa gyfalaf ranbarthol sydd ar gael i fentrau cydweithredol yn Quebec. Dechreuodd yn 2001 ac erbyn 2010 roedd C\$905 miliwn wedi'i godi gan unigolion yn y sector preifat, ac roedd yr arian hwn yn cefnogi—drwy fenthyciadau—225 o fentrau cydweithredol.

A fyddai eich Llywodraeth yn barod i gefnogi a hyrwyddo menter fel un Quebec, ac un sydd efallai wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith undebau credyd, a fyddai'n darparu benthyciadau personol a benthyciadau busnes er mwyn ysgogi economi Cymru?

Y Prif Weinidog: Rydym yn barod i edrych ar y model hwnnw. Wrth gwrs, dylwn ychwanegu bod dros £4 miliwn wedi'i roi dros y tair blynedd diwethaf mewn cymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a chronfa datblygu rhanbarthol Ewrop i wella cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd ariannol undebau credyd. Bu buddsoddiad sylweddol gan y Llywodraeth. Yn ogystal, o 2010, mae arian wedi bod ar gael i bob undeb credyd i gefnogi marchnata a chyhoeddusrwydd lleol.

Plans for Major Events

12. Julie James: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans for major events for the remainder of the Assembly term. OAQ(4)0283(FM)*

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae ein strategaeth digwyddiadau mawr yn nodi sut y

historic successes of the Ashes test in 2009 and the Ryder Cup in order to develop a portfolio of events that enhances Wales's reputation.

Julie James: As you know, I am very keen that the centenary of Dylan Thomas's birth in 2014 is a national and international celebration. Dylan Thomas is an established Welsh brand internationally, and I believe that the economic and cultural benefits for Swansea and Wales as a whole as a result of such a celebration would be very significant. Will you commit your Government to getting behind a major event that would raise the profile of Swansea and Wales as a whole on the international stage on the back of such a celebration, attracting investment and tourism?

The First Minister: Yes, we have already established a Dylan Thomas 2014 steering group led by the Welsh Government, including the City and County of Swansea, the Arts Council of Wales, the family of Dylan Thomas and others. The group reports directly to Ministers, including me. Following its initial meeting and an open seminar with stakeholders, the group is developing detailed proposals that will be announced this spring.

Mohammad Asghar: First Minister, your portfolio responsibilities include major events, and you claim that you are working hard to attract an American National Football League match to Wales. I am sure that you agree that such an event would have significant economic benefits for the whole nation. Therefore, can you outline why you have not had a single meeting with the NFL, when a senior delegation from the NFL visited Cardiff in November? Can you provide an update on progress to attract NFL games to Wales please?

The First Minister: I can tell you that there was communication between our officials and NFL officials. They came to visit the Millennium Stadium, and attracting an NFL game to Cardiff is something that I fully support. However, we should remember that we will host Olympic football at the Millennium Stadium this year and that, next

byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau hanesyddol gêm brawf y Llundw yn 2009 a Chwpan Ryder er mwyn datblygu portffolio o ddigwyddiadau sy'n gwella enw da Cymru.

Julie James: Fel y gwyddoch, rwy'n awyddus iawn y bydd canmlwyddiant geni Dylan Thomas yn 2014 yn ddathliad cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Dylan Thomas yn frand sefydledig Cymreig ar y llwyfan rhyngwladol, ac rwy'n credu y byddai manteision sylweddol economaidd a diwylliannol i Abertawe a Chymru yn gyffredinol yn sgîl dathliadau o'r fath. A wnewch chi ymrwymo eich Llywodraeth i gefnogi digwyddiad mawr a fyddai'n codi proffil Abertawe a Chymru gyfan ar y llwyfan rhyngwladol ar gefn y fath ddathliad, gan ddenu buddsoddiad a thwristiaeth?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Rydym eisoes wedi sefydlu grŵp llywio Dylan Thomas 2014 o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, ac sydd hefyd yn cynnwys Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Celfyddydau Cymru, teulu Dylan Thomas ac eraill. Mae'r grŵp yn adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion ac i minnau. Yn dilyn ei gyfarfod cychwynnol a seminar agored â rhanddeiliaid, mae'r grŵp wrthi'n datblygu cynigion manwl a fydd yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn.

Mohammad Asghar: Brif Weinidog, mae eich cyfrifoldebau portffolio yn cynnwys digwyddiadau mawr, ac rydych yn honni eich bod yn gweithio'n galed i ddenu gêm Bêl-droed Americanaidd NFL i Gymru. Rwy'n siŵr y bydech yn cytuno y byddai digwyddiad o'r fath yn dod â manteision economaidd sylweddol i'r genedl gyfan. Felly, allwch chi esbonio pam nad ydych wedi cael yr un cyfarfod â'r NFL, er yr ymwelodd dirprwyaeth o'r NFL â Chaerdydd ym mis Tachwedd? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddiariad am y cynnydd i ddenu gemau NFL i Gymru?

Y Prif Weinidog: Gallaf ddweud wrthyhch fod ein swyddogion ni a swyddogion yr NFL wedi bod yn cyfathrebu â'i gilydd. Daethant i ymweld â Stadiwm y Mileniwm, ac mae denu gêm NFL i Gaerdydd yn rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n llawn. Fodd bynnag, dylem gofio y byddwn yn cynnal gemau pêl-droed y Gemau Olympaidd yn Stadiwm y Mileniwm

year, we will co-host the Rugby League World Cup. We will also be hosting the WOMEX, the world's leading annual music showcase, and in 2014 we will have the Senior Open championship, which will be staged at Royal Porthcawl Golf Club. In 2015, Glamorgan will build on its position as being among the world's leading international cricket venues by hosting another Ashes test match. We have a fine record on which to build in Wales.

Bethan Jenkins: Mae fy nghwestiwn i am rygbi'r gynghrair. Fi gynhaliodd y digwyddiad yn y Senedd, felly nid wyf yn deall y broblem sydd gan y gwleidydd Ceidwadol a gododd y cwestiwn yn gynharach. Roeddwn am i chi groesawu'r ffaith bod gêm i'w chynnal yn y Knoll yng Nghastell-nedd fel rhan o Gwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair, ac i groesawu'r ffaith bod y gamp hon yn tyfu yng Nghymru a bod y gêm yn ein hysgolion ac ar lawr gwlad wedi cael ei hybu'n sylweddol.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod rygbi'r gynghrair yn dod yn ôl i Gymru fel rhan o gwpan y byd, a hynny am y tro cyntaf, rwy'n credu, er 2000. Wrth gwrs, rwy'n edrych ymlaen at weld Cymru yn gwella ar ôl yr hyn a ddigwyddodd y tymor hwn. Mae'n bwysig sylweddoli bod lot fawr o dalent yn dod drwyddo yn rygbi'r gynghrair yng Nghymru, ac mae hynny'n adlewyrchu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Rygbi Cynghrair Cymru, sef corff llywodraethol y gamp yng Nghymru.

Tariffau Cyflenwi Trydan

13. Jenny Rathbone: *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith penderfyniad Llywodraeth y DU i haneru'r tariffau cyflenwi trydan ar weithgynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0293(FM)*

The First Minister: If they proceed, there seems no doubt that the UK Government's proposals will have a negative effect on the thriving and vibrant solar photovoltaic panel manufacturing and installation sectors in Wales

eleni, a'r flwyddyn nesaf byddwn yn cyd-gynnal Cwpan Rygbi Cynghrair y Byd. Byddwn hefyd yn cynnal y WOMEX, sef arddangosfa gerddoriaeth flynyddol fwyaf blaenllaw y byd, ac yn 2014 byddwn yn cynnal y bencampwriaeth Agored Hŷn yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl. Yn 2015, bydd Morgannwg yn adeiladu ar ei enw da fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw y byd criced rhyngwladol drwy gynnal gêm brawf arall yng nghyfres y Llundw. Mae gennym record dda i adeiladu arni yng Nghymru.

Bethan Jenkins: My question is on rugby league. I hosted the event here in the Senedd, and so I do not understand the problem of the Conservative politician who raised the question earlier. I just want you to welcome the fact that that game will be held at the Knoll in Neath as part of the Rugby League World Cup, the fact that the sport is developing in Wales and that there is a huge boost to the game in our schools and at grass-roots level in Wales.

The First Minister: I welcome very much the fact that rugby league is returning to Wales for the world cup, for, I think, the first time since 2000. Of course, I look forward to seeing Wales doing better after what happened this season. However, I realise that there is a great deal of talent coming through in rugby league in Wales. That demonstrates the work that has been put in by Wales Rugby League, the governing body of the sport in Wales.

Feed-in Tariffs

13. Jenny Rathbone: *Will the First Minister give an update on the impact of the UK Government's halving of feed-in tariffs on Welsh renewable energy manufacturers. OAQ(4)0293(FM)*

Y Prif Weinidog: Os byddant yn dod i rym, nid oes dwywaith na fydd cynigion Llywodraeth y DU yn cael effaith negyddol ar y sectorau ffyniannus a bywiog yng Nghymru ym maes gweithgynhyrchu a gosod panelau solar ffotofoltig.

Jenny Rathbone: Do you agree with me that the so-called greenest Government ever of David Cameron is all over the place and has absolutely no strategy? Today, it has invested an extra £197 million in the feed-in tariff programme, having lost a court case before Christmas. It would appear that that might then cause a further reduction in the feed-in tariff after April 2012. This makes it hugely difficult for the renewables industry to plan for any sort of programme and to know what the demand will be. Is there anything that the Welsh Government can do to try to provide some stability and ongoing planning for this important industry?

The First Minister: There needs to be certainty when it comes to renewable energy. That is true of solar photovoltaics, as it is of other forms of renewable energy, which is why the present uncertainty regarding renewables obligation certificates is not helpful in terms of promoting renewable energy in Wales and creating green jobs based on that sector.

Janet Finch-Saunders: First Minister, the practical reforms to the unmanageable system of feed-in tariffs that the UK Government inherited from Labour have been designed to make the system more predictable and much more market responsive, similar to the successful German model. A change in feed-in tariffs means much better value for energy customers, ensuring that the generation of renewable energy still remains a sensible choice. Doing nothing would add approximately £90 to consumers' bills. Would you agree, First Minister, that rather than pursuing your party's negative and apathetic approach, you should focus on the more sustainable and affordable benefits that this policy would bring to developing our green economy and our renewable programme?

The First Minister: Sharp in Wrexham wanted to double production of solar panels. It took on 400 additional staff, but they all

Jenny Rathbone: A ydych yn cytuno â mi fod y Llywodraeth y mae David Cameron yn ei galw'r Llywodraeth fwyaf gwyrdd erioed dros y lle yn llwyr ac nad oes ganddi ddim strategaeth? Heddiw, mae wedi buddsoddi £197 miliwn ychwanegol yn y rhaglen tariffau cyflenwi trydan, ar ôl colli achos llys cyn y Nadolig. Mae'n ymddangos y gallai hynny yn ei dro achosi gostyngiad pellach yn y tariff ar ôl mis Ebrill 2012. Mae hyn yn ei gwneud yn hynod o anodd i'r diwydiant ynni adnewyddadwy gynllunio ar gyfer unrhyw fath o raglen, ac i wybod beth fydd y galw. A oes unrhyw beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i geisio darparu rhywfaint o sefydlogrwydd a chynllunio parhaus ar gyfer y diwydiant pwysig hwn?

Y Prif Weinidog: Mae angen sicrwydd pan ddaw'n fater o ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n wir am banelau solar ffotofoltig, fel y mae ar gyfer mathau eraill o ynni adnewyddadwy, a dyna pam nad yw'r ansicrwydd presennol ynghylch tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy yn helpu o ran hyrwyddo ynni adnewyddadwy yng Nghymru a chreu swyddi gwyrdd yn seiliedig ar y sector hwnnw.

Janet Finch-Saunders: Brif Weinidog, mae'r diwygiadau ymarferol i'r system anhydrin o dariffau cyflenwi trydan yr etifeddodd Llywodraeth y DU gan Lafur wedi cael eu cynllunio i wneud y system yn fwy rhagweladwy ac yn fwy ymatebol i'r farchnad, yn debyg i fodel llwyddiannus yr Almaen. Mae'r newid yn y tariffau yn golygu gwell gwerth am arian i gwsmeriaid ynni, gan sicrhau bod y genhedlaeth o ynni adnewyddadwy yn parhau'n ddewis synhwyrol. Byddai gwneud dim byd yn ychwanegu tua £90 i filiau defnyddwyr. A fydech chi'n cytuno, Brif Weinidog, yn hytrach na dilyn agwedd negyddol a difater eich plaid, y dylech ganolbwyntio ar y manteision mwy cynaliadwy a fforddiadwy a fyddai'n dod yn sgîl y polisi hwn o ran datblygu ein heconomi werdd a'n rhaglen adnewyddadwy?

Y Prif Weinidog: Roedd cwmni Sharp yn Wrecsam yn awyddus i ddyblu nifer y panelau solar yr oedd yn ei gynhyrchu.

had to go. I do not see how that is a positive benefit to the economy. I also do not understand why there has been a sudden change to the system in the middle of a consultation; that is something that we would never do as a Government here. If you have a consultation, it has to finish before you take a decision. That is why the UK Government lost in court.

The Presiding Officer: I call Dafydd Elis-Thomas.

Lord Elis-Thomas: I do not have a question.

The Presiding Officer: Fine. We will move on to question 14.

Polisi Ynni

14. Russell George: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU dros y tri mis diwethaf ynglyn â'r polisi ynni. OAQ(4)0290(FM)*

The First Minister: I have had many discussions with the UK Government on a wide range of energy matters.

Russell George: I am sure that you would agree, First Minister, that the UK Government's policy of implementing a green investment bank will help to increase investment in wider renewable energy, such as energy generation from waste. Your Government has indicated an interest in housing the site in Cardiff, which would give credence to your policy of making Cardiff an enterprise zone that focuses on financial services. With the deadline of that site application set for the end of this month, have you formally submitted a bid to the UK Government or are you in the process of doing so?

The First Minister: We are in the process of getting the final bid submitted by the end of the month. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science discussed the issue with Vince Cable, and we have made the case clearly that Cardiff, particularly the central business district, is the ideal place for the green investment bank to be situated. Therefore, the formal bid will be

Cyflogodd 400 o staff ychwanegol, ond bu'n rhaid cael gwared ar bob un. Ni allaf weld ym mha ffordd y mae hyn o fudd i'r economi. Ni allaf ddeall chwaith pam y bu newid sydyn i'r system yng nghanol ymgynghoriad; mae hynny'n rhywbeth na fyddem ni byth yn ei wneud fel Llywodraeth yma. Os oes gennych ymgynghoriad, mae'n rhaid iddo orffen cyn i chi wneud penderfyniad. Dyna pam y collodd Llywodraeth y DU yn y llys.

Y Llywydd: Galwaf Dafydd Elis-Thomas.

Arglwydd Elis-Thomas: Nid oes gennyf gwestiwn.

Y Llywydd: O'r gorau. Symudwn ymlaen i gwestiwn 14.

Energy Policy

14. Russell George: *What discussions has the First Minister had with the UK Government in the last three months in relation to energy policy. OAQ(4)0290(FM)*

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â Llywodraeth y DU ar ystod eang o faterion ynni.

Russell George: Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, Brif Weinidog, y bydd polisi Llywodraeth y DU o sefydlu banc buddsoddi gwyrdd yn helpu i gynyddu'r buddsoddiad ehangach mewn ynni adnewyddadwy, megis cynhyrchu ynni o wastraff. Mae eich Llywodraeth wedi mynegi diddordeb mewn lleoli'r safle yng Nghaerdydd, a fyddai'n rhoi coel i'ch polisi o wneud Caerdydd yn ardal fenter sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ariannol. Gyda'r dyddiad cau ar gyfer y cais lleoli hwnnw ddiwedd y mis hwn, a ydych wedi cyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth y DU neu a ydych yn y broses o wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Rydym yn y broses o gyflwyno'r cais terfynol erbyn diwedd y mis. Trafododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y mater â Vince Cable, ac rydym wedi cyflwyno achos clir mai Caerdydd, ac yn enwedig yr ardal fusnes ganolog, yw'r lle delfrydol i leoli'r banc buddsoddi gwyrdd. Felly, bydd y cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau.

submitted before the deadline.

Kenneth Skates: First Minister, a recent report by Save the Children showed that growing up in cold, damp houses can slow children's development as well as worsen long-term problems such as asthma and increase hospital admission rates. Although the UK Government has introduced a new mandatory warm home discount scheme, Save the Children is concerned that this currently reaches only 3 per cent of the families most at risk of fuel poverty. In its words, the scheme is 'fundamentally flawed'. What work is the Welsh Government doing to ensure that low-income families in areas such as mine are supported through the cold winter months and to tackle the impact of fuel poverty?

The First Minister: The fuel poverty strategy, which was published in July 2010, sets out the action that we are taking to tackle fuel poverty in Wales. One example is the new fuel poverty scheme, entitled Nest, which started on 1 April. It includes a central co-ordination point to ensure that all households can access some advice and support to reduce their fuel bills, to improve the energy efficiency of their home and to maximise their income.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Ymddiheuraf, Lywydd, am fy arafwch ar y cwestiwn blaenorol. Gofynnaf i'r Prif Weinidog pryd y mae'n bwriadu cyhoeddi datganiad ysgrifenedig neu lafar pellach ar ei gyfrifoldebau strategol ynglŷn â pholisi ynni.

Y Prif Weinidog: Cyhoeddir datganiad cyflawn yn ystod y misoedd nesaf. Rwyf eisiau sicrhau bod datganiad cynhwysfawr am ynni yn cael ei gyhoeddi cyn y gwanwyn.

Aled Roberts: Mae'n glir erbyn hyn fod rhwydwaith trydan presennol y gogledd yn annigonol i ddelio â phob datblygiad. Mae Llywodraeth yr Alban wedi mynnu bod y rhwydwaith rhwng yr Alban a Lloegr, rhwng Hunterston a Celstryn, ar lannau Dyfrdwy, yn rhwydwaith o geblau tanfor. A yw eich Llywodraeth wedi gwneud datganiad o ran yr hyn y mae'n ei ffafrio yng nghyswllt y dechnoleg o gofio'r problemau a gafwyd yn

Kenneth Skates: Brif Weinidog, dangosodd adroddiad diweddar gan Achub y Plant y gall tyfu i fyny mewn tai oer a llaith arafu datblygiad plant yn ogystal â gwaethygu problemau hirdymor fel asthma a chynyddu cyfraddau derbyn i ysbyty. Er bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynllun gostyngiad cartrefi cynnes gorfodol newydd, mae Achub y Plant yn pryderu bod y cynllun ar hyn o bryd ond yn cyrraedd 3% o'r teuluoedd sydd yn y perygl mwyaf o fod mewn tlodi tanwydd. Yn ôl Achub y Plant, mae'r cynllun yn 'sylfaenol ddiffygiol'. Pa waith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod teuluoedd incwm isel mewn ardaloedd fel fy un i yn cael cymorth drwy fisoedd oer y gaeaf ac i fynd i'r afael ag effaith tlodi tanwydd?

Y Prif Weinidog: Mae'r strategaeth tlodi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010 yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Un enghraifft yw'r cynllun tlodi tanwydd newydd, o'r enw Nest, a ddechreuodd ar 1 Ebrill. Mae'n cynnwys pwynt cydlynu canolog er mwyn sicrhau y gall pob cartref gael rhywfaint o gyngor a chymorth i leihau eu biliau tanwydd, gwella effeithlonrwydd ynni eu cartref a gwneud y mwyaf o'u hincwm.

Lord Elis-Thomas: I apologise, Presiding Officer, for my slowness on the last question. I ask the First Minister when he intends to make a further written or oral statement on his strategic responsibility for energy policy.

The First Minister: A full statement will be issued over the coming months. I want to ensure that a comprehensive statement on energy is published before the spring.

Aled Roberts: It is clear by now that the current north Wales electricity network is inadequate to deal with all of the developments. The Scottish Executive has insisted that the network between Scotland and England, between Hunterston and Kelsterton, on Deeside, is a network of undersea cables. Has your Government shown any preference as to the technology in the light of all of the problems in

ystod yr haf yn sir Drefaldwyn o ran y rhwydwaith trydan?

Y Prif Weinidog: Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw hyn. Mae'r sefyllfa'n wahanol yn yr Alban, ond yr ydym wedi dweud ei bod yn bwysig dros ben i gladdu'r llinellau hyn, lle bo hynny'n beth call i'w wneud, a hefyd i ystyried y peilonau newydd sydd wedi eu dylunio dros y misoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod yr effaith ar gymunedau lleol yn cael ei lleihau.

Gwasanaeth Iechyd

15. Simon Thomas: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn y Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(3)0292(FM) W

Y Prif Weinidog: Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gael yn ein rhaglen lywodraethu.

Simon Thomas: Mynegwyd llawer o siom a phryder yn y rhanbarth dros y Nadolig wrth i bobl weld gwasanaethau'n symud o ysbytai lleol, megis y rheini yn Ninbych-y-pysgod, Pwllheli, Doc Penfro a Llanelli, ac yn cael eu canoli mewn ysbytai mawr sydd, mewn sawl achos, yn gofyn am ryw awr o daith ar drafnidiaeth gyhoeddus. Pan fyddwch yn dod i Lanelli ddydd Iau, a fyddwch yn rhoi addewid i drigolion Llanelli y bydd y gwasanaethau'n cael eu symud yn ôl, ac na fydd ysbyty Llanelli yn colli'r un gwasanaeth?

Y Prif Weinidog: Mae'r newidiadau a wnaethpwyd cyn y Nadolig yn newidiadau dros dro—nid ydynt yn newidiadau parhaol. Yr oeddwn yn ysbyty Llanelli ar sawl diwrnod yn yr wythnos cyn y Nadolig yn ymweld ag aelod o'r teulu, a deallaf gryfder y gefnogaeth sydd i'r ysbyty yn yr ardal. Dylai Gweinidogion, y fforwm clinigol cenedlaethol a chymunedau lleol graffu ar unrhyw newidiadau. Mae'n bwysig dros ben bod hynny'n cael ei wneud er mwyn i aelodau'r cyhoedd deimlo y gallant fynegi barn am ddyfodol y gwasanaeth iechyd yn eu hardal.

Darren Millar: I take this opportunity to thank Members for their good wishes during

Montgomeryshire during the summer with regard to the electricity network?

The First Minister: This is a United Kingdom Government responsibility. The situation is different in Scotland, but we have said that it is very important that these cables should be undergrounded, where that is wise, and also that the new pylons designed over the past few months are considered in order to ensure that the impact on local communities is reduced.

The Health Service

15. Simon Thomas: What plans does the First Minister have for the health service in Mid and West Wales. OAQ(4)0292(FM) W

The First Minister: Our plans and priorities can be found in our programme for government.

Simon Thomas: A great deal of disappointment and concern was expressed in the region over Christmas as people saw services being moved from local hospitals, such as those at Tenby, Pwllheli, Pembroke Dock and Llanelli, and centralised in large hospitals that, in many cases, were an hour's journey by public transport. When you come to Llanelli on Thursday, will you give a pledge to the people of Llanelli that they will regain the services that have been lost, and that the Llanelli hospital will not lose any services?

The First Minister: The changes made before Christmas are temporary—they are not permanent changes. I was at Llanelli hospital on a number of days in the week before Christmas visiting a relation, and I understand the strength of the support that exists locally for the hospital. Ministers, the national clinical forum and local communities should scrutinise any changes. It is exceptionally important that that is done in order to ensure that the public feel that they are able to express an opinion on the future of the health service in their area.

Darren Millar: Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Aelodau am eu dymuniadau da yn

my absence from the Assembly during the past two months.

First Minister, it was not only Mid and West Wales that was affected by the announcements made just before the Christmas period. Indeed, my constituency was affected, as minor injury units in Rhuthun and Colwyn Bay were also closed. Is it not becoming obvious that the starvation of cash from the Welsh NHS under your leadership and your Government is having a serious impact on front-line services, such as minor injury units? We face winter pressures annually, but never before have these services had to close. It is therefore down to your Government alone. Will you now review your funding arrangements for the Welsh NHS in the light of these closures?

The First Minister: I welcome the Member back to the Assembly and express my delight that we were able to spare him a journey for the budget debate and vote.

I must say to him that the spiralling waiting times and waiting lists that are seen across the border are not seen in Wales. This has nothing to do with money. The recruitment of accident and emergency staff is a long-standing problem. One of the reasons is the unsociable hours, and the situation has been compounded by the fact that because of the new restrictions on the issuing of visas by the UK Government, it is no longer possible to bring in as many doctors as before. As I have already said to the Assembly, our intention is to begin the campaign to attract new doctors to Wales this month and to ensure that we get more accident and emergency specialists in Wales—a specialism to which it has proven difficult to recruit people over a number of years.

William Powell: Last week, I was fortunate enough to meet leading members of the aBer campaign group that has been working for some years to retain and enhance services at Bronglais hospital in Aberystwyth. One concern that has been consistently raised by members of the group in meetings has been the unwillingness of the Hywel Dda Local Health Board to engage with the public on

ystod fy absenoldeb o'r Cynulliad yn ystod y ddau fis diwethaf.

Brif Weinidog, nid Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unig yr effeithiwyd arnynt gan y cyhoeddiadau a wnaed cyn y Nadolig. Yn wir, effeithiwyd ar fy etholaeth i, wrth i unedau mân anafiadau yn Rhuthun a Bae Colwyn gael eu cau hefyd. Onid yw'n dod yn amlwg bod y diffyg arian yn y GIG yng Nghymru o dan eich arweiniad chi a'ch Llywodraeth yn cael effaith ddifrifol ar wasanaethau rheng flaen, fel unedau mân anafiadau? Rydym yn wynebu pwysau'r gaeaf bob blwyddyn, ond nid yw'r gwasanaethau hyn erioed wedi gorfod cau o'r blaen. Felly, mae hyn wedi digwydd yn unig oherwydd eich Llywodraeth chi. A fyddwch yn awr yn adolygu eich trefniadau ariannu ar gyfer GIG Cymru yng ngoleuni hyn?

Y Prif Weinidog: Rwy'n croesawu'r Aelod yn ôl i'r Cynulliad ac rwy'n falch inni allu arbed taith iddo ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar y gyllideb.

Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho nad yw'r cynnydd mawr yn yr amseroedd a'r rhestrau aros sydd i'w gweld dros y ffin yn cael ei weld yng Nghymru. Nid oes a wnelo hyn ag arian o gwbl. Mae recriwtio staff damweiniau ac achosion brys yn broblem ers tro. Un o'r rhesymau yw'r oriau anghymdeithasol, ac mae'r sefyllfa wedi cael ei chymhlethu gan gyfyngiadau newydd Llywodraeth y DU ar roi teithebau, sy'n golygu nad yw'n bosibl dod â chynifer o feddygon i mewn ag o'r blaen. Fel rwyf eisoes wedi ei ddweud wrth y Cynulliad, rydym yn bwriadu dechrau'r ymgyrch i ddenu meddygon newydd i Gymru y mis hwn ac i sicrhau ein bod yn cael mwy o arbenigwyr damweiniau ac achosion brys yng Nghymru—arbenigedd y mae wedi profi'n anodd recriwtio pobl iddi dros nifer o flynyddoedd.

William Powell: Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn ddigon ffodus i gwrdd ag aelodau blaenllaw o grŵp ymgyrchu aBer sydd wedi bod yn gweithio am rai blynyddoedd i gadw a gwella gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Un pryder sydd wedi'i mynegi'n gyson gan aelodau o'r grŵp mewn cyfarfodydd yw amharodrwydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel

terms other than its own. For example, it regularly refuses to attend public meetings and instead sends out its unhelpfully named 'battle bus' or, indeed, engages with the public by sending out direct mail DVDs. Will you join with me, First Minister, in urging the officials of that health board to engage directly with the public so that there is greater confidence going forward in the LHB's plans?

Dda i ymgysylltu â'r cyhoedd ar delerau ar wahân i'w delerau ei hun. Er enghraifft, mae'n gwrthod yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac, yn hytrach, mae'n anfon ei 'fws brwydr', sy'n enw annefnyddiol, neu, yn wir, mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd drwy anfon DVDs yn uniongyrchol drwy'r post. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i annog swyddogion y bwrdd iechyd hwnnw i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd fel bod mwy o hyder wrth symud ymlaen yng nghynlluniau'r byrddau iechyd lleol?

2.30 p.m.

The First Minister: It is important that there is sufficient engagement so that members of the public are able to fully understand the issues that are involved and to take a view according to those issues. However, in relation to Bronglais, I would ask people in Aberystwyth to look at the work that is taking place there now and the substantial investment that has been put into the hospital, which is being taken forward even as we speak. That is not the action of a Government or an LHB that, in some way, wishes to reduce the value of the hospital to the community. Bronglais remains an important hospital and, as I have said many times, any proposals that are brought forward by LHBs for service reconfiguration will need to be scrutinised thoroughly by local communities, the national clinical forum and, indeed, by Welsh Ministers.

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig bod digon o ymgysylltu fel y gall aelodau'r cyhoedd ddeall y materion o dan sylw yn iawn a llunio barn ar y materion hynny. Fodd bynnag, mewn perthynas â Bronglais, byddwn yn gofyn i bobl yn Aberystwyth edrych ar y gwaith sy'n digwydd yno ar hyn o bryd a'r buddsoddiad sylweddol yn yr ysbyty, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Nid yw hwn yn gam gan Lywodraeth neu fwrdd iechyd lleol sydd, mewn rhyw ffordd, yn dymuno lleihau gwerth yr ysbyty i'r gymuned. Mae Bronglais yn parhau i fod yn ysbyty pwysig ac, fel y dywedais sawl gwaith, bydd angen i gymunedau lleol, y fforwm clinigol cenedlaethol ac, yn wir, Weinidogion Cymru graffu'n drwyadl ar unrhyw gynigion a gyflwynir gan fyrddau iechyd lleol ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): There are no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r busnes a drefnwyd ar gyfer yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Darren Millar: Minister, will you be able to bring forward, within future Government business, a statement on post-traumatic stress disorder services for veterans? We were all

Darren Millar: Weinidog, a allwch wneud datganiad ar wasanaethau i drin anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr ym musnes Llywodraeth yn y dyfodol? Roeddem oll yn

very saddened to learn of the tragic death of Dan Collins very recently, which opens up the issue of PTSD services and access to those services for veterans in Wales. You will be aware that the Health, Wellbeing and Local Government Committee produced a report in February of last year; the Welsh Government responded very positively to that report, accepting pretty much all of the recommendations. It is time for an update on that report, and I would be very grateful if the Minister could bring one to the Chamber.

Jane Hutt: I welcome Darren Millar back to the Chamber. In response to his question, we are, as you know, investing £485,000 each year in the all-Wales health and wellbeing service for veterans, and that is being developed and implemented by health boards across Wales. However, I will certainly speak to the Minister about whether an update can be provided on progress.

Rebecca Evans: The post office diversification fund has been a lifeline for many post offices, allowing them to expand the services that they provide and better meet the needs of local communities. I understand that the fund is currently closed to new applications, pending the findings of an evaluation that took place last year. I would welcome a statement from the Government on the findings of that evaluation, and your assurances that the Government is committed in the long term to supporting post offices to diversify the services that they are able to provide.

Jane Hutt: I thank Rebecca Evans for that question, because it provides an opportunity for me to update Members on the progress of the evaluation of the post office diversification fund, which was an independent evaluation carried out in the summer of last year. I understand that a final evaluation report will be published on the Welsh Government website in the week commencing 30 January, and the Welsh Government has already committed to continuing to provide support for the post office network. There will be an announcement shortly by the Minister on this

drist iawn i glywed am farwolaeth drasig Dan Collins yn ddiweddar iawn, sy'n amlygu'r mater o wasanaethau PTSD a mynediad at y gwasanaethau hynny i gyn-filwyr yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Chwefror y llynedd; ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol iawn i'r adroddiad hwnnw, gan dderbyn yr holl argymhellion, i bob diben. Mae'n amser i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad hwnnw, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ei chyflwyno yn y Siambr.

Jane Hutt: Croesawaf Darren Millar yn ôl i'r Siambr. Mewn ymateb i'w gwestiwn, fel y gwyddoch, rydym yn buddsoddi £485,000 bob blwyddyn yn y gwasanaeth iechyd a lles drwy Gymru gyfan i gyn-filwyr, ac mae hwnnw'n cael ei ddatblygu a'i weithredu gan fyrddau iechyd ledled Cymru. Fodd bynnag, byddaf yn bendant yn siarad â'r Gweinidog ynghylch a ellir darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed.

Rebecca Evans: Mae cronfa arallgyfeirio swyddfa'r post wedi achub nifer o swyddfeydd post, ac mae wedi'u galluogi i ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a diwallu anghenion cymunedau lleol yn well. Deallaf fod y gronfa ar gau ar hyn o bryd i geisiadau newydd, nes y cyhoeddir canfyddiadau gwerthusiad a gynhaliwyd y llynedd. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw, a sicrwydd gennych fod y Llywodraeth wedi ymrwymo yn y tymor hir i gefnogi swyddfeydd post i arallgyfeirio'r gwasanaethau y gallant eu darparu.

Jane Hutt: Diolchaf i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw, oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gynnydd y gwerthusiad o gronfa arallgyfeirio swyddfa'r post, a oedd yn werthusiad annibynnol a gynhaliwyd yn ystod yr haf y llynedd. Deallaf y bydd adroddiad gwerthuso terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr wythnos yn dechrau 30 Ionawr, ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i barhau i gefnogi rhwydwaith swyddfa'r post. Bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ar y mater hwn.

matter.

Bethan Jenkins: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi argymhell cymeradwyo cynlluniau ar gyfer gorsaf bŵer biomass yn nyffryn Llynfi, yn rhannol ar sail y ffaith bod y datblygiad, gan ddefnyddio ffynhonnell ynni cynaliadwy, yn cydymffurfio ag amcanion y Llywodraeth o gyflawni datblygiad cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon yng Nghymru.

O ystyried bod yr argymhellion hyn yn mynd yn erbyn barn nifer fawr o bobl leol, yn enwedig ynghylch pa mor gynaliadwy fydd dod ag adnoddau i'r orsaf o bellter, a'r effaith ar yr amgylchedd lleol, a fyddai modd inni gael dadl yma ar lawr y Senedd ar bolisi biomass y Llywodraeth, er mwyn inni gael trafodaeth agored ac amserol ar y mater pwysig hwn?

Jane Hutt: I understand that the matter is being considered by Bridgend County Borough Council. It is a local planning matter, and authorities have to abide by Welsh Government guidance.

Aled Roberts: Weinidog, wrth ymateb i gwestiynau Simon Thomas a Darren Millar, dywedodd y Prif Weinidog nad problemau ariannol a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad i gau rhai unedau yn y gogledd, gan gynnwys yn Ysbyty Bryn Beryl yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn Rhuthun yn rhanbarth Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae datganiad y bwrdd iechyd lleol yn dangos bod sefyllfa ariannol y bwrdd yn rhannol gyfrifol am y penderfyniad i gau'r unedau. Nid wyf yn siŵr a ydych yn ymwybodol, ond mae'r cyngor iechyd cymunedol heddiw wedi galw am gyfarfod gyda rheolwyr y bwrdd er mwyn cael esboniad. A wnaiff y Llywodraeth ddatganiad i ddangos ei bod yn anfodlon bod rhai byrddau iechyd wedi cyhoeddi ar 21 Rhagfyr eu bod yn cau unedau lleol am gyfnod o rhyw fis?

Jane Hutt: The Member for North Wales usefully highlights the role of community health councils in this respect. They are the patients' voice for raising concerns and clarifying matters. There were temporary

Bethan Jenkins: Bridgend County Borough Council has recommended the approval of plans for a biomass power station in the Llynfi valley, partly on the basis of the fact that the development, using a sustainable energy source, complies with the Government's aims of securing sustainable development and reducing carbon emissions in Wales.

Given that these recommendations are contrary to the views of a large number of local people, especially with regard to the sustainability of transporting resources over large distances to the station and the impact on the local environment, could we have a debate on the floor of the Senedd on the Government's biomass policy, so that we can have an open and timely debate on this important issue?

Jane Hutt: Deallaf fod y mater yn cael ei ystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n fater cynllunio lleol, ac mae'n rhaid i awdurdodau gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Aled Roberts: Minister, in reply to questions from Simon Thomas and Darren Millar, the First Minister said that financial problems were not behind the decisions to close some units in north Wales, including those in Ysbyty Bryn Beryl in the Mid and West Wales region and in Ruthin in the North Wales region. However, the local health board's statement shows that the board's financial position is partly responsible for the decision to close those units. You may not be aware, but the community health council has today called for a meeting with the board's management so that they can clarify the situation. Will the Government make a statement to signal its dissatisfaction that some health boards announced on 21 December that they were closing local units for a period of about a month?

Jane Hutt: Mae'r Aelod dros Ogledd Cymru yn tynnu sylw at rôl y cynghorau iechyd cymunedol yn hyn o beth, sy'n ddefnyddiol. Hwy sy'n cyfleu pryderon cleifion ac yn egluro materion. Bu unedau ar gau dros dro;

closures; we can refer back to our comments about minor injuries units earlier on in questions to the First Minister and there were other temporary closures with regard to wards. Community health councils must engage on major service changes as well as have a clear position on local and temporary changes. The Minister for health is given assurances about when a change is temporary or a more long-standing, major service change.

Andrew R.T. Davies: Minister, like many Members for the South Wales Central area, you will be aware of the issue of fly grazing. Horses are illegally placed on waste ground and on ground belonging to charities such as the Woodland Trust, causing enormous distress to the people who have contributed to those facilities. It also causes enormous distress in terms of the welfare of the horses and animals concerned. This was highlighted on television last week, when dead horses were shown lying in a field, unattended. Animal welfare is a clear responsibility of the Welsh Government. I seek a statement from the Minister for animal health and a commitment from the Government that it will organise a stakeholder group to once and for all address the issue of horses placed illegally on common ground, on ground owned by charities and on private land. The terrible situation in south Wales must come to an end and the authorities that implement enforcement on the ground must know that the Welsh Government stands behind them, and that they have the power to enact their powers of entry to sort this problem out.

Jane Hutt: The leader of the opposition's concern for animal welfare is expressed across this Chamber. The constituency issues that he raises are close to my concerns. It is a multi-agency matter, as well as cross-governmental and local government matter in terms of powers. The Government will look at this matter in terms of its responsibility.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno ei bod wedi bod yn bleser cael croesawu Llysgennad Denmarc i'r Cynulliad, yn enwedig i'r rhai ohonom a gafodd y fraint o gwrdd â hi mewn

gallwn gyfeirio'n ôl at ein sylwadau ynghylch unedau mân anafiadau yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac roedd wardiau eraill wedi cau dros dro. Mae'n rhaid i gynghorau iechyd cymuned ymgysylltu ar newidiadau mawr i wasanaethau yn ogystal â chael safbwynt clir ar newidiadau lleol a rhai dros dro. Rhoddir sicrwydd i'r Gweinidog iechyd ynghylch pryd y bydd newid i wasanaeth yn un dros dro neu'n un mwy hirsefydlog.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, fel nifer o'r Aelodau dros ardal Canol De Cymru, byddwch yn ymwybodol o'r broblem o bori anghyfreithlon. Mae ceffylau'n cael eu gosod yn anghyfreithlon ar dir gwastraff ac ar dir sy'n perthyn i elusennau megis Coed Cadw, gan beri gofid mawr i'r bobl sydd wedi cyfrannu at y cyfleusterau hynny. Mae hefyd yn peri gofid mawr ynghylch lles y ceffylau a'r anifeiliaid o dan sylw. Amlygwyd hyn ar y teledu yr wythnos diwethaf, pan ddangoswyd ceffylau wedi marw yn gorwedd mewn cae, ar eu pen eu hunain. Mae lles anifeiliaid yn gyfrifoldeb clir i Lywodraeth Cymru. Gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog dros iechyd anifeiliaid ac ymrwymiad gan y Llywodraeth y bydd yn sefydlu grŵp rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r broblem o osod ceffylau'n anghyfreithlon ar dir cyffredin, ar dir sy'n eiddo i elusennau ac ar dir preifat unwaith ac am byth. Mae'n rhaid i'r sefyllfa ofnadwy yn ne Cymru ddod i ben ac mae'n rhaid i'r awdurdodau sy'n gweithredu'r dulliau gorfodi ar lawr gwlad wybod bod Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi, a bod ganddynt y pŵer i weithredu eu pwerau mynediad i ddatrys y broblem hon.

Jane Hutt: Mae pryder arweinydd yr wrthblaid ynghylch lles anifeiliaid yn cael ei fynegi ar draws y Siambr hon. Mae'r materion etholaethol y mae'n eu codi yn agos at fy mhryderon i. Mae'n fater aml-asiantaethol, yn ogystal â bod yn fater ar draws y Llywodraeth a llywodraeth leol o ran pwerau. Bydd y Llywodraeth yn edrych ar y mater hwn mewn perthynas â'i chyfrifoldeb.

Lord Elis-Thomas: I am sure that the Minister will agree that it was a pleasure to welcome the Danish Ambassador to the Assembly, particularly for those of us who had the privilege of meeting with her in an

cydbwyllgor anffurfiol y bore yma. A fyddai'r Gweinidog yn trefnu, dros y misoedd nesaf, ddadl yn amser y Llywodraeth er mwyn i'r Cynulliad drafod yn llawn bwysigrwydd ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd ar bob lefel, ac er mwyn inni ddangos yn glir y gwahaniaeth rhwng agwedd y Cynulliad ac agwedd ddilornus Prif Weinidog Llywodraeth y Deyrnas Unedig?

Jane Hutt: Unfortunately, I was not able to meet with the Danish Ambassador, but I am glad that the opportunity was welcomed and afforded the clear status that it deserves. This afternoon's debate, led by the First Minister, will be an opportunity for Dafydd Elis-Thomas and colleagues to express their views on the importance of the European Union for Wales.

Peter Black: Minister, you will have heard the question from Rhodri Glyn Thomas to the First Minister earlier regarding AWEMA and the allegations that have been made against it. This falls within your portfolio, and the First Minister responded by saying that there was an investigation. Are you prepared to lay a written statement setting out the terms of that investigation, who is conducting it and the timescale to which it is being operated?

Jane Hutt: I am aware of those concerns and would like to assure Peter Black that, having assessed the information that we have received in respect of AWEMA, the Welsh Government and WEFO, co-ordinating with the Big Lottery Fund, have resolved to instigate an investigation to ensure that the public funding provided has been properly spent and can be accounted for. We will come back to you when that has been concluded.

Mark Isherwood: I call for a statement on two matters. The first is the Welsh Government's community transport concessionary fare initiative. I have previously, on a number of occasions, raised concerns expressed by Flintshire's Welsh Border Community Transport and Denbighshire's Dial-A-Ride about their future. Age Cymru e-mailed six Assembly Members from across the parties during recess saying that this is an area of concern

informal joint committee this morning. Would the Minister arrange, over the coming months, a debate in Government time so that the Assembly can discuss fully the importance of our relationship with the European Union at all levels, and so that we can clearly illustrate the difference between the attitude of the Assembly and the insulting attitude of the Prime Minister of the UK Government?

Jane Hutt: Yn anffodus, ni fedrais gwrdd â Llysgennad Denmarc, ond rwyf yn falch bod y cyfle wedi'i groesawu ac y rhoddwyd y statws amlwg y mae'n ei haeddu iddo. Bydd y drafodaeth y prynhawn yma, o dan arweiniad y Prif Weinidog, yn gyfle i Dafydd Elis-Thomas a'i gydweithwyr fynegi eu barn ar bwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd i Gymru.

Peter Black: Weinidog, byddwch wedi clywed y cwestiwn gan Rhodri Glyn Thomas i'r Prif Weinidog yn gynharach ynghylch AWEMA a'r honiadau a wnaed yn ei erbyn. Daw hyn o fewn eich portffolio, ac ymatebodd y Prif Weinidog drwy ddweud bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. A ydych yn barod i wneud datganiad ysgrifenedig yn nodi telerau'r ymchwiliad hwnnw, pwy sy'n ei gynnal a'r amserlen ar ei gyfer?

Jane Hutt: Rwyf yn ymwybodol o'r pryderon hynny, a hoffwn sicrhau Peter Black, ar ôl asesu'r wybodaeth rydym wedi'i chael mewn perthynas ag AWEMA, fod Llywodraeth Cymru a WEFO, gan gydlynu â'r Gronfa Loteri Fawr, wedi penderfynu lansio ymchwiliad i sicrhau bod y cyllid cyhoeddus a ddarperir wedi'i wario'n briodol a bod cofnod ohono. Gwnawn gyhoeddiad i chi pan ddaw hwnnw i ben.

Mark Isherwood: Galwaf am ddatganiad ar ddau fater. Y cyntaf yw menter tocynnau rhatach ar gludiant cymunedol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi codi'r pryderon a fynegwyd gan Drafnidiaeth Gymunedol y Gororau yn Sir y Fflint a Dial-a-Ride yn Sir Ddinbych ynghylch eu dyfodol ar sawl achlysur o'r blaen. Anfonodd Age Cymru e-bost at chwe Aelod Cynulliad o bob plaid yn ystod y toriad i ddweud bod hwn yn faes sy'n peri pryder a godwyd gydag ef yn gyson yn

that has been raised with it consistently over past months. It copied us in on a letter from Pembrokeshire providers expressing concern about the Welsh Government's concessionary travel policy and the forthcoming closure of the community transport concessionary fares initiative, which, as it says, will severely impact on elderly and disabled people who currently rely on the service to access essential services and maintain independence. It said that one of the Welsh Government's core pledges is to retain free bus travel for elderly and disabled people and for their carers. It cannot understand how the Welsh Government on the one hand can continue to fund a concessionary travel scheme for all those over the age of 60, while the very elderly and the most disabled have to pay, even for essential journeys, such as basic shopping or visiting the doctor. It acknowledges the severe constraints on public finances, but also points out that any saving that the Welsh Government makes by closing the scheme will be more than offset by increased costs to other budgets as people lose their ability to remain independent at home and are moved on to more intensive and expensive health and social care. It concluded by appealing urgently to those Members to look into this issue.

My second and final point is to call for a statement on the Supporting People national review update. Cymorth Cymru, the representative body for providers of housing-related support and homelessness and supported living services, has said that many providers and landlords feel that the make-up of the collaborative committees proposed by Professor Mansel Aylward in his review of Supporting People is too imbalanced and that there needs to be greater parity between local authority and non-local-authority representatives. During the recess, all North Wales Assembly Members and local constituency Members were invited to Flintshire County Council's social and health care overview and scrutiny committee. Unfortunately, only Aled Roberts and I were able to attend. Members of all parties expressed concern that local authorities across north Wales were set to lose over 20% of their Supporting People funding over the period and asked whether the Welsh

ystod y misoedd diwethaf. Anfonodd gopi atom o lythyr gan ddarparwyr Sir Benfro yn mynegi pryder ynghylch polisi teithio rhatach Llywodraeth Cymru a'r ffaith y bydd y fenter tocynnau rhatach ar gludiant cymunedol yn dod i ben cyn hir. Dywed y bydd hynny'n cael effaith ddifrifol ar bobl oedrannus ac anabl sydd ar hyn o bryd yn dibynnu ar y gwasanaeth i allu defnyddio gwasanaethau hanfodol a chadw eu hannibyniaeth. Dywedodd mai un o addewidion craidd Llywodraeth Cymru yw cadw teithio ar fysiau am ddim i bobl oedrannus ac anabl ac ar gyfer eu gofalwyr. Nid yw'n deall sut y gall Llywodraeth Cymru, ar y naill law, barhau i ariannu cynllun teithio rhatach ar gyfer pawb dros 60 oed, tra bod bobl oedrannus iawn a'r bobl fwyaf anabl yn gorfod talu, hyd yn oed ar gyfer teithiau hanfodol, fel mynd i siopa am gynnyrch sylfaenol neu ymweld â'r meddyg. Mae'n cydnabod y cyfyngiadau llym ar arian cyhoeddus, ond mae hefyd yn nodi y bydd unrhyw arbedion a wneir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gwrthbwysu gan y costau cynyddol i gyllidebau eraill gan fod pobl yn colli eu gallu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi ac yn cael eu symud i ofal iechyd a chymdeithasol mwy dwys a drud. Gorffennodd drwy apelio ar frys i'r Aelodau hynny ystyried y mater hwn.

Fy ail bwynt, a'r pwynt terfynol, yw fy mod am alw am ddatganiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad cenedlaethol Cefnogi Pobl. Mae Cymorth Cymru, y corff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n darparu cymorth ar dai a gwasanaethau digartrefedd a byw â chymorth, wedi dweud bod nifer o ddarparwyr a landlordiaid yn teimlo bod cyfansoddiad y pwyllgorau ar y cyd a gynigiwyd gan yr Athro Mansel Aylward yn ei adolygiad o Cefnogi Pobl yn rhy anghytwys a bod angen mwy o gydraddoldeb rhwng yr awdurdod lleol a'r cynrychiolwyr nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol. Yn ystod y toriad, gwahoddwyd holl Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru ac Aelodau etholaethau lleol i gyfarfod o bwyllgor arolygu a chraffu ar ofal cymdeithasol ac iechyd Cyngor Sir y Fflint. Yn anffodus, dim ond Aled Roberts a minnau oedd yn gallu mynd i'r cyfarfod. Mynegodd aelodau o bob plaid bryder y bydd awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru yn

Government is able to reconsider a level of reduction that will provide protection for north Wales.

Jane Hutt: Mark Isherwood raised two points of policy. The Welsh Government is proud of the continuing investment that we have put into the concessionary fares scheme and into supporting, maintaining and safeguarding Supporting People, enabling Mansel Aylward, the distinguished chair of the review of the Supporting People arrangements, to come forward with proposals that are widely accepted. Of course, there will be consideration at each stage of implementation. Both of the points that have been raised today are about the implementation of policy and delivery by the Government, which we have addressed.

Mohammad Asghar: Does the Minister know that, over the Christmas period, the residents of South Wales East were in a position of severe disadvantage? One of my constituents is a pastor of Asian Christians in Newport and was utterly flabbergasted when he was ordering goods on the internet. He was happy to pay the postage and packaging charges; however, to his horror, he was also made to pay the Severn bridge toll charges on the items that he bought for Christmas. I would like to know why Welsh residents are being penalised for living this side of the Severn bridge when our English and Scottish counterparts do not have to face such problems. Has your Government made any effort to make the public aware of such scenarios?

Jane Hutt: I am sure that Mohammad Asghar has taken the opportunity to draw this matter to the attention of the appropriate authorities.

2.45 p.m.

**Datganiad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: ‘Gofal gydag Urddas?’—Cynnydd
Statement: Older People’s Commissioner for Wales: ‘Dignified Care?’—
Progress**

The Minister for Health and Social Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

colli dros 20% o’u cyllid Cefnogi Pobl yn ystod y cyfnod o dan sylw a gofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn gallu ailystyried gosod lefel o ostyngiad a fydd yn gwarchod gogledd Cymru.

Jane Hutt: Cododd Mark Isherwood ddau bwynt polisi. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o’i buddsoddiad parhaus yn y cynllun teithio rhatach ac mewn cefnogi, cynnal a chadw a diogelu Cefnogi Pobl, gan alluogi Mansel Aylward, cadeirydd nodedig yr adolygiad o drefniadau Cefnogi Pobl, i gyflwyno cynigion a dderbynnir yn eang. Wrth gwrs, bydd pob cam gweithredu’n cael ei ystyried. Mae’r ddau bwynt a godwyd heddiw yn ymwneud â’r Llywodraeth yn gweithredu polisi ac yn ei gyflwyno, ac rydym wedi mynd i’r afael â hynny.

Mohammad Asghar: A yw’r Gweinidog yn gwybod y bu trigolion de-ddwyrain Cymru o dan anfantais ddifrifol dros gyfnod y Nadolig? Mae un o fy etholwyr yn weinidog i Gristnogion Asiaidd yng Nghasnewydd ac roedd wedi rhyfeddu’n fawr wrth iddo archebu nwyddau ar y rhyngwyd. Roedd yn hapus i dalu’r costau postio a phacio; fodd bynnag, fe’i harswydwyd bod yn rhaid iddo hefyd dalu tollau pont Hafren ar yr eitemau a brynodd ar gyfer y Nadolig. Hoffwn wybod pam mae trigolion Cymru yn cael eu cosbi am fyw ar yr ochr hon i bont Hafren pan nad oes yn rhaid i’n cymheiriaid yn Lloegr ac yn yr Alban wynebu problemau o’r fath. A yw eich Llywodraeth wedi gwneud unrhyw ymdrech i hysbysu’r cyhoedd ynghylch sefyllfaoedd o’r fath?

Jane Hutt: Rwyf yn siŵr bod Mohammad Asghar wedi manteisio ar y cyfle i dynnu’r mater hwn i sylw’r awdurdodau priodol.

Services (Lesley Griffiths): In March 2011, the Older People's Commissioner for Wales published her first review, which looked at the dignity and respect shown to older people in acute hospital settings in Wales. Good and bad practice was found, and the report identified 12 recommendations for action by the Welsh Government, NHS Wales organisations and their partner local authorities. Subsequent to this report being published, the Welsh Government has prioritised dignity in care in its new NHS delivery framework for 2011-12, which NHS Wales must deliver on. Every NHS organisation now has an action plan approved by the commissioner in place, and implementation is being actively monitored by the Welsh Government.

To support our commitment to make improvements in patient care, a number of actions have been taken. In particular, Professor Jean White, the chief nursing officer, has interviewed each of the nurse directors to review progress on initiatives already under way to improve the quality of patients' experience. Professor White has also discussed the individual action plans that each NHS organisation has developed and has had confirmation that every executive board has discussed, and agreed to act on, the report's findings and recommendations. The chief nursing officer has reinforced my message to the NHS that improving the quality and safety of patient care, with care delivered with appropriate dignity and compassion, is of paramount importance.

A number of the initiatives are already showing improvements in care. For example, Transforming Care is a ward-based improvement programme that empowers ward teams to increase the amount of time staff spend on direct patient care, to reduce adverse events, such as pressure sores and falls, and to increase patient satisfaction. Another example is the nutrition care pathway, which has introduced standard food and fluid charts into every in-patient area in Wales and requires organisations to protect patients at mealtimes from non-urgent medical interventions. To ensure that all staff know what is required of them, an e-learning package was introduced in September 2011,

Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei hadolygiad cyntaf, a oedd yn edrych ar yr urddas a'r parch a ddangosir i bobl hŷn mewn ysbytai aciwt yng Nghymru. Daethpwyd o hyd i arfer da a gwael, ac mae'r adroddiad yn nodi 12 o argymhellion i'w gweithredu gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau GIG Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddynt. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu urddas mewn gofal yn fframwaith cyflawni newydd y GIG ar gyfer 2011-12, y mae'n rhaid i GIG Cymru ei roi ar waith. Mae gan bob sefydliad GIG bellach gynllun gweithredu, a gymeradwywyd gan y comisiynydd, ar waith ac mae'r dull o'i weithredu'n cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru.

Cymerwyd nifer o gamau i gefnogi ein hymrwymiad i wneud gwelliannau ym maes gofal cleifion. Yn benodol, mae'r Athro Jean White, y prif swyddog nyrsio, wedi cyfweld â phob un o'r cyfarwyddwyr nyrsio i adolygu'r cynnydd a wnaed ar gynlluniau sydd eisoes ar y gweill i wella ansawdd profiad cleifion. Mae'r Athro White hefyd wedi trafod y cynlluniau gweithredu unigol y mae pob sefydliad GIG wedi'u datblygu ac wedi cael cadarnhad bod pob bwrdd gweithredol wedi trafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, ac wedi cytuno i weithredu arnynt. Mae'r prif swyddog nyrsio wedi atgyfnerthu fy neges i'r GIG bod gwella ansawdd a diogelwch gofal cleifion, gyda'r gofal yn cael ei ddarparu gyda'r urddas a'r tosturi priodol, o'r pwys mwyaf.

Mae nifer o'r mentrau eisoes yn dangos gwelliannau mewn gofal. Er enghraifft, mae Trawsnewid Gofal yn rhaglen wella sy'n seiliedig ar wardiau sy'n rhoi grym i dimau ward i gynyddu faint o amser y mae staff yn ei dreulio ar ofal cleifion uniongyrchol, i leihau digwyddiadau niweidiol, fel briwiau gorwedd a phobl yn cwmpo, ac i gynyddu boddhad cleifion. Enghraifft arall yw'r llwybr gofal maeth, sydd wedi cyflwyno siartiau bwyd a hylif safonol ym mhob man ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru ac sy'n ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau'n gwarchod cleifion yn ystod prydau bwyd rhag ymyriadau meddygol nad ydynt yn rhai brys. Er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn

with all ward staff required to complete it within 12 months of taking up their post.

There are national work programmes on oral health and hygiene, continence care, cleanliness standards, and expansion of the fundamentals of care audit tool to gain more evidence from patients about their experiences. I acknowledge that initiatives need time to become fully embedded across all areas in Wales, to make sure that they move from 'initiative' to 'the way we do things routinely'. This needs commitment and strong clinical leadership from the board to the ward level, and this message will be reinforced.

Last month, the chief nursing officer requested updates from all organisations on progress with their action plans. All NHS organisations are working to their individually agreed timescales for each action point, and each organisation is progressing well. The action plans and progress are monitored as part of the monthly performance management meetings and joint executive team meetings. A wide range of activities is under way by NHS organisations designed to meet local needs. However, all have introduced the mandatory leadership course for ward sisters and charge nurses.

Aneurin Bevan Local Health Board is rolling out its frailty programme to all localities and undertaking an awareness-raising campaign. It has recently launched its dignity in care campaign DVD called *Look Closer—See Me*.

Betsi Cadwaladr University Local Health Board has introduced protected mealtimes into its ward areas. The initiative encourages relatives to visit the ward at mealtimes so that they can assist their relative with eating and drinking. The health board has also developed a continence action plan. Continence training for all staff is progressing well and is led by the continence nurse specialists. Hywel Dda Local Health Board has initiated a 10-point dignity challenge and has developed an e-learning

gwybod beth a ddisgwylir ganddynt, cyflwynwyd pecyn e-ddysgu ym mis Medi 2011, y mae'n ofynnol i'r holl staff ei gwblhau o fewn 12 mis iddynt ddechrau yn eu swydd.

Mae rhaglenni gwaith cenedlaethol ar iechyd a hylendid y geg, gofal ymataliaeth, safonau glendid, ac ehangu'r offeryn archwilio hanfodion gofal i gael mwy o dystiolaeth gan gleifion am eu profiadau. Rwyf yn cydnabod bod angen amser i ymgorffori'r mentrau'n llawn ym mhob ardal yng Nghymru, i sicrhau eu bod yn symud o fod yn fentrau i fod yn rhywbeth rydym yn ei wneud fel mater o drefn. Mae angen ymrwymiad ac arweinyddiaeth glinigol gref ar hyn o lefel y bwrdd i lefel y ward, a bydd y neges hon yn cael ei hatgyfnerthu.

Fis diwethaf, gofynnodd y prif swyddog nyrsio am y wybodaeth ddiweddaraf gan bob sefydliad ar gynnydd eu cynlluniau gweithredu. Mae holl sefydliadau'r GIG yn gweithio i'w hamserlenni unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer pob pwynt gweithredu, ac mae pob sefydliad yn gwneud cynnydd da. Caiff y cynlluniau gweithredu a'r cynnydd eu monitro fel rhan o'r cyfarfodydd rheoli perfformiad a chyfarfodydd gweithredol y timau ar y cyd a gynhellir bob mis. Mae ystod eang o weithgareddau ar y gweill gan sefydliadau'r GIG a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion lleol. Fodd bynnag, mae pob un wedi cyflwyno'r cwrs arweinyddiaeth gorfodol ar gyfer prif nyrsys ward.

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn cyflwyno ei raglen pobl fregus i bob lleoliad ac yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth. Mae wedi lansio DVD ei ymgyrch urddas mewn gofal o'r enw *Look Closer—See Me*.

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno amserau bwyd wedi'u gwarchod yn ei wardiau. Mae'r fenter yn annog perthnasau i ymweld â'r wardiau yn ystod prydau bwyd fel y gallant gynorthwyo eu perthynas i fwyta ac yfed. Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar ymataliaeth. Mae'r hyfforddiant ar ymataliaeth ar gyfer yr holl staff yn datblygu'n dda ac fe'i harweinir gan y nyrsys sy'n arbenigo mewn ymataliaeth. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi

tool on dignity on its intranet. Cardiff and Vale University Local Health Board has introduced a new frail elderly project led by the Director of Therapies and Health Science. There is a standing item on dignity and respect on the board's agenda, with patients' stories used to illustrate the messages. Powys Teaching Local Health Board has completed a baseline audit of dementia care and increased patient involvement in care planning.

A considerable amount of work is already under way to improve dementia services in Wales, including targets that have been set for the NHS to reduce the time between the onset of symptoms and diagnosis and treatment. These intelligent targets are also being used to improve dignity in care, as recommended by the commissioner.

The national dementia vision for Wales, launched in February last year, sets out how we intend to develop high-quality services for people with dementia; this commitment is also reflected in 'Together for Health'. The key actions for this Welsh Government, as set out in the programme for government, include a commitment to improve care and support for people with dementia and their families. It builds on 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', which recognised that a major future challenge is how best to approach the implications of an ever-ageing population and increased incidence of associated dementia.

In addition to the action plans that the Welsh Government and NHS organisations have in place, Healthcare Inspectorate Wales began conducting unannounced dignity spot checks in December 2011. These visits are conducted by small teams, which include a senior nurse and a lay reviewer. The focus of the visits is on the experience of the individual, particularly in terms of dignity and respect, and whether their essential care needs were met in a timely manner. As the spot checks have only just started, it is too

cyflwyno her urddas 10 pwynt ac wedi datblygu offeryn e-ddysgu ar urddas ar ei fewnrwyd. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno prosiect newydd ar gyfer pobl oeddrannus sy'n fregus o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd. Mae eitem sefydlog ar urddas a pharch ar agenda'r bwrdd, gyda straeon cleifion yn cael eu defnyddio i gyfleu'r negeseuon. Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi cwblhau archwiliad sylfaenol o ofal dementia a chyfranogiad cynyddol cleifion mewn cynllunio gofal.

Mae cryn dipyn o waith eisoes ar y gweill i wella gwasanaethau dementia yng Nghymru, gan gynnwys targedau a bennwyd ar gyfer y GIG i leihau'r amser rhwng ymddangosiad y symptomau a'r diagnosis a'r driniaeth. Mae'r targedau deallus hyn hefyd yn cael eu defnyddio i wella urddas mewn gofal, fel yr argymhellwyd gan y comisiynydd.

Mae'r weledigaeth genedlaethol ar ddementia i Gymru, a lansiwyd ym mis Chwefror y llynedd, yn nodi sut rydym yn bwriadu datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl â dementia; adlewyrchir yr ymrwymiad hwn hefyd yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae'r camau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y rhaglen lywodraethu, yn cynnwys ymrwymiad i wella'r gofal a'r gefnogaeth ar gyfer pobl â dementia a'u teuluoedd. Mae'n datblygu cynnwys 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', a oedd yn cydnabod mai her fawr yn y dyfodol fydd dewis y ffordd orau o ymdrin â goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio a'r achosion cynyddol o ddementia sy'n gysylltiedig â hynny.

Yn ychwanegol at gynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG, dechreuodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal archwiliadau urddas dirybudd ym mis Rhagfyr 2011. Cynhelir yr ymweliadau hyn gan dimau bach, sy'n cynnwys uwch nyrs ac adolygydd lleyg. Mae'r ymweliadau yn canolbwyntio ar brofiad yr unigolyn, yn enwedig o ran urddas a pharch, ac a yw ei anghenion gofal hanfodol yn cael eu bodloni mewn modd amserol. Gan fod yr archwiliadau dirybudd ond newydd ddechrau,

soon to have data on their findings.

In a brief statement such as this, it is not possible to describe in detail the breadth of activity under way in Wales. The commissioner's report has brought the issue of dignity in care to the fore and I am pleased to see the energy that all NHS organisations are putting into implementing their respective action plans. There is much that still needs to be done, but there is now good evidence that improvements can be made with the right leadership. We will continue to work with our partners to maintain this momentum and build on the improvements achieved.

Darren Millar: Thank you for your statement, Minister. Before I ask some questions on this issue, I pay tribute to Ruth Marks, the older people's commissioner, and her staff for their excellent work in producing the report. Let us not forget that some horrific truths were exposed in it. All of us in the Chamber want to deal with those issues. It was a bold report, and we need to make real cultural changes with regard to how the NHS has approached this issue in the past. I am hopeful that we will see visible and concrete outcomes as a result of the announcements that you have made today.

Minister, why did it take three responses from the Welsh Government before the older people's commissioner was happy with the actions proposed to deal with the recommendations made in the report? I note that you say that there is active monitoring of the implementation of the plans that have been produced by the board. You have touched a little on how that monitoring is undertaken. What sanctions would you be willing to impose on those particular boards that were not living up to their obligations and the commitments that they had made to the older people's commissioner in response to the report?

I am pleased to hear that the dignity spot checks have now commenced. I am also pleased to hear some of the examples of good practice by different local health boards

mae'n rhy fuan i gael data ar eu canfyddiadau.

Mewn datganiad byr fel hwn, nid yw'n bosibl disgrifio'n fanwl ehangder y gweithgareddau sydd ar y gweill yng Nghymru. Mae adroddiad y comisiynydd wedi dod â'r mater o urddas mewn gofal i'r amlwg ac rwyf yn falch o weld y brwdfrydedd y mae holl sefydliadau'r GIG yn ei ddangos wrth weithredu eu cynlluniau gweithredu unigol. Mae llawer o hyd sydd angen ei wneud, ond mae tystiolaeth dda bellach y gellir sicrhau gwelliannau gyda'r arweiniad cywir. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i gynnal y momentwm hwn ac i ddatblygu'r gwelliannau a gyflawnwyd.

Darren Millar: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Cyn i mi ofyn rhai cwestiynau ar y mater hwn, talaf deyrnged i Ruth Marks, y comisiynydd pobl hŷn, a'i staff am eu gwaith rhagorol yn llunio'r adroddiad. Gadewch i ni beidio ag anghofio bod rhai gwirioneddau erchyll wedi'u datgelu ynddo. Mae pob un ohonom yn y Siambr am ymdrin â'r materion hynny. Roedd yn adroddiad beiddgar, ac mae angen i ni wneud newidiadau diwylliannol gwirioneddol mewn perthynas â sut yr aeth y GIG i'r afael â'r mater hwn yn y gorffennol. Rwyf yn obeithiol y byddwn yn gweld canlyniadau pendant a gweladwy o ganlyniad i'r cyhoeddiadau a wnaethoch heddiw.

Weinidog, pam y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi tri ymateb cyn bod y comisiynydd pobl hŷn yn fodlon ar y camau arfaethedig i ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad? Nodaf eich bod yn dweud bod y dull o weithredu'r cynlluniau a luniwyd gan y bwrdd yn cael ei fonitro. Rydych wedi cyfeirio rhywfaint at sut y gwneir y gwaith monitro hwnnw. Pa gosbau y byddech yn barod i'w gosod ar y byrddau hynny nad oeddent yn cyflawni eu rhwymedigaethau a'r ymrwymadau a wnaethant i'r comisiynydd pobl hŷn mewn ymateb i'r adroddiad?

Rwy'n falch o glywed bod yr archwiliadau urddas dirybudd bellach wedi dechrau. Rwyf hefyd yn falch o glywed ynghylch rhai o'r enghreifftiau o arfer da gan fyrddau iechyd

around Wales. However, can you tell us how you intend to implement that best practice across Wales, so that we do not have inconsistency in the quality of care and our approach with regard to dignity in care for older people?

One issue raised in the report of the older people's commissioner was staffing levels, the pressure that those can put on teams of staff in hospitals, and the problems that they can cause with regard to how staff deliver care, particularly with regard to the time that they are able to spend with patients. You will be aware, because it has been raised a number of times in this Chamber, that staffing shortages have resulted in the closure of some facilities in my constituency, and in Mid and West Wales too, because staff have had to be redeployed. What action is the Welsh Government taking to ensure an adequate supply of nursing, medical and clinical staff, so that dignity in care is paramount when elderly people are admitted to hospital?

Another issue that has been raised by a number of organisations is that of the ageing population, and the massive increase that we will see in the number of people aged over 65 over the next few decades. It has been estimated that 32% of the population will be aged over 65 by 2030, and the WRVS and other organisations have flagged this up as a concern. That is bound to increase pressure on health and social services, and on their budgets, and I wonder what plans the Welsh Government has to ensure that the NHS gets the resources that it needs to maintain and improve services for that significant older population in Wales in future.

To move on to my final question, could you tell us about consistency across Wales? You have indicated that the action plans will be drawn up individually by local health boards, and I think that we are in danger of having an inconsistent approach. We need best practice across Wales, and I wonder whether the Welsh Government ought to take more direct leadership of this issue to ensure that, whether someone is admitted to hospital in Barry or Bangor, they get the same quality of

lleol gwahanol ledled Cymru. Fodd bynnag, a allwch ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu gweithredu'r arfer gorau hwnnw ledled Cymru, fel nad oes gennym anghysondeb o ran ansawdd y gofal a'n dull o ymdrin ag urddas mewn gofal i bobl hŷn?

Un mater a godwyd yn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn oedd lefelau staffio, y pwysau y gall y rhain ei roi ar dimau o staff mewn ysbytai, a'r problemau y gallant eu hachosi o ran sut y mae'r staff yn darparu gofal, yn enwedig o ran yr amser y gallant ei dreulio gyda'r cleifion. Byddwch yn ymwybodol, oherwydd codwyd hyn nifer o weithiau yn y Siambr hon, fod prinder staff wedi arwain at gau rhai cyfleusterau yn fy etholaeth i, ac yng Nghanolbarth a Gorrlewin Cymru hefyd, oherwydd bod staff wedi cael eu hadleoli. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad digonol o staff nyrsio, meddygol a chlinigol, fel y rhoddir y pwys mwyaf ar urddas mewn gofal pan fydd pobl oedrannus yn cael eu derbyn i'r ysbyty?

Mater arall a godwyd gan nifer o sefydliadau yw'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio, ac y bydd cynnydd aruthrol yn ystod y degawdau nesaf yn nifer y bobl sydd dros 65 oed. Amcangyfrifwyd y bydd 32% o'r boblogaeth yn hŷn na 65 oed erbyn 2030, ac mae Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched a sefydliadau eraill wedi tynnu sylw at hyn fel pryder. Mae hynny'n siŵr o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac ar eu cyllidebau. Tybed pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y GIG yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arno i gynnal a gwella gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth hŷn arwyddocaol honno yng Nghymru yn y dyfodol.

I symud ymlaen i fy nghwestiwn olaf, a allwch ddweud wrthym am y cysondeb ledled Cymru? Rydych wedi nodi y bydd y cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio'n unigol gan fyrddau iechyd lleol, a chredaf ein bod mewn perygl o gael dull anghyson. Mae angen arfer gorau ledled Cymru, a tybed a ddylai Llywodraeth Cymru arwain ar y mater hwn mewn modd mwy uniongyrchol er mwyn sicrhau bod rhywun sy'n mynd i'r ysbyty yn y Barri neu ym Mangor yn cael

service.

Lesley Griffiths: Thank you, Darren Millar—it is nice to see you back in the Chamber. I, too, would like to pay tribute to Ruth Marks and her team, and I probably should have done so in my opening statement. You are right: this report has meant that we have seen a cultural change, and people who go into the healthcare profession do want to care and assist. You asked why it took three responses; obviously, there was a change of Minister during the process, we had an election, and I met with Ruth Marks, but we got it absolutely right, and I am pleased that we accepted the recommendations and that work is progressing well.

The chief nursing officer is the official who ensures that close monitoring is undertaken. She meets the director of nurses in each LHB regularly. You mentioned the dignity spot checks, and they were universally welcomed. As I said, it is a bit early to have any data on their findings, because they have only just started, but the focus of the visits will be on the experience of the individual, and I want to see more feedback from patients and their families on the care that they get. It is important that we learn from those experiences. You also mentioned nursing staff levels; health boards and trusts are responsible. The health and wellbeing of patients and staff is of paramount importance, and it is up to the health boards and trusts to ensure that there are the right levels of staff to care for the local population. We give them very large budgets, and it is important that they do that.

In relation to the ageing population, that is why we as a Government announced a 'National Dementia Vision for Wales'. We are aware of the ageing population, which will pose very real and huge challenges in respect of our services. The national dementia vision builds on 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', and sets out how we as a Government intend to develop high-quality services for people with dementia.

gwasanaeth o'r un safon.

Lesley Griffiths: Diolch i chi, Darren Millar—mae'n braf eich gweld yn ôl yn y Siambr. Hoffwn innau hefyd dalu teyrnged i Ruth Marks a'i thîm, ac, yn ôl pob tebyg, dylwn fod wedi gwneud hynny yn fy natganiad agoriadol. Rydych yn gywir: mae'r adroddiad hwn wedi golygu ein bod wedi gweld newid diwylliannol, ac mae'r bobl sy'n dilyn proffesiwn gofal iechyd yn dymuno gofalu a chynorthwyo. Gwnaethoch ofyn pam y cymerodd dri ymateb; yn amlwg, cafwyd Gweinidog newydd yn ystod y broses, cawsom etholiad, a chefais gyfarfod â Ruth Marks, ond roeddem yn llygad ein lle, ac rwyf yn falch ein bod wedi derbyn yr argymhellion a bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

Y prif swyddog nyrsio yw'r swyddog sy'n sicrhau bod gwaith monitro agos yn cael ei wneud. Mae'n cyfarfod â'r cyfarwyddwr nyrsys ym mhob bwrdd iechyd lleol yn rheolaidd. Gwnaethoch sôn am yr archwiliadau urddas dirybudd, a chawsant eu croesawu'n gyffredinol. Fel y dywedais, mae ychydig yn gynnar i gael unrhyw ddata ar eu canfyddiadau, oherwydd eu bod ond newydd ddechrau, ond bydd yr ymweliadau yn canolbwyntio ar brofiad yr unigolyn, ac rwyf am weld mwy o adborth gan gleifion a'u teuluoedd ar y gofal y maent yn ei gael. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu o'r profiadau hynny. Gwnaethoch grybwyll lefelau staffio nyrsio hefyd; byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sy'n gyfrifol am hynny. Mae iechyd a lles cleifion a staff o'r pwys mwyaf, a chyfrifoldeb y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yw sicrhau bod lefelau cywir o staff i ofalu am y boblogaeth leol. Rydym yn rhoi cyllidebau mawr iawn iddynt, ac mae'n bwysig eu bod yn gwneud hynny.

Mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio, dyna pam rydym ni fel Llywodraeth wedi cyhoeddi 'Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia'. Rydym yn ymwybodol o'r boblogaeth sy'n heneiddio, a fydd yn creu heriau gwirioneddol a sylweddol mewn perthynas â'n gwasanaethau. Mae'r weledigaeth genedlaethol ar ddementia yn datblygu cynnwys 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith

Gweithredu', ac yn nodi sut rydym fel Llywodraeth yn bwriadu datblygu gwasanaethau o safon uchel i bobl â dementia.

You talk about consistency, and that is the one thing that I want to see in the NHS. I do not want to see inequalities. I only want to see best practice. You are right that this report showed that there was good and bad practice, but I do not think that we should be too pessimistic. Mostly, there is good practice, and bad practice will not be tolerated.

Rydych yn siarad am gysondeb, a dyna'r un peth rwyf am ei weld yn y GIG. Nid wyf am weld anghydraddoldebau. Rwyf am weld arfer gorau yn unig. Rydych yn iawn fod yr adroddiad hwn yn dangos bod arfer da a gwael, ond nid wyf yn credu y dylem fod yn rhy besimistaidd. Yn bennaf, ceir arfer da, ac ni fydd arfer gwael yn cael ei oddef.

3.00 p.m.

Rebecca Evans: I welcome your statement, and I am pleased that the Government has decided to prioritise dignity in care and that progress is being made. I welcome particularly the mandatory training via leadership courses for ward sisters and charge nurses, as well as the spot checks. However, I would like to seek further information relating to some of the specific recommendations made by the commissioner, the first of which relates to the sharing of patient information. I welcome the recommendation that patients should expect a higher degree of privacy when their information is discussed, and that, wherever possible, individual consultations should take place in a private ward facility, although it should still be accessible and appropriate. It is completely unacceptable for patients' conditions and treatment to be discussed in front of other patients and their visitors. Minister, what assessment have you made of the extent of this poor practice in Wales at the moment, although I accept that there is good practice too? How are you working with clinical staff to raise their awareness of the fact that there is a need to improve privacy? What steps are you taking to direct and enable health boards and hospitals to create these private spaces on wards? Finally, how will you be monitoring improvements in that regard?

Rebecca Evans: Croesawaf eich datganiad, ac rwy'n falch fod y Llywodraeth wedi penderfynu blaenoriaethu urddas mewn gofal a bod cynnydd yn cael ei wneud. Croesawaf yn arbennig yr hyfforddiant gorfodol drwy gyfrwng cyrsiau arweinyddiaeth ar gyfer prif nyrsys, yn ogystal â'r archwiliadau dirybudd. Fodd bynnag, hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth yn ymwneud â rhai o'r argymhellion penodol a wnaed gan y comisiynydd. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â rhannu gwybodaeth am gleifion. Rwy'n croesawu'r argymhelliad y dylai cleifion ddisgwyl lefel uwch o breifatrwydd pan fydd eu gwybodaeth yn cael ei drafod, ac y dylid cynnal ymgynghoriadau unigol mewn cyfleuster preifat yn y ward lle bynnag y bo modd, er y dylai barhau i fod yn hygyrch ac yn briodol. Mae trafod cyflyrau a thriniaeth cleifion o flaen cleifion eraill a'u hymwelwyr yn gwbl annerbyniol. Weinidog, pa asesiad rydych wedi'i wneud o hyd a lled yr arfer gwael hwn yng Nghymru ar hyn o bryd, er fy mod yn derbyn bod arfer da hefyd? Sut rydych yn gweithio gyda staff clinigol i godi eu hymwybyddiaeth o'r ffaith bod angen gwella preifatrwydd? Pa gamau rydych yn eu cymryd i gyfeirio a galluogi byrddau iechyd ac ysbytai i greu'r lleoedd preifat hyn ar wardiau? Yn olaf, sut y byddwch yn monitro gwelliannau yn hynny o beth?

Moving on to recommendation 6, which relates to the use of volunteers, you will know of my interest in the third sector, and I know that you will join me in welcoming the good work that volunteers do on behalf of

Symudaf ymlaen i argymhelliad 6, sy'n ymwneud â'r defnydd o wirfoddolwyr. Byddwch yn gwybod am fy niddordeb yn y trydydd sector, ac rwy'n gwybod y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r gwaith da y mae

older people in hospital and in the community. The commissioner recommends that the health boards and the trusts should recognise the expertise of the third sector and work with it to realise the potential and the appropriate and imaginative use of volunteers. How is the Welsh Government helping the health boards and the trusts to recognise that expertise and to use volunteers appropriately? The development, management and support of volunteers is an important and skilled job. How is the Welsh Government supporting third sector organisations to do that work in what are difficult times financially for many organisations? I thank you again for today's statement, and hope that this is only one of many opportunities that we will have to discuss progress.

Lesley Griffiths: I thank the Member for Mid and West Wales for those questions. With regard to patients being able to discuss their conditions in a private area, this is something that should not have to be even said; it is of paramount importance. When I have visited hospitals across Wales, I have been pleased to see that health boards are making such places available. I went to a physiotherapy department, for instance—in the Hywel Dda LHB area, I think—which had completely reorganised the unit so that there are much larger cubicles with actual walls rather than just curtains, which means that patients can discuss their condition in far more privacy. Buildings are what they are; if you were starting again, you probably would not have them the way they are, but I am pleased that health boards are ensuring, where they can, that patients are able to discuss matters in private.

You mentioned the use of volunteers. I pay tribute to the many people who volunteer in so many different ways in hospital. Since I have been in post, I have met many people who work in the shop, take the trolley round or help to feed patients. It is something that I want to encourage, along with relatives going in to help. As I mentioned, most of my monitoring is done by my chief nursing

gwirfoddolwyr yn ei wneud ar ran pobl hŷn yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Mae'r comisiynydd yn argymhell y dylai'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau gydnabod arbenigedd y trydydd sector a gweithio gydag ef er mwyn gwireddu potensial gwirfoddolwyr a gwneud defnydd priodol a chreadigol ohonynt. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau i gydnabod yr arbenigedd hwnnw ac i ddefnyddio gwirfoddolwyr mewn modd priodol? Mae datblygu, rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr yn waith pwysig a medrus. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydliadau yn y trydydd sector i wneud y gwaith hwnnw mewn cyfnod sy'n anodd yn ariannol i lawer o sefydliadau? Diolch ichi unwaith eto am y datganiad heddiw, ac rwy'n gobeithio nad yw hwn ond yn un o nifer o gyfleoedd y byddwn yn eu cael i drafod cynnydd.

Lesley Griffiths: Rwy'n diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am y cwestiynau hynny. O ran galluogi cleifion i drafod eu cyflyrau mewn ardal breifat, mae hyn yn rhywbeth na ddylai fod angen ei ddweud hyd yn oed; mae'n hollbwysig. Pan fyddaf yn ymweld ag ysbytai ledled Cymru, rwy'n falch o weld bod byrddau iechyd yn sicrhau bod mannau o'r fath ar gael. Er enghraifft, ymwelais ag adran ffisiotherapi—yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel dda, rwy'n credu—a oedd wedi ad-drefnu'r uned yn llwyr fel bod ciwbiclau llawer mwy o faint gyda waliau go iawn yn hytrach na llenni yn unig, sy'n golygu y gall cleifion drafod eu cyflwr mewn llawer mwy o breifatrwydd. Rhaid i'r adeiladau aros fel y maent; pe baech yn dechrau eto, mae'n debyg na fydddech yn eu hadeiladu yn yr un modd, ond rwy'n falch bod byrddau iechyd yn sicrhau, lle y gallant, bod cleifion yn gallu trafod materion yn breifat.

Rydych yn crybwyll y defnydd o wirfoddolwyr. Rwy'n talu teyrnged i'r nifer o bobl sy'n gwirfoddoli mewn cymaint o wahanol ffyrdd yn yr ysbyty. Ers i mi fod yn y swydd hon, rwyf wedi cyfarfod llawer o bobl sy'n gweithio yn y siop, yn gwthio'r troli neu'n helpu i fwydo cleifion. Mae'n rhywbeth rwyf am ei annog, ynghyd â pherthnasau yn mynd i mewn i helpu. Fel y

officer, Professor Jean White, who speaks weekly to the directors of nursing and, unless there is a problem, reports back to me monthly. We then ascertain how the recommendations are being implemented.

Lindsay Whittle: A lot of my contribution has been scribbled out now, because so much of what I was going to say has already been said. While I welcome the Minister's statement on the progress made following the report of the older people's commissioner, there are still a few questions that need answering. Governments—and this one, with respect, is no exception—are usually pretty strong on rhetoric and policy statements, but not so strong on the details of how those statements of intent are going to be put into practice. However, I genuinely believe that this statement is a pretty good start. We need to know, Minister, who will be the partners working with you to monitor the dignity and respect that old people have the right to enjoy? How will you personally go about checking on the quality of the care and the support of older people, particularly those in hospitals and care homes? The occasional visit in the past, as we have all agreed, was of little use. In view of some of the appalling cases of neglect that came to light, it was obvious that the present system for monitoring dignity and respect had failed.

I genuinely welcome your statement, Minister, and the news that unannounced dignity spot checks will be carried out. That is one of the best pieces of news that I have heard in the new year. Spot checks should cover inappropriate bathing and shower facilities, inadequate room temperature, a lack of privacy for patients—as Rebecca Evans mentioned—and a lack of attention given to the hygiene needs of patients. In the past, I have heard a complaint relating to a patient being bathed and dried with pillow cases because not enough towels were available. That cannot go on. The family in that case was absolutely horrified.

dywedais, mae'r rhan fwyaf o'm gwaith monitro yn cael ei wneud gan fy mhrif swyddog nyrsio, yr Athro Jean White, sy'n siarad â'r cyfarwyddwyr nyrsio yn wythnosol ac, oni bai fod problem, yn adrodd yn ôl i mi bob mis. Yna rydym yn canfod sut mae'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Lindsay Whittle: Rwyf wedi gadael allan llawer o'm cyfraniad nawr, oherwydd bod cymaint o'r hyn yr oeddwn yn mynd i'w ddweud eisoes wedi cael ei ddweud. Er fy mod yn croesawu datganiad y Gweinidog ar y cynnydd a wnaed yn dilyn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, mae ychydig o gwestiynau sydd angen eu hateb o hyd. Mae Llywodraethau—ac nid yw'r Llywodraeth hon, gyda pharch, yn eithriad—fel arfer yn eithaf cryf o ran rhethreg a datganiadau polisi, ond nid ydynt mor gryf ar y manylion ynghylch sut y bydd y datganiadau hynny o fwiad yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, rwyf wir yn credu bod y datganiad hwn yn ddechrau eithaf da. Mae angen i ni wybod, Weinidog: pwy fydd y partneriaid a fydd yn gweithio gyda chi i fonitro'r urddas a'r parch y mae gan bobl hŷn yr hawl i'w fwynhau? Sut y byddwch chi'n bersonol yn mynd ati i arolygu ansawdd y gofal a'r gefnogaeth ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rheini sydd mewn ysbytai a chartrefi gofal? Nid oedd ymweliad achlysurol yn y gorffennol, fel yr ydym oll wedi cytuno, yn ddefnyddiol iawn. O ystyried rhai o'r achosion echrydus o esgeulustod a ddaeth i'r amlwg, roedd yn amlwg bod y system bresennol ar gyfer monitro urddas a pharch wedi methu.

Rwyf wir yn croesawu eich datganiad, Weinidog, ac rwy'n croesawu'r newyddion y bydd archwiliadau urddas dirybudd yn cael eu cynnal. Dyna un o'r darnau gorau o newyddion rwyf wedi ei glywed yn y flwyddyn newydd. Dylai archwiliadau dirybudd gwmpasu cyfleusterau ymolchi a chawod, tymheredd ystafell annigonol, diffyg preifatrwydd i gleifion—fel y crybwyllwyd gan Rebecca Evans—a diffyg sylw a roddir i anghenion hylendid cleifion. Yn y gorffennol, clywais gŵyn sy'n ymwneud â chlaf yn cael ei olchi a'i sychu gyda chasys gobennydd am nad oed digon o dywelion ar gael. Ni all hynny barhau. Roedd y teulu yn yr achos hwnnw wedi'u harswydo.

Minister, people whose relatives are vulnerable will want to hear from you that, in future, the success of the health boards will not be measured solely according to whether or not they achieve their financial targets. It cannot all be about money, can it? They will need to prove that the quality of the care that they provide reaches standards that will be regularly and systematically scrutinised by, I assume, you, Minister, and by the appropriate Assembly committee. For this reason, Minister, I hope that you will seek the advice of third sector organisations regarding how best to measure performance in terms of the quality of one-to-one care. It will not be an easy task, but you and the Government have to tackle this. Minister, will you involve voluntary organisations, who do sterling work in Wales? Let us be honest: without them, Wales would close down. Do you believe that ward sisters should be given total responsibility and more powers? These are the people who are best placed to provide dignified care for elderly people.

I look forward to receiving regular updates from you, Minister, regarding the process of monitoring dignity and respect and the ways in which this is being addressed. This is a tough task and it is your responsibility. You have to carry out this task. I am not a lover of confrontational politics. In fact, I sometimes wonder why I am here. However, if you carry out this task, you should be confident that Assembly Members will stand shoulder to shoulder with you to look after the generation who looked after us.

Lesley Griffiths: Thank you for that, Lindsay Whittle, and for your questions. You asked who the partners will be. Obviously, the Welsh Government will work closely with the commissioner, who meets the chief executives of the health boards and the trust and who also works with Healthcare Inspectorate Wales. The commissioner will work with the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare, community councils and the Wales Audit Office. The chief nursing officer, who is the main person who monitors for me, will also work closely with all of those organisations.

Weinidog, bydd pobl y mae eu perthnasau yn agored i niwed am eich clywed yn dweud na fydd llwyddiant y byrddau iechyd, yn y dyfodol, yn cael ei fesur yn unig yn ôl a ydynt yn cyflawni eu targedau ariannol. Nid arian yw sail popeth, onid e? Bydd angen iddynt brofi bod ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu yn cyrraedd safonau a fydd cael eu harchwilio yn rheolaidd ac yn systematig gennych chi, rwy'n tybio, Weinidog, a chan y pwyllgor priodol yn y Cynulliad. Am y rheswm hwn, Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn gofyn am gyngor gan sefydliadau trydydd sector o ran beth yw'r ffordd orau o fesur perfformiad ansawdd gofal un i un. Ni fydd yn dasg hawdd, ond rhaid i chi a'r Llywodraeth fynd i'r afael â hyn. Weinidog, a fyddwch yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, sy'n gwneud gwaith rhagorol yng Nghymru? Gadewch i ni fod yn onest: hebddynt hwy, ni fyddai Cymru yn gweithio. A ydych yn credu y dylid rhoi cyfrifoldeb llwyr a rhagor o bwerau i brif nyrsys ward? Dyma'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal gydag urddas ar gyfer pobl oedrannus.

Edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych yn rheolaidd, Weinidog, am y broses o fonitro urddas a pharch ac am sut rydych yn mynd i'r afael â hyn. Mae hon yn dasg anodd a'ch cyfrifoldeb chi ydyw. Rhaid ichi gyflawni'r dasg hon. Nid wyf yn hoff o wleidyddiaeth ymosodol. Yn wir, weithiau rwy'n gofyn pam rwyf yma. Fodd bynnag, os ydych yn cyflawni'r dasg hon, dylech fod yn hyderus y bydd Aelodau'r Cynulliad yn sefyll ochr yn ochr â chi i ofalu am y genhedlaeth a ofalodd amdanom ni.

Lesley Griffiths: Diolch ichi am hynny, Lindsay Whittle, ac am eich cwestiynau. Gwnaethoch ofyn pwy fydd y partneriaid. Yn amlwg, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'r comisiynydd, sy'n cwrdd â phrif weithredwyr y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaeth ac sydd hefyd yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Bydd y comisiynydd yn gweithio gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, cynghorau cymuned a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y prif swyddog nyrsio, sef y prif berson sy'n monitro ar fy rhan, hefyd yn gweithio'n agos â'r holl sefydliadau hynny.

You mentioned the third sector, to which I cannot pay sufficient tribute. It has a huge role to play. I meet third sector organisations regularly and last met them just before the Christmas recess. Those organisations are very clear about the role that they can play. They are to be encouraged and we will do everything that we can to assist them in playing that role.

You may be aware of 'Free to Lead, Free to Care', which is a national nurse-led programme that focuses on improving in-patient care for all patients. It ran from 2008 to 2011 and produced several recommendations, which focused on enhancing the powers of ward sisters and charge nurses to manage their ward. They are the people who show leadership and they can affect every aspect of a patient's experience. We should not be too pessimistic. I certainly do not want to demoralise the fantastic staff that we have in the NHS. As I have said, there was some bad practice, which will not be tolerated and which is unacceptable. However, we should focus on the good practice that we have in the NHS.

Peter Black: I welcome the Minister's statement and the examples that she set out of actions being taken by various health boards around Wales to deal with this. I am encouraged that there are action plans in place to deal with the issues that were raised in the report of the commissioner for older people in Wales. Some of the report's findings were shocking, and it even used the phrase 'shamefully inadequate' to describe the treatment of some older people in hospital.

I would like first to raise a particular issue in relation to Betsi Cadwaladr University Local Health Board. There is a reference in the action plan to protected meal times and there are clearly issues relating to nutrition and monitoring nutritional values for older people in hospitals. One of the suggestions was that information about the weight of elderly people admitted to hospital should be collated so that there could be proper monitoring of nutritional standards. Is that part of protected mealtimes, or is it in the action plan that has

Rydych yn sôn am y trydydd sector—ni allaf dalu digon o deyrnged iddo. Mae ganddo rôl enfawr i'w chwarae. Rwy'n cwrdd â sefydliadau trydydd sector yn rheolaidd a chefais fy nghyfarfod diwethaf ychydig cyn toriad y Nadolig. Mae'r sefydliadau hynny yn glir iawn ynghylch y rhan y gallant ei chwarae. Rhaid inni eu hannog a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo i chwarae'r rôl honno.

Efallai eich bod yn ymwybodol o 'Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu', sef rhaglen genedlaethol sy'n cael ei arwain gan nyrsys ac sy'n canolbwyntio ar wella gofal ar gyfer pob claf mewnol. Roedd y rhaglen yn rhedeg o 2008 i 2011 a nododd nifer o argymhellion, a oedd yn canolbwyntio ar wella pŵerau prif nyrsys o ran rheoli eu ward. Y rhain yw'r bobl sy'n dangos arweiniad ac maent yn gallu effeithio ar bob agwedd o brofiad y claf. Ni ddylem fod yn rhy besimistaidd. Yn sicr, nid wyf ddim am ddigalonni'r staff gwych sydd gennym yn y GIG. Fel y dywedais, roedd rhywfaint o arfer gwael, ond ni fydd hyn yn cael ei oddef ac mae'n annerbyniol. Fodd bynnag, dylem ganolbwyntio ar yr arferion da sydd gennym yn y GIG.

Peter Black: Rwy'n croesawu datganiad y Gweinidog a'r enghreifftiau a amlinellodd o ran y camau a gymerir gan fyrddau iechyd amrywiol ledled Cymru i ymdrin â'r mater hwn. Rwyf wedi fy nghalonogi bod cynlluniau gweithredu ar waith i ddelio â'r materion a godwyd yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Roedd rhai o ganfyddiadau'r adroddiad yn frawychus, ac roedd hyd yn oed yn defnyddio'r ymadrodd 'yn warthus o annigonol' i ddisgrifio sut y caiff rhai pobl hŷn eu trin yn yr ysbyty.

Yn gyntaf, hoffwn godi mater penodol mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ceir cyfeiriad yn y cynllun gweithredu at gael amseroedd bwyd penodedig, ac yn amlwg mae problemau yn ymwneud â maeth a monitro gwerthoedd maeth ar gyfer pobl hŷn mewn ysbytai. Un o'r awgrymiadau oedd y dylid coladu gwybodaeth am bwysau pobl hŷn sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty fel y gellid monitro safonau maeth yn briodol. A yw hynny'n rhan o amseroedd bwyd penodedig, neu a

been put in place for Betsi Cadwaladr University Local Health Board?

Although there is a lot of good stuff in the statement, it strikes me that the best way of addressing the issues raised in the report is to put systems in place to deal with them. Do the action plans that have been put in place deal with systems, or do they just include a list of things that each board has to deal with? If you have systems in place, you can guarantee dignity on the ward, including continence care, and preventing the discussion of private and confidential information in public. We need a system to ensure that there is improvement in the process of discharging older people, so that it is done in a timely and effective way, and that older people who need community care have that in place on arrival at home. Those types of things need to be built into the day-to-day running of hospitals, rather than being a part of a particular action plan, because actions are sometimes dealt with, and then they slip and are allowed to lapse accordingly. Therefore, what systems are being put in place to deal with this? What steps are being taken to address the staffing level issue that was found to exist, and what better training has been given to staff treating those suffering with dementia? How are we spreading best practice across the NHS in Wales? Finally, what procedures have been put in place so that the experiences of older people and their families of the NHS can be gathered and used to drive improvements in care standards?

Lesley Griffiths: I thank the Member for those questions. In relation to protected mealtimes at Betsi Cadwaladr University Local Health Board, that is an example of best practice that I want to see rolled out across Wales. All patients are weighed when they are admitted to hospital, but protected mealtimes are important. I accept that there may be times when medical interventions are needed, but non-medical interventions should not be allowed during mealtimes. I mentioned that I want to see volunteers and relatives engaged in mealtimes as well, if that is what they want. Mealtimes, food and fluid have now been given the same level of importance as medication, which is

yw'n rhan o'r cynllun gweithredu a luniwyd ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr?

Er bod llawer o bethau da yn y datganiad, mae'n fy nharo mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad yw rhoi systemau ar waith i ymdrin â hwy. A yw'r cynlluniau gweithredu sydd wedi eu llunio yn delio â systemau, neu a ydynt dim ond yn cynnwys rhestr o bethau y mae angen i bob bwrdd ymdrin â hwy? Os oes gennych systemau yn eu lle, gallwch sicrhau urddas ar y ward, gan gynnwys gofal ymataliaeth, ac atal trafod gwybodaeth breifat a chyfrinachol yn gyhoeddus. Mae angen system i sicrhau bod y broses o ryddhau pobl hŷn yn gwella, fel ei fod yn cael ei wneud mewn modd amserol ac effeithiol, a bod gan bobl hŷn sydd angen gofal yn y gymuned y gofal hynny mewn lle ar ôl cyrraedd gartref. Rhaid cynnwys y pethau hynny yn y gwaith o redeg ysbytai o ddydd i ddydd, yn hytrach na bod yn rhan o gynllun gweithredu penodol. Weithiau, ymdrinnir â chamau gweithredu ond yna maent yn llithro ac felly yn methu. Felly, pa systemau sy'n cael eu rhoi ar waith i ymdrin â hyn? Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem ynghylch lefelau staffio a ganfuwyd, a pha hyfforddiant gwell sydd wedi cael ei roi i staff sy'n trin y rhai sydd â dementia? Sut ydym yn lledaenu arfer gorau ar draws y GIG yng Nghymru? Yn olaf, pa weithdrefnau sydd wedi cael eu rhoi ar waith fel y gellir casglu profiadau pobl hŷn a'u teuluoedd yn y GIG a'u ddefnyddio i wella safonau gofal?

Lesley Griffiths: Rwy'n diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Mewn perthynas ag amseroedd bwyd penodedig ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae hynny'n enghraifft o arfer gorau rwyf am weld yn cael ei chyflwyno ledled Cymru. Mae pob claf yn cael eu pwyso pan gânt eu derbyn i'r ysbyty, ond mae amseroedd bwyd penodedig yn bwysig. Rwy'n derbyn y gall fod adegau pan fydd angen ymyriadau meddygol, ond ni ddylid caniatáu ymyriadau nad ydynt yn feddygol yn ystod amser bwyd. Soniais fy mod am weld gwirfoddolwyr a pherthnasau yn cymryd rhan mewn prydau bwyd yn ogystal, os mai dyna eu dymuniad. Mae prydau bwyd, bwyd a hylif bellach ar yr

important. It is not just about initiatives, which take a while to bed in; it is also about systems. The minimum requirement is to ensure that all boards deliver on the 12 recommendations identified. However, the boards need to demonstrate that improvements are taking place in an older person's experience across the range of services, and that monitoring of progress is being undertaken against the action plans. We also have the annual fundamentals of care audit report.

I also mentioned feedback. I want to get more feedback from patients and their families because that is a way in which we can find out what the quality of care is. I believe that most of the feedback would be positive—my experience from visiting hospitals is that what patients want to tell me is positive.

You also mentioned training. Training is about not just expertise, but compassion, which also needs to be encompassed in this work.

un lefel o bwysigrwydd â meddyginiaeth, ac mae hyn yn bwysig. Nid mentrau yn unig sy'n bwysig, sy'n cymryd amser i'w sefydlu; mae systemau hefyd yn bwysig. Y gofyniad sylfaenol yw sicrhau bod pob bwrdd yn cyflawni ar y 12 o argymhellion a nodwyd. Fodd bynnag, mae angen i fyrddau ddangos bod profiad pobl hŷn yn gwella ar draws yr ystod o wasanaethau, a bod cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn y cynlluniau gweithredu. Mae gennym hefyd yr adroddiad blynyddol ar yr archwiliad o hanfodion gofal.

Soniais hefyd am adborth. Rwyf am gael rhagor o adborth gan gleifion a'u teuluoedd am fod hynny yn ffordd i ni gael gwybod beth yw ansawdd y gofal. Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o'r adborth yn gadarnhaol—fy mhrofiad o ymweld ag ysbytai yw bod yr hyn y mae cleifion am ei ddweud wrthyf yn gadarnhaol.

Gwnaethoch hefyd grybwyll hyfforddiant. Nid yw hyfforddiant yn ymwneud ag arbenigedd yn unig, ond mae'n ymwneud â thosturi, sydd hefyd angen cael ei gynnwys yn y gwaith hwn.

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd
Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012
Motion to approve the London Olympic Games and Paralympics Games
(Advertising and Trading) (Wales) Regulations 2012**

Cynnig NDM4880 Jane Hutt

Motion NDM4880 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2011.

Approves that the draft The London Olympic Games and Paralympic Games (Advertising and Trading) (Wales) Regulations 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 November 2011.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):
I move the motion.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigiaf y cynnig.

These draft regulations, seeking the approval of the National Assembly for Wales, are required by the London Olympic Games and

Mae'r rheoliadau drafft hyn, sy'n ceisio cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ofynnol yn ôl Deddf Gemau

Paralympic Games Act 2006. The controls introduced by the regulations are intended to uphold the host city contract made between the London organising committee and the international Olympic committee.

Football matches at the Millennium Stadium in Cardiff and at Hampden Park in Scotland join the other Olympic and Paralympic events taking place in England. A common approach has been taken across the three administrations within the respective regulations to ensure that the games have a consistent look and feel across London and the UK; to prevent ambush marketing within the vicinity of venues; and so that spectators and those participating in the games can get in and out of venues easily and safely.

I note the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which considered this draft legislation on 5 December. The host city contract does not allow for companies that are not official sponsors to create and profit from a greater association with the Games. This is dealt with by the 2006 Act. These regulations are the technical implementation of the principles set out in the contract, applying them to the local circumstances of Cardiff. In seeking to achieve the aims of the regulations, a deliberately wide definition of advertising and ambush marketing has been included within the regulations, to ensure that innovative forms of marketing do not infringe the host city contract.

3.15 p.m.

I recognise that the unique city-centre location of the Millennium Stadium, with its many access routes, makes it challenging to achieve the aims of the regulations. However, I consider that the regulations take a proportionate approach to achieving the aims, balancing the necessary restrictions with sufficient exemptions to protect the interests of residents and businesses within the designated event zone, seeking to ensure, as far as possible, business as usual.

Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006. Diben y rheolaethau a gyflwynwyd gan y rheoliadau yw cynnal contract y ddinas groesawu a wnaed rhwng pwyllgor trefnu Llundain a'r pwyllgor Olympaidd rhyngwladol.

Mae'r gemau pêl-droed yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd ac yn Hampden Park yn yr Alban yn ymuno â'r digwyddiadau Olympaidd a Pharalympaidd eraill sy'n digwydd yn Lloegr. Defnyddiwyd dull cyffredin ar draws y tair gweinyddiaeth o fewn y rheoliadau perthnasol i sicrhau bod y gemau yn edrych ac yn teimlo yn gyson ledled Llundain a'r DU; i atal marchnata rhagod yn ardal y lleoliadau; ac fel y gall gwylwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gemau fynd i mewn ac allan o'r lleoliadau yn rhwydd ac yn ddiogel.

Rwy'n nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a drafododd y ddeddfwriaeth ddrafft hon ar 5 Rhagfyr. Nid yw contract y ddinas groesawu yn caniatáu i gwmnïau nad ydynt yn noddwyr swyddogol greu a gwneud elw yn sgîl dod i gysylltiad agosach â'r Gemau. Ymdrinnir â hyn yn Neddf 2006. Y rheoliadau hyn yw'r gweithrediad technegol o'r egwyddorion a nodir yn y contract, wedi'u cymhwysu i amgylchiadau lleol Caerdydd. Wrth geisio cyflawni amcanion y rheoliadau, rhoddwyd diffiniad o hysbysebu a marchnata rhagod a oedd yn fwriadol eang yn y rheoliadau, er mwyn sicrhau nad yw dulliau arloesol o farchnata yn torri contract y ddinas groesawu.

Rwy'n cydnabod bod lleoliad unigryw Stadiwm y Mileniwm yng nghanol y ddinas, gyda'i amryw lwybrau mynediad, yn ei gwneud yn heriol i gyflawni amcanion y rheoliadau. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod y rheoliadau yn defnyddio dull cymesur i gyflawni'r nodau, gan gydbwysu cyfyngiadau angenrheidiol gyda digon o eithriadau i ddiogelu buddiannau trigolion a busnesau o fewn parth dynodedig y digwyddiad, a chan geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod pethau'n mynd yn eu blaen fel arfer.

I commend these regulations to the National Assembly.

Mohammad Asghar: I am pleased to support the approval of these regulations. It is imperative that a balance is struck between enabling businesses within event zones to trade with minimal disruption and to meet the host city contract set by the International Olympic Committee. Given the magnitude of the Games, without these regulations, arguably, unmanageable levels of commercial activity would buckle in close proximity to Games venues. This could place the safety of spectators in jeopardy. Regulations for England, Scotland and Wales have a common theme, to give the Games a consistent look and feel, to prevent ambush marketing and to ensure that spectators can enter and exit venues safely. The regulation will apply in Cardiff in three blocks for a total of 13 days. Leading up to this, it is crucial that the Welsh Government works proactively with Olympic bodies and the UK Government to ensure that awareness of these regulations is raised.

Simon Thomas: During the next couple of minutes I hope to persuade other Members to vote against this dismal piece of law making and to show a bit of backbone in negotiations with the Olympic Delivery Authority and with the Government in Westminster. It is a great shame that one of the first pieces of law that we are making here since the referendum is one that protects the corporate interests of Coca-Cola and McDonald's and does nothing to address the opportunities for Welsh businesses around the marketing of the Olympic events in Wales.

There are two fundamental objections to this legislation. First and foremost, it is a sledge hammer to crack a nut. The reversal of the burden of proof in these regulations, as the Constitutional and Legislative Affairs Committee has noted, is unnecessary and breaks the fundamental tenets of human rights, as recognised by UK Government Ministers who have said that these regulations could be said to interfere with the right to be presumed innocent, affirmed by

Cymeradwyaf y rheoliadau hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mohammad Asghar: Rwyf yn falch o gefnogi'r gymeradwyaeth o'r rheoliadau hyn. Mae'n hanfodol taro cydbwysedd rhwng galluogi busnesau o fewn y parthau digwyddiad i fasnachu gyda'r amhariad lleiaf posibl a bodloni contract y ddinas groesawu a osodwyd gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol. O ystyried maint y Gemau, heb y rheoliadau hyn, gellid dadlau y byddai lefelau na ellir eu rheoli o weithgarwch masnachol yn digwydd yn agos at leoliadau'r Gemau. Gallai hyn beryglu diogelwch y gwylwyr. Mae thema gyffredin i'r rheoliadau ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru, sef rhoi cysondeb o ran gwedd a naws, atal marchnata rhagod a sicrhau y gall gwylwyr fynd i mewn ac allan o leoliadau yn ddiogel. Bydd y rheoliadau yn berthnasol yng Nghaerdydd mewn tri bloc am gyfanswm o 13 diwrnod. Yn arwain at y digwyddiadau, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rhagweithiol â'r cyrff Olympaidd a Llywodraeth y DU i godi ymwybyddiaeth o'r rheoliadau hyn.

Simon Thomas: Yn ystod yr ychydig funudau nesaf rwy'n gobeithio darbwyllo Aelodau eraill i bleidleisio yn erbyn y darn sâl hwn o ddeddfwriaeth ac i ddangos ychydig o asgwrn cefn yn y trafodaethau ag Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd a'r Llywodraeth yn San Steffan. Mae'n drueni mawr fod un o'r darnau cyntaf o gyfraith rydym yn eu pasio yma ers y refferendwm yn un sy'n gwarchod buddiannau corfforaethol Coca-Cola a McDonald's ac yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r cyfleoedd i fusnesau Cymru mewn perthynas â marchnata digwyddiadau'r Gemau Olympaidd yng Nghymru.

Mae dau wrthwynebiad sylfaenol i'r ddeddfwriaeth hon. Yn bennaf, maent yn llawdrwm iawn. Mae gwrthdroi'r baich profi yn y rheoliadau hyn, fel mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi ei nodi, yn ddiangen ac yn torri egwyddorion sylfaenol hawliau dynol, fel y cydnabuwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU sydd wedi dweud y gallai'r rheoliadau hyn ymyrryd â'r hawl i ragdybiaeth o fod yn ddieuog, fel y mae Erthygl 6(2) o'r

Article 6(2) of the European Convention on Human Rights. This is the truth. We are breaking the way that regulations should be made by a new law-making parliament, which is to put the burden of proof on people first and foremost, and not to reverse that burden of proof, and assume that people are guilty before we have examined their case. That is the first reason for objecting to these regulations.

The second reason for objecting to these regulations is by asking what they are trying to achieve. The purpose of the legislation is to protect the pockets of the biggest and strongest and to crack down on the weakest. The weakest people in Cardiff are those who are scraping a living off the streets, quite literally sometimes—the street traders, or the people who will paint a little Welsh sticker or the Olympic flag, or whatever it might be, on your face as you go into an event. They will be excommunicated from Cardiff city centre and, what is more, the police will have direct powers to move them on under these regulations. We are going against the tenet of the free exercise of community life in Cardiff in and around the celebration of the Olympic Games. The Government's own cost assessment says that street traders who are already there will lose £25,000 because of these regulations, and we are allowing an agreement made directly between the Olympic authorities and London—an agreement in which the Welsh Assembly Government in 2004 played no part—to dictate the legislation that we are passing here. That is not good enough, and we should not allow it. As it happens, the Olympic Games started as a voluntary activity in modern times in Shropshire, just over the border. Since then, the Olympics have been tarnished by corruption, big business and drugs; and now, we have a £10 billion Olympics for which Wales has had a £9 million return so far. We do not even have the opportunity to market our businesses, our culture and our nation on the back of Olympic events happening in Cardiff.

It is a great shame that the Government has not negotiated a better deal for the Olympics in a financial sense, in respect of public

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gadarnhau. Dyma yw'r gwir. Rydym yn torri'r ffordd y dylai rheoliadau gael eu gwneud gan senedd ddeddfu newydd, sef rhoi'r baich profi ar bobl yn gyntaf oll, yn hytrach na gwrthdroi'r baich profi hwnnw a thybio bod pobl yn euog cyn inni archwilio eu hachos. Dyna'r rheswm cyntaf dros wrthwynebu'r rheoliadau hyn.

Yr ail reswm dros wrthwynebu'r rheoliadau hyn yw drwy ofyn beth maent yn ceisio ei gyflawni. Diben y ddeddfwriaeth yw gwarchod pocedi'r bobl fwyaf a chryfaf a sathru ar y gwannaf. Y bobl wannaf yng Nghaerdydd yw'r rheini sy'n crafu bywoliaeth oddi ar y stryd, yn llythrennol weithiau—y masnachwyr stryd, neu'r bobl a fydd yn paentio sticer Cymru neu'r faner Olympaidd, efallai, ar eich wyneb wrth i chi fynd i mewn i ddigwyddiad. Byddant yn cael eu hesgymuno o ganol dinas Caerdydd ac, yn waeth byth, bydd gan yr heddlu bwerau uniongyrchol i'w symud ymlaen o dan y rheoliadau hyn. Rydym yn mynd yn erbyn yr egwyddor o'r rhyddid i ymarfer bywyd cymunedol yng Nghaerdydd fel rhan o ddatliad y Gemau Olympaidd. Mae asesiad cost y Llywodraeth ei hun yn dweud y bydd y masnachwyr stryd sydd eisoes yno yn colli £25,000 oherwydd y rheoliadau hyn, ac rydym yn caniatáu i gytundeb a wnaed yn uniongyrchol rhwng yr awdurdodau Olympaidd a Llundain—cytundeb nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan ohono yn 2004—i bennu'r ddeddfwriaeth rydym yn ei phasio yma. Nid yw hynny'n ddigon da, ac ni ddylem ei ganiatáu. Fel mae'n digwydd, dechreuodd y Gemau Olympaidd fel gweithgaredd gwirfoddol yn y cyfnod modern yn Swydd Amwythig, ychydig dros y ffin. Ers hynny, mae'r Gemau Olympaidd wedi cael eu pardduo gan lygredd, busnesau mawr a chyffuriau, ac erbyn hyn, mae gennym Gemau Olympaidd gwerth £10 biliwn y mae Cymru ond wedi cael £9 miliwn ohono hyd yn hyn. Nid ydym hyd yn oed yn cael y cyfle i farchnata ein busnesau, ein diwylliant a'n cenedl ar gefn y digwyddiadau Olympaidd yng Nghaerdydd.

Mae'n drueni mawr nad yw'r Llywodraeth wedi sicrhau gwell bargaen ar gyfer y Gemau Olympaidd, o ran y trefniant ariannol, o ran

sector money, and with regard to these regulations. I very much regret that we are passing regulations that, in particular, reverse the burden of proof. When the Olympics come, we in Plaid Cymru will be 100 per cent behind our athletes and those trying to win medals for the UK and Wales. However, I hope that our athletes do a better job than our Government has on these regulations.

Eluned Parrott: I would like to welcome the fact that Cardiff will be a host city for the 2012 Olympics. The city has a fantastic record of hosting very successful sporting events without the need for such overburdensome regulations as those before us today. As well as practical arrangements, I know that event organisers often cite things like the atmosphere and the warmth of welcome received in Cardiff. These organisers trust Wales and Cardiff to deliver for them. I put on record my thanks to Cardiff Council and the Wales major events team for their record of success. I look forward to seeing the Olympics come to our nation's capital and to seeing that also being a major success for Wales.

However, I want to put on record specific reservations about the details of these regulations as they apply to Cardiff. One of these is concern over the size of the exclusion zone. In the context of Wembley, the Olympic village or Sydney, 500m does not constitute a major impact on a city centre. In Cardiff, however, the exclusion zone encompasses a number of retail premises and a huge number of hostels that are used to trading extremely well during major sporting events. We need to ensure that these businesses are clear about what they can and cannot do as part of the Olympics, as well as how they can operate to their best advantage and to the credit of Cardiff.

There are also concerns over human rights, the presumption of guilt and the need for those accused of breaching these regulations to prove their innocence. This overturns everything that we understand of justice, and

arian y sector cyhoeddus, ac o ran y rheoliadau hyn. Gresynaf yn fawr ein bod yn pasio rheoliadau sydd, yn benodol, yn gwrthdroi'r baich profi. Pan ddaw'r Gemau Olympaidd, byddwn ni ym Mhlaid Cymru 100 y cant tu ôl i'n hathletwyr a'r rheini sy'n ceisio ennill medalau dros y DU a Chymru. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y bydd ein hathletwyr yn cael gwell hwyl arni na chafodd y Llywodraeth gyda'r rheoliadau hyn.

Eluned Parrott: Hoffwn groesawu'r ffaith y bydd Caerdydd yn ddinas groesawu ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. Mae gan y ddinas record wych o gynnal digwyddiadau chwaraeon yn llwyddiannus heb yr angen am reoliadau gor-feichus fel y rhai sydd ger ein bron heddiw. Yn ogystal â'r trefniadau ymarferol, rwy'n gwybod bod trefnwyr digwyddiadau yn aml yn crybwyll ffactorau fel yr awyrgylch a'r croeso cynnes a dderbyniwyd yng Nghaerdydd. Mae'r trefnwyr hyn yn ymddiried yng Nghymru a Chaerdydd i ddarparu ar eu cyfer. Hoffwn gofnodi fy niolch i Gyngor Caerdydd a thîm digwyddiadau mawr Cymru am eu record llwyddiannus. Rwy'n edrych ymlaen at weld y Gemau Olympaidd yn dod i brifddinas ein cenedl ac at weld hynny fel llwyddiant mawr i Gymru hefyd.

Fodd bynnag, rwyf am gofnodi amheuan penodol am fanylion y rheoliadau hyn a'r modd y maent yn gymwys i Gaerdydd. Un o'r rhain yw pryder ynghylch maint y parth gwahardd. Yng nghyd-destun Wembley, y pentref Olympaidd neu Sydney, nid yw 500m yn golygu fawr o effaith ar ganol y ddinas. Yng Nghaerdydd, fodd bynnag, mae'r parth gwahardd yn cwmpasu nifer o safleoedd manwerthu a nifer fawr o dafarndai sydd wedi arfer gwneud busnes da yn ystod digwyddiadau chwaraeon mawr. Mae angen i ni sicrhau bod y busnesau hyn yn glir ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei wneud fel rhan o'r Gemau Olympaidd, yn ogystal â sut y gallant fanteisio i'r eithaf er eu budd eu hunain ac er budd Caerdydd.

Mae pryderon hefyd dros hawliau dynol, y rhagdybiaeth o euogrwydd a'r angen i'r rhai sy'n cael eu cyhuddo o dorri'r rheoliadau hyn brofi eu bod yn ddieuog. Mae hyn yn gwyrdroi ein dealltwriaeth o gyfiawnder, ac

it is overbearing. Of course, we recognise the reasons why major event organisers need to protect their sponsors, who provide the funding that enables events to take place. However, that does not mean that we should bow down to them and offer them everything on a plate, damaging our own indigenous companies—based in Cardiff and other parts of Wales—so that we can protect the interests of others that will only come here for 13 days in the course of a decade. I object to this piece of legislation on the basis that it is overbearing and sets a poor precedent for the future. We cannot support it today without two assurances: first, that these regulations are policed with a light touch, so that common sense prevails and so that local traders can trade without fear of prosecution and having to prove their innocence; and secondly, that this piece of legislation is never used as a model for future major events that come to our great city.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):

I recognise that there are mixed views among Members regarding these regulations. There was a general welcome for these events coming to Cardiff. Obviously, they will bring very substantial benefits. The restrictions are designed to ensure that necessary sponsorship is forthcoming, as it plays a significant role in bringing the Olympic Games to the UK and these events to Cardiff. It is clear that, without that level of protection, the sponsorship that has played a large part in financing the Games. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Are you making an intervention? I see that you are. Perhaps you would like to stand up rather than shout from your seat. Minister, will you take an intervention?

John Griffiths: Certainly.

Simon Thomas: The Minister is claiming that the corporations are paying for the Olympics. It is £10 billion of public money that is paying for the Olympics.

John Griffiths: No, I was saying that that

mae'n ormesol. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod y rhesymau pam bod trefnwyr digwyddiadau mawr angen diogelu eu noddwyr, sy'n darparu'r cyllid sy'n galluogi'r digwyddiadau i ddigwydd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylem foesymgrymu a chynnig popeth ar blât iddynt, gan niweidio ein cwmnïau cynhenid—sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a rhannau eraill o Gymru—fel y gallwn ddiogelu buddiannau eraill a fydd yn dod yma am 13 diwrnod yn unig. Rwy'n gwrthwynebu'r darn hwn o ddeddfwriaeth ar y sail ei fod yn ormesol ac yn gosod cynsail gwael ar gyfer y dyfodol. Ni allwn ei gefnogi heddiw heb ddau sicrwydd: yn gyntaf, bod y rheoliadau yn cael eu plismona'n ysgafn, fel bod synnwyr cyffredin yn bodoli ac fel y gall masnachwyr lleol fasnachu heb ofni erlyniad na'r rheidrydd i brofi eu bod yn ddieuog; ac yn ail, nad yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth byth yn cael ei ddefnyddio fel model ar gyfer digwyddiadau mawr yn y dyfodol sy'n dod i'n dinas wych.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):

Rwy'n cydnabod bod yna farn gymysg ymhlith Aelodau ynghylch y rheoliadau hyn. Cafwyd croeso cyffredinol ar gyfer gweld y digwyddiadau hyn yn dod i Gaerdydd. Yn amlwg, byddant yn dod â manteision sylweddol iawn. Mae'r cyfyngiadau wedi'u cynllunio i sicrhau'r nawdd angenrheidiol, gan ei fod yn chwarae rhan sylweddol wrth ddenu'r Gemau Olympaidd i'r DU a'r digwyddiadau hyn i Gaerdydd. Mae'n amlwg, heb y lefel honno o ddiogelwch, fod y nawdd sydd wedi chwarae rhan fawr yn ariannu'r Gemau. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn gwneud ymyriad? Gwelaf eich bod. Efallai yr hoffech sefyll i fyny yn hytrach na gweiddi o'ch sedd. Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

John Griffiths: Yn sicr.

Simon Thomas: Mae'r Gweinidog yn honni mai'r corfforaethau sy'n talu am y Gemau Olympaidd. Y £10 biliwn o arian cyhoeddus sy'n talu am y Gemau Olympaidd.

John Griffiths: Na, dweud oeddwn i fod

sponsorship plays a significant role in enabling the Games to take place and, by extension, these events to come to Cardiff. I think that that is quite widely accepted.

Eluned Parrott: On the subject of sponsors, regulations of this nature were not required for hosting the Rugby World Cup and for other large-scale events in Cardiff. I wonder why they are necessary for this event. Can you give me an assurance that they will not be required for events in future just in order to pander to sponsors?

John Griffiths: I cannot give the Member that assurance; it would not be within my power to do so. However, I can say that a specific set of circumstances apply to the Olympic Games. Negotiations took place between the UK Government, the International Olympic Committee and others and, of course, a contract was arrived at. Obviously, that is specific to these Olympic Games, and other major events would be subject to different processes.

Notwithstanding Members' concerns, I believe that these regulations are proportionate, strike the right balance and implement the negotiated host city contract, implementing it here in Wales. Obviously, specific concerns have been raised. The 500m restriction has been a concern to many, for example. We have to bear in mind, as far as that is concerned, that we are talking about 13 days. Indeed, there was a collaborative consultation to arrive at that restriction and the process around it, and we must recognise that there were opportunities for views to be expressed. If Members look at the views that were expressed, they do not bear out the concerns that have been raised today.

A number of Members have raised as an issue the reversal of the burden of proof. Contrary to the impression that some Members might have given the Chamber, this reversal of the burden of proof is, in fact, in line with existing advertising and trading legislation and regulations. It is by no means unprecedented. Of course, there are legal issues involved and various views on this, but we can say that a prosecutor would be

nawdd yn chwarae rhan sylweddol wrth alluogi'r Gemau i ddigwydd a, thrwy hynny, alluogi'r digwyddiadau hyn i ddod i Gaerdydd. Credaf fod pobl yn derbyn hynny'n gyffredinol.

Eluned Parrott: Ar fater y noddwyr, nid oedd angen rheoliadau o'r fath pan gynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd na digwyddiadau mawr eraill yng Nghaerdydd. Tybed pam eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y digwyddiad hwn. Allwch chi roi sicrwydd na fyddant yn ofynnol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, er mwyn plesio noddwyr yn unig?

John Griffiths: Ni allaf roi'r sicrwydd hwnnw gan nad oes gen i'r pŵer i wneud hynny. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod cyfres benodol o amgylchiadau yn gymwys i'r Gemau Olympaidd. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU, y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol ac eraill ac, wrth gwrs, lluniwyd contract yn sgîl hynny. Yn amlwg, mae hwnnw'n benodol ar gyfer y Gemau Olympaidd, a byddai disgwyl i ddigwyddiadau mawr eraill fod yn destun prosesau gwahanol.

Er gwaethaf pryderon yr Aelodau, credaf fod y rheoliadau hyn yn gymesur, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir ac yn gweithredu contract y ddinas groesawu, a'i roi ar waith yma yng Nghymru. Yn amlwg, mynegwyd pryderon penodol. Mae'r cyfyngiad 500m wedi bod yn bryder i lawer, er enghraifft. Mae'n rhaid i ni gofio, cyn belled â bod hynny yn y cwestiwn, ein bod yn siarad am 13 diwrnod. Yn wir, cafwyd ymgynghoriad ar y cyd cyn cytuno ar y cyfyngiad hwnnw a'r broses o'i amgylch, a rhaid inni gydnabod y cafwyd cyfleoedd i fynegi barn. Os bydd Aelodau'n edrych ar y farn a fynegwyd, nid ydynt yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd heddiw.

Mae nifer o Aelodau wedi codi'r mater o wrthdroi'r baich profi. Yn groes i'r argraff y gallai rhai Aelodau fod wedi ei rhoi i'r Siambr, mae gwrthdroi'r baich profi, mewn gwirionedd, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol ar hysbysebu a masnachu. Mae'n bell o fod yn ddigynsail. Wrth gwrs, mae materion cyfreithiol o dan sylw yma, a barn amrywiol arnynt, ond gallwn ddweud y byddai'n rhaid i erlynydd

required to prove beyond reasonable doubt that an offence had been committed. Only if that were established would an accused person have to prove the defence on the balance of probabilities. That procedure is very much consistent with the existing advertising and trading legislation and other regulatory offences. Indeed, in its fifteenth report, the Joint Committee on Human Rights dealt with these matters and thought that the clause was compatible with the presumption of innocence in the European Convention on Human Rights. Therefore, in that context, I think that I can provide Members with some reassurance that we have considered all of these issues.

Before closing, I should say that we believe that a light touch is appropriate with regard to enforcement, and I know that local authority enforcement officers in Wales will be taking that approach. I commend these regulations to the National Assembly.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.29 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.29 p.m.*

Setliad Llywodraeth Leol The Local Government Settlement

Cynnig NDM4881 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2012-2013 (Setliad Terfynol – Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2011.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move the motion.

I am pleased to present to the Assembly for

brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol fod trosedd wedi ei chyflawni. Dim ond pe byddai hynny wedi'i gadarnhau y byddai rhaid i'r cyhuddedig brofi'r amddiffyniad yn ôl pwysau tebygolrwydd. Mae'r weithdrefn honno'n gyson â'r ddeddfwriaeth hysbysebu a masnachu bresennol a throeddau rheoleiddiol eraill. Yn wir, yn ei bymthegfed adroddiad, aeth y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol i'r afael â'r materion hyn gan ddod i'r casgliad bod y cymal yn gydnaws â'r rhagdybiaeth o fod yn ddieuog yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n credu y gallaf roi tipyn o sicrwydd i Aelodau ein bod wedi ystyried yr holl faterion hyn.

Cyn cloi, dylwn ddweud ein bod yn credu na ddylid bod yn llawdrwm wrth orfodi, ac rwy'n gwybod y bydd swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud yr un peth. Cymeradwyaf y rheoliadau hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, caiff y bleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

Motion NDM4881 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2012-2013 (Final Settlement - Councils), which was laid in the Table Office on 9th December 2011.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau y cynnig.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i'r Cynulliad

its approval next year's local government settlement for the 22 unitary authorities in Wales. The settlement confirms the uplift in funding for 2012-13 that I announced in last year's settlement as part of a three-year proposal. While we should be under no illusions that this is a challenging settlement, the Welsh Local Government Association recognises that this is as good an outcome as local government could have expected. At a time of cutbacks, this settlement represents an increase to local government funding for 2012-13 at an average of 0.02% in cash terms.

3.30 p.m.

Over the four-year spending review period, local government in Wales can expect an overall increase in funding of around 0.07%. That is significantly better than in England, where, on a like-for-like basis, funding is set to decrease by 0.06%. It reaffirms this Government's commitment to prioritise support for the vital services delivered by local authorities in Wales, such as education, social services and social care. Our commitment to protecting funding for schools and social care over the four years means that we are making available an additional £80 million for schools and £35 million for social services.

The details on specific grants that I provide to local authorities with the settlement announcement show that local authorities will also receive the necessary funding to support projects key to the support and future of Wales, such as Supporting People and the foundation phase. I expect local authorities to continue to build on their efforts to forge greater partnerships, working across authorities, and greater collaboration across the public sector, in order to find better ways of delivering more with less. That has to be taken forward through the public service leadership group and the local service boards. My proposed reforms for the partnership council will also ensure that Welsh Government and local government continue to work effectively in partnership to improve public services in Wales.

i'w gymeradwyo setliad llywodraeth leol flwyddyn nesaf ar gyfer y 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Mae'r setliad yn cadarnhau'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer 2012-13 a gyhoeddais yn setliad y llynedd fel rhan o gynnig dros dair blynedd. Er na ddylem gael unrhyw gamargraff nad yw hwn yn setliad heriol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod mai hwn yw'r canlyniad gorau y gallai llywodraeth leol fod wedi'i ddisgwyl. Ar adeg o doriadau, mae'r setliad hwn yn cynrychioli cynnydd o 0.02% ar gyfartaledd mewn termau arian parod ar gyfer 2012-13.

Yn ystod y cyfnod adolygu gwariant o bedair blynedd, gall llywodraeth leol yng Nghymru ddisgwyl cynnydd cyffredinol mewn cyllid o tua 0.07%. Mae hynny gryn dipyn yn well na'r cynnydd yn Lloegr, lle, ar sail tebyg am debyg, mae disgwyl i'r cyllid ostwng 0.06%. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth hon i flaenoriaethu'r arian ar gyfer y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol dros y pedair blynedd yn golygu ein bod yn darparu £80 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion a £35 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r manylion ar grantiau penodol rwyf yn eu rhoi i awdurdodau lleol gyda'r cyhoeddiad ar y setliad yn dangos y bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael y cyllid angenrheidiol i gefnogi prosiectau sy'n allweddol i gefnogi Cymru a'i dyfodol, fel Cefnogi Pobl a'r cyfnod sylfaen. Rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i ddatblygu eu hymdrechion i greu mwy o bartneriaethau, gan weithio ar draws awdurdodau, ac i sicrhau mwy o gydweithredu ar draws y sector cyhoeddus, er mwyn dod o hyd i ffyrdd gwell o gyflawni mwy gyda llai o arian. Mae'n rhaid datblygu hynny drwy'r grŵp arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus a'r byrddau gwasanaethau lleol. Bydd fy niwygiadau arfaethedig ar gyfer y cyngor partneriaeth hefyd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn parhau i weithio'n effeithiol mewn

partneriaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

I am also pleased to remind Members that 'A Compact for Change' was agreed in the partnership council meeting last month, demonstrating the commitment of local government to our agenda of making services better and more efficient. I will make more detailed announcements on 'A Compact for Change' on 24 January. It is no secret that the future outlook for capital funding is challenging, but the Welsh Government has sought to shield the Welsh local authorities from the cuts imposed on the Welsh block. Consequently, this has enabled authorities in Wales to increase their borrowing, offsetting unavoidable reductions in capital grant, and, as a result, this year, planned local authority capital expenditure in Wales is just under £1 billion, almost 6% higher than in 2010-11. In contrast, local authorities in England are reducing their capital spend by around 12%.

Rwyf hefyd yn falch o atgoffa Aelodau y cytunwyd ar y 'Compact ar gyfer Newid' yng nghyfarfod y cyngor partneriaeth y mis diwethaf, sy'n dangos ymrwymiad llywodraeth leol i'n hagenda i wella gwasanaethau ac i'w gwneud yn fwy effeithlon. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau mwy manwl ar y 'Compact ar gyfer Newid' ar 24 Ionawr. Nid yw'n gyfrinach bod y rhagolygon ar gyfer y dyfodol ar gyfer cyllid cyfalaf yn heriol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwarchod awdurdodau lleol Cymru rhag y toriadau i'r bloc Cymreig. O ganlyniad, mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gynyddu eu benthyciadau, gan wrthbwyso gostyngiadau na ellir eu hosgoi yn y grant cyfalaf, ac, o ganlyniad, y flwyddyn hon, mae'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ychydig yn llai na £1 biliwn, sydd bron i 6% yn uwch na'r swm yn 2010-11. Ar y llaw arall, mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn lleihau eu gwariant cyfalaf tua 12%.

Maintaining our capacity to invest is vital, not just to improve services, but to provide a wider economic stimulus at a time when we need it most. That is why we are working closely with local government to develop an initiative to boost borrowing over the next few years. The intention is to provide local government with additional revenue funding to enable it to fund borrowing over and above current plans. The revenue that we will provide will help local authorities to borrow up to £170 million to fund much-needed local highway improvement schemes in all parts of Wales. It is also vital that all public bodies exploit their existing asset base to maximise benefits through, for example, shared facility arrangements where appropriate. They must also seek opportunities to share facilities with other public sector and voluntary partners. That makes financial sense and can often lead to more comprehensive and holistic service provision for the public. It is now for local authorities to set their budgets for 2012-13. Average council tax levels in Wales remain around 20% lower than those in England due to the higher proportion of support that the Welsh Government provides towards local

Mae cynnal ein gallu i fuddsoddi yn hanfodol, nid yn unig er mwyn gwella gwasanaethau, ond er mwyn darparu ysgogiad economaidd ehangach ar adeg pan rydym ei angen fwyaf. Dyna pam rydym yn gweithio'n agos â llywodraeth leol i ddatblygu cynllun i roi hwb i fenthyca dros y blynyddoedd nesaf. Y bwriad yw rhoi cyllid refeniw ychwanegol i lywodraeth leol er mwyn ei alluogi i gyllido benthyciadau y tu hwnt i'r cynlluniau presennol. Bydd y refeniw y byddwn yn ei roi yn helpu awdurdodau lleol i fenthyg hyd at £170 miliwn i ariannu cynlluniau gwella priffyrdd lleol, y mae angen mawr amdanynt, ym mhob rhan o Gymru. Mae hefyd yn hanfodol bod yr holl gyrff cyhoeddus yn manteisio ar eu sylfaen asedau presennol i wneud y defnydd gorau o fudd-daliadau drwy, er enghraifft, drefniadau i rannu cyfleusterau lle bo hynny'n briodol. Rhaid iddynt hefyd geisio cyfleoedd i rannu cyfleusterau gyda phartneriaid sector cyhoeddus a gwirfoddol eraill. Mae hynny'n gwneud synnwyr yn ariannol ac yn aml gall arwain at ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a chyffannol i'r cyhoedd. Mae'n amser bellach i

government spending in Wales. I have made it very clear that I am prepared to use my capping powers should the need arise. However, from my discussions with local government, I am confident that local authorities in Wales will continue to act responsibly in setting their council tax for the next year.

I believe that this is a fair and realistic settlement for local government, achieved in very difficult circumstances. It underlines our commitment to maintaining public services for the needy and vulnerable, and to continuing to invest in local government in the face of reductions elsewhere. I commend this settlement to the Assembly.

Janet Finch-Saunders: At the start, I would like to put on record my congratulations, as shadow Minister for local government, to Mark James, chief executive of Carmarthenshire council, who has been appointed a Citizen of the British Empire, and to Hugh Evans, the leader of Denbighshire council, and Kefin Wakefield, the former head of economic development at Pembrokeshire council, who have both been awarded an Order of the British Empire for their services to Welsh local government. We, as Members, should be grateful to them for all their efforts in local government.

Minister, thank you for bringing this settlement forward. I am pleased to take part in this important debate today. However, we cannot support the motion as the settlement is unimaginative, not innovative at all, and certainly does not maximise the use of our limited funds.

We all know that local government is important to bringing democracy to the heart of our communities and, as such, certainly deserves the necessary resources. I would like to make several points today. We know and acknowledge that this is a challenging

awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau ar gyfer 2012-13. Mae lefelau cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru yn parhau i fod tua 20% yn is na'r rhai yn Lloegr oherwydd y gyfran uwch o arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar gyfer gwariant llywodraeth leol yng Nghymru. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn fy mod yn barod i ddefnyddio fy mhwerau capio pe bai'r angen yn codi. Fodd bynnag, ar sail fy nhrafodaethau â llywodraeth leol, rwyf yn hyderus y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i ymddwyn yn gyfrifol wrth osod y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Credaf fod hwn yn setliad teg a realistig ar gyfer llywodraeth leol, a gyflawnwyd o dan amgylchiadau anodd iawn. Mae'n pwysleisio ein hymrwymiad i gynnal gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr anghenus a'r rheini sy'n agored i niwed, ac i barhau i fuddsoddi mewn llywodraeth leol yn wyneb gostyngiadau mewn manau eraill. Cymeradwyaf y setliad hwn i'r Cynulliad.

Janet Finch-Saunders: I ddechrau, hoffwn gofnodi'r ffaith fy mod, fel Gweinidog llywodraeth leol yr wrthblaid, yn llongyfarch Mark James, prif weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin, a benodwyd yn Ddinesydd yr Ymerodraeth Brydeinig, a Hugh Evans, arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, a Kefin Wakefield, cyn-bennaeth datblygu economaidd cyngor Sir Penfro, sydd ill dau wedi cael Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig am eu gwasanaethau i lywodraeth leol Cymru. Dylem ni, fel Aelodau, fod yn ddiolchgar iddynt am eu holl ymdrechion mewn llywodraeth leol.

Weinidog, diolch i chi am gyflwyno'r setliad hwn. Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Fodd bynnag, ni allwn gefnogi'r cynnig gan fod y setliad yn ddiddychymyg, nid yw'n arloesol o gwbl, ac yn sicr nid yw'n gwneud y defnydd gorau o'n cronfeydd cyfyngedig.

Gŵyr pawb fod llywodraeth leol yn bwysig o ran sicrhau bod democratiaeth yn ganolog i'n cymunedau ac, o'r herwydd, yn sicr mae'n haeddu cael yr adnoddau angenrheidiol. Hoffwn wneud sawl pwynt heddiw. Rydym yn gwybod ac yn cydnabod bod hwn yn

settlement for local authorities in Wales. However, in real terms, there is a cut of 5.15% from 2011-12 to 2013-14. Local authorities are responsible for some of the most fundamental and important services that are made available to the people of Wales. Therefore, they need, and must have, the resources to deliver these services. That becomes increasingly difficult when local authorities have less money to pay for more provision, such as subsidies for non-residential social services and the strategy for older people. The £10 million allocated for the first steps improvement package will ease some of this pressure, but there is no denying that local authorities will be feeling the squeeze, especially those at a demographic disadvantage. I have raised this before, and I am glad that it is our Government that is looking at the funding settlement from the UK to Wales, yet this Welsh Labour Government is continuing with the existing local government funding formula. That is why I reckon that this is not innovative, imaginative nor in the best interests of Wales or of our local authorities. The £10 million allocated for the first steps improvement package will ease some of this pressure, but there is no denying that local authorities will be very disadvantaged by this.

With regard to the 58 notional service areas covered by the local government settlement, while I support the continued heavy weighting towards our younger population, there is not enough focus on those aged over 65. Changing demographics in Wales mean that we are seeing increases in dementia and other age-related illnesses, and these, as any local authority will tell you, require expensive care packages. While provision is made in the settlement for those aged over 85, there is a large population of people aged over 65 who are inadequately accounted for in this settlement. I am disappointed in this unrepresentative skewing of the distribution of resources, which leads on to my second point, which is the uneven recognition in non-hypothecated funding of demographic need.

The revenue support grant takes into account the demographics of the populations for which local authorities are responsible, but

setliad heriol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn termau real, mae toriad o 5.1% rhwng 2011-12 a 2013-14. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am rai o'r gwasanaethau mwyaf sylfaenol a phwysig sydd ar gael i bobl Cymru. Felly, mae angen, yr adnoddau hyn arnynt i ddarparu'r gwasanaethau hyn, ac mae'n rhaid iddynt eu cael. Daw hynny'n fwyfwy anodd pan fydd gan awdurdodau lleol lai o arian i dalu am fwy o ddarpariaeth, fel cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl a'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Bydd y £10 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y pecyn gwella camau cyntaf yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau hwn, ond ni ellir gwadu y bydd awdurdodau lleol yn teimlo'r wasgfa, yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais ddemograffig. Rwyf wedi codi hyn o'r blaen, ac rwyf yn falch mai ein Llywodraeth ni sy'n edrych ar y setliad cyllid gan y DU i Gymru, ond eto mae'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru yn parhau â'r fformiwla bresennol ar gyfer ariannu llywodraeth leol. Dyna pam y credaf nad yw hyn yn arloesol, yn llawn dychymyg nac o'r budd gorau i Gymru a'n hawdurdodau lleol. Bydd y £10 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y pecyn gwella camau cyntaf yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau hwn, ond ni ellir gwadu y bydd awdurdodau lleol o dan anfantais fawr oherwydd hyn.

O ran y 58 o feysydd gwasanaeth tybiannol a gwmpesir gan y setliad llywodraeth leol, er fy mod yn cefnogi'r pwysiad trwm parhaus tuag at ein poblogaeth iau, nid oes digon o ffocws ar bobl dros 65 oed. Mae'r ddemograffeg newidiol yng Nghymru yn golygu ein bod yn gweld cynnydd mewn dementia ac mewn salwch arall sy'n gysylltiedig ag oed, ac mae angen pecynnau gofal drud ar y rhain, fel y byddai unrhyw awdurdod lleol yn eich hysbysu. Er bod darpariaeth yn y setliad ar gyfer pobl dros 85 oed, mae poblogaeth fawr o bobl dros 65 oed na roddir ystyriaeth ddigonol iddynt yn y setliad hwn. Rwyf yn siomedig o weld y gogwyddiad anghynrychioliadol hwn yn nosbarthiad yr adnoddau, sy'n arwain at fy ail bwynt, sef y gydnabyddiaeth anwastad o angen demograffig mewn arian heb ei ddyrannu.

Mae'r grant cynnal refeniw yn ystyried demograffeg y poblogaethau y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt, ond

the redistribution of national non-domestic rates does not. For that reason, I do not believe that the standard spending assessment is representative of every authority in Wales. The redistribution of NNDR pro rata to adult population means that 20% of the SSA ignores many important factors, such as our rural land mass and our proportion of people aged over 65, both factors that need recognising in a local authority needs-based funding formula. When the NNDR accounts for over £890 million of the SSA, we cannot ignore these facts.

Thirdly, in these times of austerity, we must take a serious look at the tens of millions of pounds that are wasted in local government in Wales on unnecessary bureaucracy and complicated and costly grant incentives. There is a distinct lack of consideration or acknowledgement of these issues in this settlement. That must be dealt with, and the Welsh Conservatives have raised this time and again in the Chamber. I suggest that a good place to start would be cutting the use of hypothecated grants. Even the WLGA has estimated that 10%—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gorffenwch, os gwelwch yn dda.

Mike Hedges: I join Janet Finch-Saunders in congratulating those in Welsh local government who were honoured in the new year honours list. To come back to the local government settlement, we need to see it in light of the background against which it is set. It is set against a background of cuts imposed on the Assembly by the Westminster Government—it is a fact that those cuts have been made. It is also set against a background of an £80 million gross increase between 2004-05 and 2009-10, which is an increase of over 20%, and a 69% increase between 1999 and 2011. Welsh local government did very well during the years of a Labour Government in Westminster and a Labour Government in Cardiff. Unfortunately, we now no longer have a Labour Government in Westminster.

nid yw'r broses o ailddosbarthu trethi annomestig cenedlaethol yn gwneud hynny. Am y rheswm hwnnw, ni chredaf fod yr asesiad o wariant safonol yn cynrychioli pob awdurdod yng Nghymru. Mae ailddosbarthu'r ardreth annomestig genedlaethol yn ôl yr un gyfradd â'r boblogaeth o oedolion yn golygu bod 20% o'r asesiad o wariant safonol yn anwybyddu ffactorau pwysig, fel mäs ein tir gwledig a'r gyfran o bobl sydd dros 65 oed. Mae angen cydnabod y ddau ffactor mewn fformiwla cyllido awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar anghenion. Pan fo'r ardreth annomestig genedlaethol yn cyfrif am dros £890 miliwn o'r asesiad o wariant safonol, ni allwn anwybyddu'r ffeithiau hyn.

Yn drydydd, yn y cyfnod hwn o galedi, rhaid inni edrych o ddifrif ar y degau o filiynau o bunnoedd sy'n cael eu gwastraffu mewn llywodraeth leol yng Nghymru ar fiwrocratiaeth ddiangen a chymhelliannau grant cymhleth a chostus. Mae diffyg ystyriaeth neu gydnabyddiaeth amlwg o'r materion hyn yn y setliad hwn. Rhaid ymdrin â hynny, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi codi hyn dro ar ôl tro yn y Siambr. Awgrymaf mai lle da i ddechrau fyddai lleihau'r defnydd o grantiau wedi'u neilltuo. Mae hyd yn oed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif bod 10%—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude, please.

Mike Hedges: Ymunaf â Janet Finch-Saunders i longyfarch y rhai mewn llywodraeth leol yng Nghymru a gafodd eu hanrhydeddu yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd. I ddychwelyd i'r setliad llywodraeth leol, mae angen inni ei weld yng nghyd-destun y cefndir iddo. Yn gefndir iddo ceir toriadau a osodwyd ar y Cynulliad gan Lywodraeth San Steffan—mae'n ffaith y gwnaed y toriadau hynny. Yn gefndir iddo hefyd mae'r cynnydd o £80 miliwn gros rhwng 2004-05 a 2009-10, sef cynnydd o dros 20%, a chynnydd o 69% rhwng 1999 a 2011. Gwnaeth llywodraeth leol yng Nghymru yn dda iawn yn ystod y blynyddoedd o gael Llywodraeth Lafur yn San Steffan a Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd. Bellach, yn anffodus, nid oes gennym Lywodraeth Lafur yn San Steffan.

I want to take you back to the budget debate. Local government is the only major area of Assembly expenditure for which the opposition did not ask for an increase in the budget. If you remember, they wanted more money for health, education and for the economy, but there was no mention whatsoever of local government. I agree with Janet Finch-Saunders about the importance of local government, but local government was not important to the Conservatives or the other opposition parties when we debated the budget. I want to issue a warning on hypothecation: when you come out of hypothecation and you give the money to local authorities according to the formula, there will be winners and losers. Those who are old enough to remember the all-Wales strategy for the development of services for mentally handicapped people will know that when the money for that was put into the main budget and distributed by formula, and the provision in direct grants ended, there were many local authorities that were losers and many that were winners. When you start saying, 'Let it all go out via the formula', there will be winners and losers, and the winners will be those who have not spent money on the services that were being supported and the losers will be those who have spent money on those services.

Let us compare the settlement in Wales with that in England. Over the next four years, there is a 0.75% increase in Wales, and, on a like-for-like basis, a 0.6% decrease in England. There is a 0.24% increase this year, plus £700 million in specific grants, including £101 million for the foundation phase. There is good news for Welsh local government, in contrast to local government in England. There is £161 million allocated for capital, despite the substantial cuts made to the Welsh capital budget. To echo what Carl Sargeant said earlier, average band D council tax in Wales is up to 25% less than that in England, and average council tax levels in Wales are around 20% less than those in England.

What are the Conservatives saying? The

Rwyf am fynd â chi yn ôl i'r drafodaeth ar y gyllideb. Llywodraeth leol yw'r unig faes mawr o wariant y Cynulliad na ofynnodd y gwrthbleidiau am gynnydd yn y gyllideb ar ei gyfer. Os cofiwch, roeddent am gael mwy o arian ar gyfer iechyd, addysg a'r economi, ond nid oedd unrhyw sôn o gwbl am lywodraeth leol. Cytunaf â Janet Finch-Saunders ynghylch pwysigrwydd llywodraeth leol, ond nid oedd llywodraeth leol yn bwysig i'r Ceidwadwyr na'r gwrthbleidiau eraill pan roeddem yn trafod y gyllideb. Rwyf am roi rhybudd ynghylch neilltuo arian: pan fyddwch yn peidio â neilltuo arian ac yn rhoi'r arian i awdurdodau lleol ar sail y fformiwla, bydd enillwyr a chollwyr. Bydd y rhai sy'n ddigon hen i gofio'r strategaeth Cymru gyfan i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anfantais feddyliol yn gwybod, pan roddwyd yr arian ar gyfer hwnnw yn y brif gyllideb a'i ddsbarthu drwy fformiwla, a phan ddaeth y ddarpariaeth mewn grantiau uniongyrchol i ben, roedd nifer o awdurdodau lleol ar eu colled a nifer ohonynt ar eu hennill. Pan fyddwch yn dechrau dweud 'Gadewch iddo i gyd gael ei ddsbarthu drwy'r fformiwla', bydd enillwyr a chollwyr, a'r enillwyr fydd y rhai nad ydynt wedi gwario arian ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu cefnogi, a'r collwyr fydd y rhai sydd wedi gwario arian ar y gwasanaethau hynny.

Gadewch inni gymharu'r setliad yng Nghymru â'r setliad yn Lloegr. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd cynnydd o 0.7% yng Nghymru, ac, ar sail tebyg am debyg, bydd gostyngiad o 0.6% yn Lloegr. Mae cynnydd o 0.24% y flwyddyn hon, yn ogystal â £700 miliwn mewn grantiau penodol, gan gynnwys £101 miliwn ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae newyddion da i lywodraeth leol yng Nghymru, yn wahanol i lywodraeth leol yn Lloegr. Mae £161 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfalaf, er gwaethaf y toriadau sylweddol a wnaed i gyllideb cyfalaf Cymru. I adleisio'r hyn a ddywedodd Carl Sargeant yn gynharach, mae'r dreth gyngor band D gyfartalog yng Nghymru hyd at 25% yn llai na'r dreth yn Lloegr, ac mae lefelau cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru tua 20% yn llai na'r rhai yn Lloegr.

Beth y mae'r Ceidwadwyr yn ei ddweud?

Local Government Association has said that the settlement for 2011-12 is the toughest in living memory and will inevitably lead to cuts in services. That is how England is being affected. While it is up to local authorities and individual councils how they spend their money, and I would never want to change that, we must remember that the local government share of the total Welsh Government managed expenditure is greater than at any time in the past four years. I am, however, disappointed to see that, overall, councils in Wales have reduced the percentage of gross revenue spent on education from 43.4% to 38% over the past 10 years, which is £41 million less than if the percentage had stayed the same. One thing that has happened there is that we have seen a number of local authorities go out of Labour control and into a combination of control by Liberal Democrats and a whole range of other people, and they have decided that education is the area from which money should be taken.

This is a fair, if challenging, settlement for the councils of Wales. I am looking to local authorities to prioritise the provision of key services over any vanity projects and the protection of the substantial reserves that many of them have. Overall, Welsh local government has done as well as could have been expected, and better than it would have done had the opposition parties won the budget debate or had we had a Conservative-Liberal Democrat Government in Wales. I hope that Members will support this motion.

3.45 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn ddweud yn y lle cyntaf ein bod yn derbyn bod y Gweinidog wedi gwneud ei orau gyda'r setliad i lywodraeth leol. Mae'n ddigon teg i nodi, fel y nododd Mike Hedges, nad oedd y gwrthbleidiau wedi gofyn am ragor o arian i lywodraeth leol wrth drafod y gyllideb, felly rydym yn derbyn y swm o arian sydd wedi'i ddosrannu i lywodraeth leol yng Nghymru. Rydym hefyd yn derbyn bod y sefyllfa, fel y dywedodd Mike Hedges, lawer yn well yng

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi dweud mai'r setliad ar gyfer 2011-12 yw'r un caletaf o fewn cof ac y bydd yn anochel yn arwain at doriadau mewn gwasanaethau. Dyna sut yr effeithir ar Loegr. Er mai awdurdodau lleol a chynghorau unigol sy'n gyfrifol am sut y maent yn gwario eu harian, ac ni fyddwn fyth am newid hynny, mae'n rhaid i ni gofio bod cyfran llywodraeth leol o'r holl wariant a reolir gan Lywodraeth Cymru yn fwy nag y bu ar unrhyw adeg yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, rwyf yn siomedig i weld bod cynghorau yng Nghymru, ar y cyfan, wedi gostwng canran y refeniw gros a gaiff ei wario ar addysg o 43.4% i 38% dros y 10 mlynedd diwethaf, sef £41 miliwn yn llai na phe bai'r ganran wedi aros yr un fath. Un peth sydd wedi digwydd o ran hynny yw bod nifer o awdurdodau lleol wedi peidio â bod o dan reolaeth Lafur a'u bod bellach yn cael eu rheoli gan gyfuniad o'r Democratiaid Rhyddfrydol ac ystod eang o bobl eraill, ac maent wedi penderfynu y dylid cymryd yr arian o faes addysg.

Mae hwn yn setliad teg, ond heriol, ar gyfer cynghorau Cymru. Rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau allweddol yn hytrach nag i unrhyw brosiectau ofer ac i ddiogelu'r cronfeydd wrth gefn sylweddol sydd gan nifer ohonynt. Ar y cyfan, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi gwneud cystal ag y gellid bod wedi ei ddisgwyl, ac yn well nag y byddai wedi'i wneud pe bai'r gwrthbleidiau wedi ennill y ddadl ar y gyllideb neu pe bai gennym Lywodraeth Geidwadol-Ddemocrataidd Ryddfrydol yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig hwn.

Rhodri Glyn Thomas: First of all, I would like to say that we accept that the Minister has done his best with the local government settlement. It is fair to note, as Mike Hedges noted, that the opposition parties had not asked for more funding for local government during the budget negotiations, therefore we accept the sum of money allocated to local government in Wales. We also accept that the situation, as Mike Hedges said, is far better in Wales than it is in England. When making

Nghymru nag ydyw yn Lloegr. Wrth gymharu, mae'r sefyllfa yn ffafriol. Serch hynny, mae Mike Hedges yn mynd ychydig yn rhy bell wrth geisio honni bod hyn yn newyddion da i lywodraeth leol. Nid yw yn newyddion da. Bydd gwasgfa ar gyllidebau llywodraeth leol ledled Cymru, a bydd gwasanaethau sylfaenol o dan fygythiad. Mae Plaid am nodi ein gwrthwynebiad sylfaenol i unrhyw doriadau i wasanaethau sylfaenol. Rydym yn annog llywodraeth leol i chwilio am arbedion mewn manau eraill yn eu cyllidebau ac i sicrhau bod y gwasanaethau sylfaenol hynny sydd mor bwysig i bobl ledled Cymru yn cael eu diogelu. Credaf fod y Gweinidog, yn ei setliad, wedi galluogi llywodraeth leol i wneud hynny. Er ei bod yn sefyllfa heriol, credaf y gall awdurdodau lleol trwy Gymru arbed y gwasanaethau sylfaenol hynny.

Wrth sôn am y setliad, mae'n bwysig cofio ei fod yn un sydd wedi cael ei gytuno gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno i'r fformiwla sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y setliad. Wedi dweud hynny, a rhag i'r Gweinidog deimlo bod ganddo ein cefnogaeth lwyr, dywedaf, ar ran Plaid Cymru, na fyddwn yn pleidleisio o blaid y setliad hwn am ddau reswm. Yn gyntaf—fe fydd y Gweinidog yn ymwybodol o hyn—gwnaeth y Llywodraeth flaenorol, sef Llywodraeth clymblaid Cymru'n Un, sefydlu llawr ar gyfer dosraniad arian i awdurdodau lleol a oedd yn amddiffyn yr awdurdodau a oedd, yn ôl y fformiwla, yn cael eu cosbi yn fwy nag awdurdodau eraill. Hoffwn gael esboniad gan y Gweinidog pam mae wedi dewis gwneud i ffwrdd â'r llawr hwnnw. Byddai'r llawr hwnnw yn sicrhau bod awdurdodau yn cael setliad teg ac na fyddai un awdurdod yn cael ei gosbi yn ormodol yn y sefyllfa hon, er ei bod yn sefyllfa heriol i bawb.

Yr ail reswm pam na allwn gytuno â'r setliad hwn yw perthynas y Gweinidog ag awdurdodau lleol. Yn y gorffennol, yr wyf wedi'i feirniadu am y modd mae wedi dewis mynd i sefyllfa o wrthdaro ag awdurdodau ledled Cymru. Mae Plaid yn teimlo bod ei ymwneud ef â llywodraeth leol, ac unigolion o fewn llywodraeth leol, yn gallu bod yn rhagfarnlyd. Dro ar ôl tro, rwyf wedi'i

that comparison, we can see that the situation is favourable here. However, Mike Hedges is going a little too far in trying to claim that this is good news for local government. It is not good news. There will be pressure on local government budgets throughout Wales, and basic services will be under threat. Plaid Cymru wants to put on record its fundamental objection to any cuts in front-line services. We encourage local government to seek savings elsewhere within their budgets and to ensure that those basic services that are so important to people throughout Wales are safeguarded. I believe that the Minister, in this settlement, has enabled local government to do just that. Although the situation is a challenging one, I believe that local authorities throughout Wales can safeguard those basic services.

In discussing the settlement, it is important to bear in mind that it has been agreed by the Welsh Local Government Association and that every local authority in Wales has agreed to the formula used to determine the settlement. Having said that, and in case the Minister should feel that he has our full support on this issue, I have to tell him, on behalf of Plaid Cymru, that we will not be voting for the settlement for two reasons. First—and the Minister will be aware of this—the previous Government, namely the One Wales coalition Government, established a floor for the allocation of funding to local authorities that defended those authorities that, according to the formula, were penalised more than others. I would like an explanation from the Minister as to why he has chosen to do away with that floor. I believe that the floor would ensure that authorities got a fair settlement and that not one authority was penalised too harshly in this situation, albeit a challenging situation for everyone.

The second reason why we cannot agree to this settlement is down to the Minister's relationship with local authorities. I have in the past criticised him for the way in which he has chosen to place himself in situations of conflict with authorities the length and breadth of Wales. Plaid feels that his dealing with local government, and with individuals within local government, can be prejudiced.

gwestiynu am sefyllfaoedd sydd wedi codi yn yr ychydig gynghorau hynny sy'n cael eu rheoli gan Lafur. Bob tro, gwrthododd wneud sylw neu feirniadu unrhyw awdurdod sy'n cael ei arwain gan Lafur, tra'i fod yn barod iawn i feirniadu awdurdodau eraill nad ydynt yn cael eu rheoli gan Lafur, a beirniadu unigolion blaenllaw yn yr awdurdodau hynny.

Weinidog, mae'r Llywodraeth wedi sôn ei bod yn mynd i weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau ei bod yn gallu defnyddio'i gallu i dynnu arian allanol i lawr—mae mwy o allu gan awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Pan oedd y Gweinidog cyllid yn y Pwyllgor Cyllid fis Hydref diwethaf, nododd nad oedd unrhyw drafodaethau wedi digwydd bryd hynny rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ynglŷn â sut yn union y gellid manteisio ar y gallu hwnnw i fenthyg. Onid yw hynny'n adlewyrchu'r diffyg perthynas sy'n bodoli rhwng eich Llywodraeth a rhyngoch chi fel Gweinidog ac awdurdodau lleol yng Nghymru? Am y rhesymau hynny, byddwn yn atal ein pleidlais ar y mater.

Peter Black: I did not have a great deal to say on this motion until the opposition spokesperson contributed. It was unfair of Janet Finch-Saunders to accuse the Minister of being unimaginative. I have heard Carl Sargeant called many names in the past, but 'unimaginative' is a first. I have difficulty in working out how exactly the settlement is unimaginative. You have money, and you give it to local government; it is fairly straightforward to process. It does not take a great deal of imagination to understand that particular aspect.

I must say, however, that the criticism by Janet Finch-Saunders of the local government settlement was unfair in terms of the overall sum available. We must all accept that both the Welsh Government and UK Government have to cut their cloth according to the economic circumstances in which they find themselves. We must all recognise that we do not have the resources that were available in previous years. The first year of the Labour-Liberal Democrat coalition Government in 2000 had a generous local government settlement because quite a lot of money was

Time and again, I have questioned him on situations that have arisen in those few councils controlled by Labour and, on each and every occasion, he refused to comment or criticise any Labour-led authority, although he is more than willing to criticise authorities controlled by other parties and to criticise prominent individuals within those authorities.

Minister, the Government has mentioned that it intends to work with local government to ensure that it can use its ability to draw down external funds—local authorities have a far greater ability than the Welsh Government has in that regard. When the Minister for finance attended a meeting of the Finance Committee last October, she noted that there were no negotiations at that time between the Welsh Government and local authorities on how that power to borrow could be exploited. Does that not reflect the lack of relationship between your Government and you as a Minister and the local authorities of Wales? For those reasons, we will be abstaining on this motion today.

Peter Black: Nid oedd gennyf lawer i'w ddweud am y cynnig hwn nes i lefarydd yr wrthblaid gyfrannu. Roedd Janet Finch-Saunders yn annheg i gyhuddo'r Gweinidog o fod yn ddiddychymyg. Rwyf wedi clywed pobl yn galw Carl Sargeant yn llawer o bethau yn y gorffennol, ond byth 'diddychymyg'. Rwy'n ei chael hi'n anodd gweithio allan sut yn union y mae'r setliad yn ddiddychymyg. Mae gennych arian, ac rydych yn ei roi i lywodraeth leol; mae'n broses eithaf syml. Nid yw'n cymryd llawer iawn o ddychymyg i ddeall yr agwedd honno.

Rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, fod y feirniadaeth gan Janet Finch-Saunders o'r setliad llywodraeth leol yn annheg o ran y swm sydd ar gael yn gyffredinol. Rhaid i ni gyd dderbyn bod rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud y gorau o'r amgylchiadau economaidd presennol. Rhaid inni gyd gydnabod nad oes gennym yr adnoddau a oedd ar gael mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd setliad llywodraeth leol hael ym mlwyddyn gyntaf Llywodraeth glymblaid Llafur a'r Democratiaid yn 2000 gan fod cryn dipyn o arian ar gael ym mlac

available in the Welsh block, but that amount of money has been diminishing ever since. When you have a situation in which the Welsh block is effectively at a standstill, it is only reasonable to assume that that will also apply in relation to the local government settlement. The criterion that needs to be applied in measuring the settlement is whether local government is getting a similar increase or change in its budget to that which the Welsh Government has received from the UK Government. If that is the case, I do not think that we can quibble too much about the money that is available, as long as local government is being treated on the same basis as the other services that the Welsh Government funds. Even the Welsh Government would recognise that that is fair and proper.

The last time that the Welsh Conservatives published an alternative budget, before the last election, the amount of money that it would have taken from local government to fund the extra £1 billion or so that it wanted to put into health was quite extraordinary and would have decimated the services that local government provides, including social services, which link with health. It is all very well to stand there and criticise, but you have to be realistic about this particular budget and how it is applied.

I was particularly pleased by the Minister's announcement on assisted borrowing, which is very important because, particularly in terms of highways, we have failed to address the declining quality of Wales's roads over the last few years. Things have got worse, and making resources available to local authorities against which they can borrow if they wish—I am getting the wording right for the Treasury—is important, because that sort of investment will make a big difference. I hope that, if that policy of assisted borrowing continues, we will be able to do something similar in relation to schools. The big challenge facing local government is the £4 billion or so identified by the twenty-first century schools programme that needs to be invested to get schools around Wales up to standard. Any assistance that the Welsh Government can give local authorities to find their 50 per cent for that scheme will be very welcome.

Cymru. Fodd bynnag, mae'r swm hwnnw o arian wedi lleihau byth ers hynny. Pan fod gennych sefyllfa lle mae bloc Cymru yn ddigyfnewid i bob pwrpas, mae'n rhesymol tybio y byddai hynny hefyd yn wir am y setliad llywodraeth leol. Y maen prawf sydd angen ei ddefnyddio wrth fesur y setliad yw a yw llywodraeth leol yn cael cynnydd neu newid yn ei chyllideb sy'n debyg i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael gan Lywodraeth y DU. Os yw hynny'n wir, nid wyf yn credu y gallwn holli blew gormod am yr arian sydd ar gael, cyn belled â bod llywodraeth leol yn cael ei thrin ar yr un sail â'r gwasanaethau eraill y mae Llywodraeth Cymru'n eu hariannu. Byddai hyd yn oed Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hyn yn deg ac yn briodol.

Y tro diwethaf i'r Ceidwadwyr Cymreig gyhoeddi cyllideb amgen, cyn yr etholiad diwethaf, roedd y swm o arian y byddai wedi'i gymryd o lywodraeth leol i ariannu'r tua £1 biliwn ychwanegol yr oedd am ei roi i'r gyllideb iechyd yn syfrdanol a byddai wedi dinistrio'r gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn eu darparu, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'n ddigon hawdd sefyll yno a beirniadu, ond rhaid ichi fod yn realistig am y gyllideb hon a sut mae'n cael ei defnyddio.

Roeddwn yn arbennig o falch o glywed cyhoeddiad y Gweinidog ar fenthyca a gynorthwyr, sy'n bwysig iawn oherwydd, yn enwedig o ran priffyrdd, rydym wedi methu â mynd i'r afael â'r dirywiad yn ansawdd ffyrdd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pethau wedi gwaethygu, ac mae sicrhau bod adnoddau ar gael i awdurdodau lleol er mwyn iddynt fenthyg os ydynt yn dymuno—rwy'n dweud y geiriau cywir ar gyfer y Trysorlys—yn bwysig, oherwydd bydd y math hwnnw o fuddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth mawr. Os bydd y polisi o fenthyca a gynorthwyr yn parhau, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud rhywbeth tebyg mewn perthynas ag ysgolion. Yr her fawr sy'n wynebu llywodraeth leol yw'r tua £4 biliwn a nodwyd gan raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain y mae angen ei fuddsoddi i sicrhau bod ysgolion ledled Cymru yn cyrraedd y safon. Bydd unrhyw gymorth y gall Llywodraeth

Cymru ei roi i awdurdodau lleol i ddod o hyd i'w 50 y cant ar gyfer y cynllun hwnnw yn cael ei groesawu'n fawr.

The Minister did not mention the pupil deprivation grant, which I think is a particularly good part of the money going to local authorities. It may not be part of this budget, but it is important that that money is going to schools and that the extra money is there to help pupils who are underperforming because of their economic circumstances. That is particularly helpful.

I also welcome the extra money for schools and for social services. We would all like more money for local government. I would particularly like to see fewer direct grants; I recognise that there has been progress on that, but I would like to see more progress. However, on balance, we are happy to support this motion, because it seems to us that, in the circumstances, it is the best possible settlement that we can give local government.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I thank Members for their contributions today and for the support from some Members in terms of taking this budget forward. I first thank Mike Hedges for his measured, well-informed contribution today, which outlined the differences between—

Rhodri Glyn Thomas: He is biased.

Carl Sargeant: If the Member would like to hold on, I may even congratulate him on his contribution too. Mike set out clearly the difference between what is happening in Wales and England in terms of the finances and the budget-setting proposals.

Rhodri Glyn raised some important issues, particularly about the protection of front-line services, and I share the ambition to work with local authorities and colleagues around the Cabinet table to protect our most vulnerable communities. There are people in our communities who are suffering due to the massive cuts from the UK Government in

Ni soniodd y Gweinidog am y grant amddifadedd disgyblion. Credaf fod hyn yn rhan arbennig o dda o'r arian sy'n mynd i awdurdodau lleol. Efallai na fydd yn rhan o'r gyllideb hon, ond mae'n bwysig bod yr arian hwnnw yn mynd i ysgolion a bod yr arian ychwanegol ar gael i helpu disgyblion sy'n tanberfformio oherwydd eu hamgylchiadau economaidd. Mae hynny'n arbennig o ddefnyddiol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Byddem i gyd yn hoffi rhoi mwy o arian i lywodraeth leol. Yn benodol, hoffwn weld llai o grantiau uniongyrchol; rwy'n cydnabod y bu cynnydd o ran hynny, ond hoffwn weld rhagor o gynnydd. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn, gan ei fod yn ymddangos i ni, yn yr amgylchiadau, mai hwn yw'r setliad gorau posibl y gallwn ei roi i lywodraeth leol.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Rwy'n diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw ac am gefnogaeth rhai Aelodau o ran symud y gyllideb hon yn ei blaen. Yn gyntaf, rwy'n diolch i Mike Hedges am ei gyfraniad ystyriol a gwybodus heddiw, a amlinellodd y gwahaniaethau rhwng—

Rhodri Glyn Thomas: Mae'n dangos tuedd.

Carl Sargeant: Os byddai'r Aelod yn dymuno aros, mae'n bosibl y byddaf yn ei longyfarch ar ei gyfraniad ef hefyd. Amlinellodd Mike yn glir y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru ac yn Lloegr o ran y cyllid a'r cynigion ar gyfer gosod cyllideb.

Nododd Rhodri Glyn rhai materion pwysig, yn enwedig ynghylch diogelu gwasanaethau rheng flaen, ac rwy'n rhannu'r uchelgais i weithio gydag awdurdodau lleol a chydweithwyr o amgylch bwrdd y Cabinet i ddiogelu ein cymunedau mwyaf bregus. Mae pobl yn ein cymunedau yn dioddef oherwydd y toriadau enfawr gan Lywodraeth y DU o

terms of the broader welfare issues.

You suggested that you were not prepared to support these proposals because of two issues, one of which is the mechanism for the flooring system. I was very clear in my proposals last year, when I introduced the floor. There was a huge reduction in the local government budget and a lot of turbulence because the formula was altered last year. That is why I included the flooring mechanism. However, I was clear to local government at the time that this was not sustainable and that we were moving from a deficit settlement last year to a positive settlement in the next, and that I did not want to see a gap from year 3 and year 1. That is why the flooring mechanism is in place for year 3—next year. People who had a full floor would have had a massive jump from a negative budget to a positive budget, and vice versa. I have tried to buffer that by removing the flooring system this year where there is an increase in the overarching budget. I hope that that makes a little more sense.

In terms of local authorities' funding and borrowing provisions, I do not recognise the Member's comments. In fact, we have a good relationship with local government, including the Minister for finance. This particular project for highways infrastructure, which Peter Black alluded to, actually came from local government, and we are very pleased to be able to work in partnership with local government, subject to Treasury agreement on how we can take this new and innovative project forward for the people of Wales.

Peter's comments were again welcome—I am pleased that you support the budget. Budgets are under pressure, but I believe that through working together, despite the difficulties with financing, the Welsh Government and local government can create better and more sustainable service delivery for the people of Wales.

That just leaves me with Janet Finch-Saunders and her initial contribution to this debate. I know that there has been some

ran y materion lles ehangach.

Rydych yn awgrymu nad ydych yn barod i gefnogi'r cynigion hyn oherwydd dau fater, ac un o'r materion hynny yw'r dull o bennu'r terfyn isaf. Roeddwn yn glir iawn yn fy nghynigion y llynedd, pan gyflwynais y terfyn isaf. Bu gostyngiad mawr yn y gyllideb llywodraeth leol a bu llawer o gynnwrf oherwydd bod y fformiwla wedi cael ei newid y llynedd. Dyna pam rwyf yn cynnwys y dull ar gyfer pennu'r terfyn isaf. Fodd bynnag, dywedais wrth awdurdodau lleol yn glir ar y pryd nad oedd hyn yn gynaliadwy a'n bod yn symud o setliad o ddiffyg y llynedd i setliad positif yn y flwyddyn nesaf, ac nad oeddwn am weld bwlch rhwng blwyddyn 3 a blwyddyn 1. Dyna pam mae'r dull o bennu'r terfyn isaf ar waith ar gyfer blwyddyn 3—y flwyddyn nesaf. Byddai pobl oedd â therfyn isaf cyflawn wedi cael gweld naid enfawr o gyllideb negyddol i gyllideb positif, ac i'r gwrthwyneb. Rwyf wedi ceisio clustogi hynny drwy gael gwared ar y system o bennu'r terfyn isaf eleni, lle mae cynnydd yn y gyllideb gyffredinol. Rwy'n gobeithio bod hynny'n gwneud ychydig mwy o synnwyr.

O ran darpariaethau cyllid a benthyca awdurdodau lleol, nid wyf yn cydnabod sylwadau'r Aelod. Yn wir, mae gennym berthynas dda gyda llywodraeth leol, gan gynnwys y Gweinidog cyllid. Mae'r prosiect penodol ar gyfer seilwaith priffyrdd, y cyfeiriodd Peter Black ato, mewn gwirionedd wedi deillio o lywodraeth leol, ac rydym yn falch iawn o allu gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, yn amodol ar gytundeb y Trysorlys, ar sut y gallwn symud y prosiect newydd ac arloesol hwn ymlaen ar gyfer pobl Cymru.

Croesawaf sylwadau Peter eto—rwy'n falch eich bod yn cefnogi'r gyllideb. Mae cyllidebau o dan bwysau, ond yn fy marn i, drwy gydweithio, er gwaethaf yr anawsterau ariannu, gall Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ddarparu gwasanaethau sy'n well ac yn fwy cynaliadwy i bobl Cymru.

Mae hynny'n fy arwain at Janet Finch-Saunders a'i chyfraniad cyntaf at y ddadl hon. Gwn y bu rhywfaint o ddadlau yn y

debate in the media about new boundaries and new areas of representation, but I think that there are some who represent Fantasy Island, because I am not quite sure where the Member gets her figures from, nor am I sure about the reasoning behind the Member's contribution. It is clear that the Conservatives in England have put forward a budget to reduce local government spend—it will be a 0.6% reduction for local government in England. The Conservatives have supported that. In Wales, we are proposing a budget with a 0.2% average increase this year, which will lead to an overall settlement with a 0.7% increase for Welsh local government. The Conservatives are going to vote against that. I am not sure where the logic lies in doing that, but if the Members opposite wish to go against the contributions from local government, let me just quote a few. One council says that it supports the stability within the provisional settlement being broadly in line with previous indications and the protection given to public services. That was not written by a Labour council or a Plaid Cymru council; it came from a Conservative and Liberal Democrat-run council, and as such, that contribution was welcomed in my office. Another states that the council is pleased that the Welsh Government has honoured the overall revenue commitment to local government set out in the 2011-12 settlement, and this, too, came not from a Labour council, but one run by the Conservatives and Plaid Cymru, which supported the budget provision in their press releases this year.

It is disappointing that not all Members in this Chamber feel able to support a budget that is fit for the future and for delivering public services under very tight financial constraints. However, people with vision may be able to support this budget.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

4.00 p.m.

cyfryngau am ffiniau newydd ac ardaloedd cynrychioli newydd, ond rwy'n meddwl bod rhai yn cynrychioli byd ffantasi, gan nad wyf yn gwbl siŵr o ble y mae'r Aelod yn cael ei ffigurau. Nid wyf yn siŵr chwaith am y rhesymeg y tu ôl i gyfraniad yr Aelod. Mae'n amlwg bod y Ceidwadwyr yn Lloegr wedi cyflwyno cyllideb i leihau gwariant llywodraeth leol—bydd gostyngiad o 0.6% ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr. Mae'r Ceidwadwyr wedi cefnogi hynny. Yng Nghymru, rydym yn cynnig cyllideb gyda chynnydd o 0.2% ar gyfartaledd eleni, a fydd yn arwain at setliad cyffredinol gyda chynnydd o 0.7% ar gyfer llywodraeth leol Cymru. Mae'r Ceidwadwyr yn mynd i bleidleisio yn erbyn hynny. Nid wyf yn siŵr beth yw eu rhesymeg yn hynny o beth, ond os bydd yr Aelodau gyferbyn yn dymuno mynd yn erbyn y cyfraniadau gan lywodraeth leol, gadewch i mi ddyfynnu ychydig ohonynt. Mae un cyngor yn dweud ei fod yn cefnogi'r sefydlogrwydd sy'n bodoli am fod y setliad dros dro, yn fras, yn unol â'r rhybuddion blaenorol a'r diogelwch y mae hyn yn ei roi i wasanaethau cyhoeddus. Ni chafodd hynny ei nodi gan gyngor Llafur na chyngor Plaid Cymru; daeth o gyngor sy'n cael ei redeg gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Cafodd y cyfraniad hwnnw ei groesawu yn fy swyddfa. Mae cyfraniad arall yn datgan bod y cyngor yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi anrhydeddu'r ymrwymiad reffeniw cyffredinol i lywodraeth leol a nodir yn setliad 2011-12. Ni ddaeth hyn chwaith gan gyngor Llafur; ond un sy'n cael ei redeg gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru, a oedd yn cefnogi darpariaethau'r gyllideb yn ei ddatganiadau i'r wasg eleni.

Mae'n siomedig nad yw'r holl Aelodau yn y Siambr hon yn teimlo y gallant gefnogi cyllideb sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o dan gyfyngiadau ariannol tynn iawn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall pobl sydd â gwledigaeth gefnogi'r gyllideb hon.

The Deputy Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Rhaglenni Ewropeaidd European Programmes

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 5 and 7 in the name of William Graham, amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 3 and 6 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 5 is agreed, amendment 6 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 5 a 7 yn enw William Graham, gwelliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 3 a 6 yn enw Peter Black. Os bydd gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os bydd gwelliant 5 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol.

Cynnig NDM4882 Jane Hutt

Motion NDM4882 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r cyfraniad cadarnhaol y mae Rhaglenni Ewropeaidd cyfredol a blaenorol yn ei wneud ac wedi'i wneud;

1. Notes the positive contribution made by current and previous European Programmes.

2. Yn croesawu'r rôl hanfodol y mae arian Ewropeaidd, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol, yn ei chwarae o ran cefnogi economi Cymru;

2. Welcomes the role of European funding including the Common Agricultural Policy and European Structural Funds as vital in supporting Wales' economy.

3. Yn cydnabod bod chwarae rhan lawn a rhagweithiol o fewn yr UE yn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar wahân i'r rheini sy'n deillio o'r Rhaglenni Ewropeaidd;

3. Recognises that playing a full and proactive role within the EU brings economic, social and cultural benefits aside from those arising from European Programmes.

4. Yn nodi â phryder benderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod trafodaethau'r UE ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011 ac yn annog Llywodraeth y DU i weithio mewn ffordd adeiladol gydag Aelod-wladwriaethau eraill i sicrhau bod y DU yn mynd ati unwaith eto i chwarae rôl ganolog yn yr UE wrth lunio polisi a gweinyddu Rhaglenni Ewropeaidd, yn ogystal ag wrth ddatblygu ymhellach bolisiau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ewropeaidd.

4. Notes with concern the decision of the UK Government to exercise its veto during discussions in Brussels on 9th December 2011 and urges the UK Government to work constructively with other Member States to ensure the UK returns to playing a central role within the EU in order to promote the wider interests of Wales and the other constituent parts of the UK in the formulation of policy and administration of European Programmes as well as the further development of European economic, cultural and social policy.

The First Minister: I move the motion.

Y Prif Weinidog: Cynigiad y cynnig.

Following December's European Union summit in Brussels, I believe that the UK is isolated in Europe. This is damaging for Wales's interests as well as for those of the UK as a whole. At a time of economic fragility, the nations of Europe should stand shoulder to shoulder to defend our common interests. The UK should be at the centre of debate and not on the margins.

European programmes are vital to Wales's economy. Structural funds deliver some £250 million a year, matched by our own investment, which amounts to a substantial investment in the Welsh economy. We have been better placed to weather the economic storm than would otherwise have been the case. We have also been able to lay foundations for long-term recovery. EU projects delivered in partnership have already created 10,000 jobs and some 1,900 enterprises; they have supported 33,600 participants into work and 81,000 people to gain qualifications.

Our successful investment of structural funds continues. I am pleased that with the help of further EU funding of £17 million, matched by £13 million from the Welsh Government, our successful Skills Growth Wales scheme can be extended to provide training support until the end of March 2015. This will mean that a further 200 companies can achieve their growth plans, supporting the creation of up to 3,000 additional jobs in Wales.

The common agricultural policy and rural development programme help maintain economic life and buoyancy in the Welsh countryside. The EU is also a vital source of funding for research and innovation—a source that we want to see being exploited more fully by our universities in future to help develop Wales's global competitiveness. The Welsh national interest at EU level is defined much more widely than by programmes alone. Much of our environmental commitment is underpinned by EU legislation, the rights of workers are protected by EU regulation, the mobility of labour and commerce in both directions has

Yn dilyn uwchgynhadledd yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel ym mis Rhagfyr, credaf fod y DU wedi'i ynysu yn Ewrop. Mae hyn yn niweidiol i fuddiannau Cymru yn ogystal ag i fuddiannau'r DU yn ei chyfanrwydd. Mewn cyfnod lle mae'r economi yn fregus, dylai gwledydd Ewrop sefyll ochr yn ochr i amddiffyn ein buddiannau cyffredin. Dylai'r DU fod yn ganolog i'r ddadl, ac nid ar y cyrion.

Mae rhaglenni Ewropeaidd yn hanfodol ar gyfer economi Cymru. Mae cronfeydd strwythurol yn darparu tua £250 miliwn y flwyddyn, a byddwn yn buddsoddi arian cyfatebol ein hunain, sy'n gyfystyr â buddsoddiad sylweddol yn economi Cymru. Rydym wedi bod mewn gwell sefyllfa i oroesi'r storm economaidd na fyddwn wedi bod fel arall. Rydym hefyd wedi gallu gosod sylfeini ar gyfer adferiad hirdymor. Mae prosiectau'r UE sy'n cael eu gweithredu mewn partneriaeth eisoes wedi creu 10,000 o swyddi a tua 1,900 o fentrau; maent wedi cynorthwyo 33,600 o gyfranogwyr i gael gwaith ac wedi cynorthwyo 81,000 o bobl i ennill cymwysterau.

Rydym yn parhau i fuddsoddi cronfeydd strwythurol yn llwyddiannus. Gyda chymorth £17 miliwn pellach o arian yr UE, gydag arian cyfatebol o £13 miliwn gan Lywodraeth Cymru, rwy'n falch y gallwn ehangu ein cynllun Sgiliau Twf Cymru i ddarparu cefnogaeth hyfforddiant tan ddiwedd mis Mawrth 2015. Bydd hyn yn golygu y gall 200 o gwmnïau eraill gyflawni eu cynlluniau twf, a fydd yn cefnogi'r gwaith o greu hyd at 3,000 o swyddi ychwanegol yng Nghymru.

Mae'r polisi amaethyddol cyffredin a'r rhaglen datblygu gwledig yn helpu i gynnal bywyd economaidd yng nghefn gwlad Cymru ac i sicrhau ei fod yn ffynnu. Mae'r UE hefyd yn ffynhonnell hanfodol o arian ar gyfer ymchwil ac arloesi—ffynhonnell rydym am weld yn cael ei defnyddio yn llawnach gan ein prifysgolion yn y dyfodol i helpu i ddatblygu cystadleurwydd byd-eang Cymru. Mae buddiannau cenedlaethol Cymru ar lefel yr UE yn cael eu diffinio yn llawer mwy eang na thwy raglenni yn unig. Mae deddfwriaeth yr UE yn sail i lawer o'n hymrwymiad amgylcheddol, mae hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu gan reoliadau'r UE, mae

opened up many opportunities for business, and the single market forms a substantial part of the export market for Welsh companies.

At the outset of devolution, the Assembly was quick to recognise the importance of EU decision making to our devolved responsibilities. I cut my teeth as Minister for agriculture, working in Brussels for Wales's interests. Previous administrations gave high priority to EU work, and the present Government has continued in the same vein. Historically, all parties in the Assembly have taken EU affairs seriously where they impact on our interests, and there has been wide consensus on the importance of Wales's relationship with Europe. As a Government, we give high priority to our European interests. As recently as just before Christmas, the Deputy Minister for Agriculture, Fisheries, Food and European Programmes was in Brussels and Strasbourg to ensure that Wales's voice was heard in delivering future European programmes.

In spite of my current disagreement with the UK Government on strategy, I should note that there is a long-standing pragmatic and co-operative relationship between the Welsh Government and the current and previous UK Governments regarding our specific interests in Brussels. It is precisely because Wales has benefited from being part of a strong UK team in Europe that I am so concerned about where we find ourselves now. I make no apologies in standing up for Wales's interests in Europe. I believe that the Prime Minister made a fundamental error in his negotiating strategy in Brussels in December. As a result, the UK is at present isolated and our ability to defend our collective long-term interests is reduced.

Nick Ramsay: I thank the First Minister for giving way. It is interesting to hear what he has to say. It seems to be widely accepted in Westminster that Ed Miliband, his party leader, would not have signed the treaty either. Does the First Minister think that Ed Miliband is wrong in that regard?

symudedd llafur a masnach yn y ddau gyfeiriad wedi creu nifer o gyfleoedd ar gyfer busnes, ac mae'r farchnad sengl yn ffurfio rhan sylweddol o'r farchnad allforio ar gyfer cwmnïau o Gymru.

Ar ddechrau datganoli, roedd y Cynulliad yn gyflym i gydnabod pwysigrwydd penderfyniadau'r UE o ran ein cyfrifoldebau datganoledig. Dechreuais fy ngyrfa yn y Llywodraeth yn Weinidog amaethyddiaeth, yn gweithio ym Mrwsel dros fuddiannau Cymru. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i waith yr UE gan weinyddiaethau blaenorol, ac mae'r Llywodraeth bresennol wedi parhau yn yr un modd. Yn hanesyddol, mae pob plaid yn y Cynulliad wedi cymryd materion yr UE o ddifrif lle maent yn effeithio ar ein buddiannau, a bu consensws eang ar bwysigrwydd perthynas Cymru ag Ewrop. Fel Llywodraeth, rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i'n buddiannau Ewropeaidd. Mor ddiweddar ag ychydig cyn y Nadolig, roedd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd ym Mrwsel ac yn Strasbourg i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed wrth weithredu rhaglenni Ewropeaidd yn y dyfodol.

Er fy mod yn anghytuno â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd ynghylch strategaeth, dylwn nodi bod perthynas bragmatig a chydweithredol hirsefydlog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraethau presennol a blaenorol y DU o ran ein buddiannau penodol ym Mrwsel. Mae Cymru wedi elwa ar fod yn rhan o dîm cryf y DU yn Ewrop, ac felly rwy'n pryderu am ein sefyllfa nawr. Nid wyf am ymddiheuro am sefyll yn gadarn dros fuddiannau Cymru yn Ewrop. Credaf i'r Prif Weinidog wneud camgymeriad sylfaenol yn ei strategaeth drafod ym Mrwsel ym mis Rhagfyr. O ganlyniad, mae'r DU wedi'i ynysu ar hyn o bryd ac mae ein gallu i amddiffyn ein cydfuddiannau yn yr hirdymor wedi lleihau.

Nick Ramsay: Rwy'n diolch i'r Prif Weinidog am adael imi siarad. Mae'n ddiddorol clywed yr hyn sydd ganddo i'w ddweud. Mae'n ymddangos ei bod yn cael ei dderbyn yn eang yn San Steffan na fyddai Ed Miliband, arweinydd ei blaid, wedi llofnodi'r cytundeb chwaith. A yw'r Prif Weinidog yn credu bod Ed Miliband yn anghywir yn

hynny o beth?

The First Minister: In my view, two fundamental mistakes were made. First, the UK is now on its own. No-one agreed with us, and other countries have taken a different view to us. Secondly, I think that the tone was wrong. Pandering to the views of the rampant Eurosceptics in the Conservative Party was the wrong move, especially given that the Prime Minister himself is not part of that group, if I can put it that way. It was unfortunate that those who would be more comfortable in UKIP were given more succour than those who are warmly disposed towards Europe.

The eurozone crisis affects us all, in every part of the UK. There is no credible way of pretending that, if we ignore it, the crisis will go away. However, the Prime Minister has put us in a position where the UK is excluded from key discussions about Europe's economic future. His desire, apparently, was to protect the financial sector—a sector that many hold partly responsible for our economic position—without regard to the wider interests of the UK economy. We are in a position now where there is no new protection for financial services, and the UK is outside the room where key discussions are taking place. Does it matter? It matters profoundly. With the UK outside the room for the EU's chief economic debate, we in the UK are without influence in that debate. That will result, over time, in reduced UK influence across the board, as the key member states get used to forming policy without reference to the UK. Solidarity is a key force in Europe, and our isolation on the current critical issue will inevitably make it harder for us to form alliances in support of our interests.

I deliberately use the word 'our' when talking about the UK interest. I am committed to the UK. I want to see the UK working in the best interests of its constituent parts, as well as for the UK as a whole. We do not want to be parochial about EU matters that directly affect our interests, but the next year or 18

Y Prif Weinidog: Yn fy marn i, gwnaed dau gamgymeriad sylfaenol. Yn gyntaf, mae'r DU nawr ar ei phen ei hun. Nid oedd neb yn cytuno â ni, ac mae safbwynt gwledydd eraill yn wahanol i ni. Yn ail, credaf fod y cywair yn anghywir. Porthi barn yr Ewrosgeptiaid rhemp yn y Blaid Geidwadol oedd y peth anghywir i'w wneud, yn enwedig o ystyried nad oedd y Prif Weinidog ei hun yn rhan o'r grŵp hwnnw, os caf ei gyfleu felly. Roedd yn anffodus bod y rheini a fyddai'n fwy cyfforddus yn UKIP wedi cael mwy o gymorth na'r rhai sy'n teimlo'n gynnes tuag at Ewrop.

Mae argyfwng ardal yr ewro yn effeithio arnom i gyd, ym mhob rhan o'r DU. Nid oes unrhyw ffordd gredadwy o esgus y bydd yr argyfwng yn diflannu os ydym yn ei anwybyddu. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog wedi ein rhoi mewn sefyllfa lle mae'r DU yn cael ei heithrio o drafodaethau allweddol am ddyfodol economaidd Ewrop. Ei awydd, mae'n debyg, oedd diogelu'r sector ariannol—sector y mae llawer o bobl yn ei ystyried yn rhannol gyfrifol am ein sefyllfa economaidd—heb ystyried buddiannau ehangach economi'r DU. Rydym mewn sefyllfa nawr lle nad oes unrhyw ddiogelwch newydd ar gyfer gwasanaethau ariannol, ac mae'r DU y tu allan i'r ystafell lle mae trafodaethau allweddol yn cael eu cynnal. A yw hyn yn bwysig? Mae'n hynod o bwysig. Gan fod y DU y tu allan i'r ystafell yn ystod prif ddadl economaidd yr UE, nid oes gennym ni yn y DU ddylanwad yn y drafodaeth honno. Dros amser, bydd hynny'n arwain at leihau dylanwad y DU yn gyffredinol, wrth i'r prif aelod-wladwriaethau ddod i arfer â llunio polisiau heb gyfeirio at y DU. Mae undod yn rym allweddol yn Ewrop, a bydd y ffaith ein bod wedi ein hynysu ar y mater allweddol presennol, yn anochel, yn ei gwneud yn anoddach i ni ffurfio cynghreiriau i gefnogi ein buddiannau.

Rwyf yn fwriadol yn defnyddio'r gair 'ein' wrth sôn am fuddiannau'r DU. Rwyf wedi ymrwymo i'r DU. Rwyf am weld y DU yn gweithio er lles ei rhannau cyfansoddol, yn ogystal ag er lles y DU gyfan. Nid ydym am fod yn blwyfol am faterion yr UE sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein buddiannau,

months will be a crucial period for the development of future European programmes in Wales. We have already set up a reflection exercise that runs until 27 January, to provide our partners with an early opportunity to offer their views on strategic priorities for the new round of programmes beginning in 2014. There will be an opportunity to debate this here in the Assembly. The EU budget has to be negotiated and money allocated across programmes, and this has to be agreed by all member states. The circumstances for financial discussions are already difficult, but it is vital that the Welsh position is protected. We need financial discipline at EU level, but equally, we need to continue EU programmes to build on the progress that we have made to secure the recovery and generate growth throughout Wales. The need for a strong voice for Wales, working from a UK member state platform, is as strong as ever. We are widely recognised within the EU as an exemplar in terms of management and innovative use of structural funds, and this can itself be a major asset for the UK as part of a negotiating process.

Wales is part of the European Union and proud to be so. Wales is part of the United Kingdom, and I am equally proud of that. I believe that there is real benefit for Wales in being part of a strong UK, and vice versa, and the UK is strongest when it has a powerful voice in Europe, and is at the heart of EU policy making. The UK has done this in the past, and it can do so again; then we can build a strong Wales, a strong Britain, and a strong Europe.

Gwelliant 1 William Graham

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial rhaglenni'r UE a bod rhannau o Gymru'n dal i fod ymysg y tlotaf yn yr Undeb Ewropeaidd.

Gwelliant 5 William Graham

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

ond bydd y flwyddyn neu'r 18 mis nesaf yn gyfnod allweddol ar gyfer datblygu rhaglenni Ewropeaidd yn y dyfodol yng Nghymru. Rydym eisoes wedi sefydlu ymarfer myfyrio sy'n rhedeg tan 27 Ionawr, i roi cyfle cynnar i'n partneriaid gynnig eu barn ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer y rownd nesaf o raglenni sy'n dechrau yn 2014. Bydd cyfle i drafod hyn yma yn y Cynulliad. Rhaid i gyllideb yr UE gael ei negodi a rhaid dyrannu arian ar draws y rhaglenni, a rhaid i'r holl aelod-wladwriaethau gytuno ar hyn. Mae'r amgylchiadau ar gyfer trafodaethau ariannol eisoes yn anodd, ond mae'n hanfodol bod sefyllfa Cymru yn cael ei ddiogelu. Mae angen disgyblaeth ariannol ar lefel yr UE, ond, yn ogystal, mae angen i ni barhau â'r cynnydd a wnaed gennym i sicrhau adferiad ac i greu twf ledled Cymru. Mae'r angen am lais cryf i Gymru, gan weithio o lwyfan aelod-wladwriaeth y DU, yr un mor gryf ag erioed. Rydym yn cael ein cydnabod yn eang yn yr UE fel gwlad sy'n dangos esiampl o ran rheoli cronfeydd strwythurol a'u defnyddio mewn modd arloesol, a gall hyn ynddo'i hun fod yn ased mawr i'r DU fel rhan o'r broses drafod.

Mae Cymru'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n yn falch o hynny. Mae Cymru'n rhan o'r Deyrnas Unedig, ac rwyf yr un mor falch o hynny. Credaf fod budd gwirioneddol i Gymru mewn bod yn rhan o Deyrnas Unedig gref, ac i'r gwrthwyneb, ac mae'r DU ar ei chryfaf pan fod ganddi lais pwerus yn Ewrop a phan fydd wrth wraidd y broses o lunio polisi'r UE. Mae'r DU wedi gwneud hyn yn y gorffennol, a gall wneud hynny eto; yna gallwn adeiladu Cymru gref, Prydain gref, ac Ewrop gref.

Amendment 1 William Graham

Delete point 1 and replace with:

Regrets that successive Welsh Governments have failed to maximise the potential of EU programmes and that parts of Wales remain amongst the poorest in the European Union.

Amendment 5 William Graham

Delete point 4 and replace with:

4. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod y trafodaethau ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011 ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithredu er budd gorau pobl Cymru a Phrydain yn nhrafodaethau cyllido'r UE.

Gwelliant 7 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn ffordd adeiladol er mwyn gweithio er budd cenedlaethol Cymru ac i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau rhaglenni'r UE i Gymru.

Andrew R.T. Davies: I move amendments 1, 5 and 7 in the name of William Graham.

I welcome the opportunity to contribute to this debate. My group and I fundamentally disagree with the First Minister in his outlining of the reasons for this debate, and the arguments that he has put forward. The UK Government and, by association, the Assembly Government is not excluded from all the projects that you identified, First Minister. We are main participants and significant budgetary contributors to the EU, and we will be there fighting the UK's corner, making sure that this round of convergence funding, the reform of the common agricultural policy and the rural development plan that will flow from those reforms will be to the benefit of Wales. We on this side of the Chamber fundamentally believe in a strong Europe that is market orientated and allows the citizens of Europe to prosper. That is the goal that we signed up to 40 years ago, and that is the goal that we will continue to advocate in the corridors of power in Brussels, so that the citizens of Wales, and the citizens of the United Kingdom as a whole, can benefit from our membership of the European Union and be more prosperous because of it. We do not subscribe to greater political integration or greater fiscal integration. I believe that even your own party is against entering the euro at the moment. Indeed, the only tangible benefit that we can see from Gordon Brown's tenure as Chancellor of the Exchequer is that he

4. Welcomes the decision of the UK Government to exercise its veto during discussions in Brussels on 9th December 2011 and supports the UK Government's commitment to serving the best interests of the people of Wales and Britain in EU funding negotiations.

Amendment 7 William Graham

Add new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to engage with the UK Government in a constructive manner to work in the Welsh national interest and to maximise the benefits of EU programmes for Wales.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliannau 1, 5 a 7 yn enw William Graham.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae fy ngrŵp a minnau yn anghytuno yn sylfaenol ag amlinelliad y Prif Weinidog o'r rhesymau dros y ddadl hon, ac â'r dadleuon a gyflwynwyd ganddo. Nid yw Llywodraeth y DU a, thrwy gysylltiad, Llywodraeth y Cynulliad, wedi'u heithrio o'r holl brosiectau a nodwyd gennych, Brif Weinidog. Rydym yn gyfranogwyr allweddol ac yn gyfranwyr cyllidebol sylweddol i'r UE, a byddwn yno yn sefyll cornel y DU, gan sicrhau y bydd y rownd hon o gyllid cydgyfeirio, diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a'r cynllun datblygu gwledig a fydd yn deillio o'r diwygiadau hynny yn fuddiol i Gymru. Rydym ni ar yr ochr hon o'r Siambr yn credu'n sylfaenol mewn Ewrop sy'n canolbwyntio ar y farchnad ac sy'n caniatáu i ddinasyddion Ewrop ffynnu. Dyna'r nod y gwnaethom ymrwymo iddo 40 mlynedd yn ôl, a dyna'r nod y byddwn yn parhau i'w hyrwyddo yng nghoridorau grym Brwsel, fel y gall dinasyddion Cymru, a dinasyddion y Deyrnas Unedig gyfan, elwa o'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a bod yn fwy ffyniannus o'i herwydd. Nid ydym yn cefnogi rhagor o integreiddio gwleidyddol na rhagor o integreiddio cyllidol. Credaf fod eich plaid chi, hyd yn oed, yn erbyn ymuno â'r ewro ar hyn o bryd. Yn wir, yr unig fudd pendant y gallwn ei weld o gyfnod Gordon Brown yn Ganghellor y Trysorlys yw ei fod wedi llwyddo i gadw Prydain allan o'r ewro,

managed to keep Britain out of the euro, even if you are on the record as supporting entry into the euro in the early 2000s.

It is a rather unfortunate time for the First Minister to be addressing Members in the Chamber on European issues. The First Minister was given an opportunity by my colleague, the Member for Monmouth, to support the position of his party leader, who has said that he would not have signed up to this treaty. Therefore, surely he should offer support to the UK Government to stand up for the people of Wales and for the people of the UK. It is unfortunate that, in the First Minister's representations before Christmas, he chose to get his figures wrong, as was highlighted recently in the press. He said that 50% of Welsh exports go to the European Union when, in fact, 39% of Welsh exports go to the European Union. It is a very important market for us, but it is vital that, when the First Minister seeks to make representations, they are based on fact rather than being political figures.

When you look back at the comments that have been made regarding the two tranches of Objective 1 and convergence funding, you will see that his own Member of the European Parliament has talked about the first round of European funding perhaps not being spent wisely. That was said by your own Labour Member, Derek Vaughan MEP.

David Rees: While I agree with you regarding those comments, as has previously been mentioned by your colleague the Member for Monmouth, Derek Vaughan then went on to say that the second round was dealt with far better, that we are far more focused for the second round of convergence funding and that we have used it wisely. Do you agree with that as well?

Andrew R.T. Davies: There are areas in which the money has been spent successfully, and we acknowledge that, because, ultimately, when you are talking about £3 billion, there must be areas in which that money has been spent effectively. However, the First Minister is prosecuting an argument today that suggests that we have been excluded from the process governing programmes that affect Wales directly. That

er bod cofnod ohonoch yn cefnogi ymuno â'r ewro yn y 2000au cynnar.

Mae'n adeg eithaf anffodus i'r Prif Weinidog fod yn annerch Aelodau yn y Siambr ar faterion Ewropeaidd. Rhoddwyd cyfle i'r Prif Weinidog gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Fynwy, i gefnogi safbwynt arweinydd ei blaid, sydd wedi dweud na fyddai wedi ymuno â'r cytuniad. Felly, oni ddylai gynnig cymorth i Lywodraeth y DU sefyll yn gadarn dros bobl Cymru a thros bobl y DU? Yng ngohebiaeth y Prif Weinidog cyn y Nadolig, mae'n anffodus iddo ddewis cael ei ffigurau'n anghywir, fel yr amlygwyd yn ddiweddar yn y wasg. Dywedodd fod 50% o allforion o Gymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd. Mewn gwirionedd, 39% o allforion o Gymru sy'n mynd i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n farchnad bwysig iawn i ni, ond pan fydd y Prif Weinidog yn ceisio cyflwyno sylwadau, mae'n hanfodol eu bod yn seiliedig ar ffeithiau yn hytrach na bod yn ffigurau gwleidyddol.

Pan fyddwch yn edrych yn ôl ar y sylwadau a wnaed ynglŷn â'r ddwy gyfran o arian Amcan 1 ac arian cydgyfeirio, fe welwch fod Aelod o Senedd Ewrop o'i blaid ei hun wedi sôn ei bod yn bosibl na chafodd y rownd gyntaf o gyllid Ewropeaidd ei wario mewn modd doeth. Dyna a ddywedodd eich Aelod Llafur, Derek Vaughan ASE.

David Rees: Er fy mod yn cytuno â chi ynglŷn â'r sylwadau hynny, fel y soniwyd yn flaenorol gan eich cyd-Aelod, yr Aelod dros Fynwy, aeth Derek Vaughan ymlaen i ddweud yr ymdriniwyd â'r ail rownd mewn modd llawer gwell, bod gennym ffocws mwy pendant ar yr ail rownd o gyllid cydgyfeirio, a'n bod wedi ei ddefnyddio yn ddoeth. A ydych yn cytuno â hynny hefyd?

Andrew R.T. Davies: Gwariwyd yr arian yn llwyddiannus mewn rhai meysydd, ac rydym yn cydnabod hynny, oherwydd, yn y pen draw, pan fyddwch yn siarad am £3 biliwn, rhaid bod meysydd lle mae'r arian hwnnw wedi cael ei wario'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog yn cynnal dadl heddiw sy'n awgrymu ein bod wedi cael ein heithrio o'r broses sy'n rheoli rhaglenni sy'n effeithio ar Gymru yn uniongyrchol. Nid yw hynny'n

is not the case in relation to the Prime Minister's exercising of the veto before Christmas. That is what is being debated here today. It is ironic that the First Minister is speaking in this debate today when he has a Deputy Minister in his Government who is responsible for European programmes. Is it the case that the First Minister does not have confidence in the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, which is why he is standing here today, or is he just trying to score cheap political points?

The First Minister needs to wake up to the fact that we need to work collaboratively with the UK Government, because we are at a critical juncture in negotiations in Europe over convergence funding and the reform of the common agricultural policy and other support packages that affect Wales directly. The position that he took before Christmas has been detrimental to the position of Wales in those negotiations and it is he who is obstructing the advancement of the cause of Wales rather than the UK Government. It is time for him to reflect on the rhetoric that he used when speaking to the people of Wales before Christmas.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r cyfraniad pwysig a wnaethpwyd gan Raglenni Ewropeaidd ac yn cydnabod ymhellach bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i'n heconomi, gyda 39.9 y cant o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr UE.

Gwelliant 4 Jocelyn Davies

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddiannau cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar raglenni Ewropeaidd a pholisi Ewropeaidd.

Alun Ffred Jones: Cynigiau welliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, sy'n ymddangos fel un sy'n tanlinellu gwerth

wir mewn perthynas â fetu'r Prif Weinidog cyn y Nadolig. Dyna beth sy'n cael ei drafod yma heddiw. Mae'n eironig bod y Prif Weinidog yn siarad yn y ddadl hon heddiw pan fod ganddo Ddirprwy Weinidog yn ei Lywodraeth sy'n gyfrifol am raglenni Ewropeaidd. A yw'n wir nad oes gan y Prif Weinidog hyder yn y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, a dyna pam ei fod yn sefyll yma heddiw, neu a yw'n ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol rhad?

Mae angen i'r Prif Weinidog sylweddoli bod angen inni weithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU, oherwydd ein bod wedi cyrraedd man allweddol mewn trafodaethau yn Ewrop ynghylch cyllid cydgyfeirio a diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a pheynnau cymorth eraill sy'n effeithio ar Gymru yn uniongyrchol. Mae'r safbwynt a gymerodd cyn y Nadolig wedi bod yn niweidiol i sefyllfa Cymru yn y trafodaethau hynny ac ef sy'n rhwystro hyrwyddo achos Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU. Mae'n amser iddo fyfyr ar y rhethreg a ddefnyddiodd wrth iddo siarad â phobl Cymru cyn y Nadolig.

Amendment 2 Jocelyn Davies

Delete point 1 and replace with:

Notes the positive contribution made by European Programmes and further recognises the importance of the European market to our economy, with 39.9% of Welsh exports going to EU countries.

Amendment 4 Jocelyn Davies

Insert new point after point 2 and renumber:

Calls on the Welsh Government to prioritise Wales' national interests with regard to discussions on European programmes and European policy.

Alun Ffred Jones: I move amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

I am grateful for the opportunity to take part in this debate, which underlines the value of

y cronfeydd Ewropeaidd er mwyn cryfhau seilwaith economaidd Cymru. Fodd bynnag, o weld y trydydd a'r pedwerydd pwynt yn y cynnig ac o glywed y Prif Weinidog y prynhawn yma, mae'n amlwg mai cyfle i ymosod ar Lywodraeth y glymblaid yn Llundain fydd y ddadl hon; rwy'n hapus i gefnogi Llywodraeth Cymru yn y feirniadaeth haeddiannol honno.

European funds in strengthening Wales's economic infrastructure. However, having seen the third and fourth points in the motion and having heard the First Minister this afternoon, it is clear that this debate is an opportunity to attack the coalition Government in London; I am happy to support the Welsh Government in that deserved criticism.

4.15 p.m.

Nid oes rhyfedd bod y Prif Weinidog wedi anwybyddu'r ddau bwynt cyntaf yn ei sylwadau agoriadol, oherwydd, o edrych ar economi'r Cymoedd a'r gorllewin, mae'n rhaid inni gyfaddef fod y ffigurau rhwng 2000 i 2008 yn eithriadol o siomedig o ran cyflogaeth a ffyniant economaidd. Y ffaith amdani yw bod ardal Amcan 1 Cymru wedi llithro'n ôl yn gymharol yn hytrach na datblygu yn ystod y blynyddoedd hynny. Mae'n amlwg bod angen bod yn fwy uchelgeisiol ac effeithiol yn ein defnydd o arian Ewrop. Nid yw'n ddigon da brolio ein bod yn cadw at y rheolau ac yn gwario'r arian o fewn y canllawiau a'r amserlen, achos nid ymarfer rheoleiddio yw hon, ond cyfle a ddaw ond unwaith i greu economi gadarn a chynaliadwy yn yr ardaloedd hyn, sydd yn aml yn ardaloedd eithriadol o ddifreintiedig.

It is no surprise that the First Minister ignored the first two points in his opening remarks, because, from looking at the economy of west Wales and the Valleys, we have to admit that the figures for the period between 2000 and 2008 were extremely disappointing in terms of employment and economic prosperity. The fact is that the Objective 1 area of Wales has slid back, relatively speaking, rather than developing over those years. It is clear that we need to be more ambitious and efficient in our use of European funding. It is not good enough to brag that we are keeping to the rules and spending the money within the guidelines and timetable, because this is not a regulatory exercise, but a once-in-a-lifetime opportunity to create a strong and sustainable economy in these areas, which are often exceptionally deprived.

Mae economi gynaliadwy yn rhywbeth sy'n absennol o ardaloedd eang yng Nghymru, ardaloedd lle nad oes y cyfleoedd nag amrywiaeth o swyddi ar gyfer pobl ifanc, a lle nad ydym yn gallu sicrhau ein bod yn denu a chadw teuluoedd ifanc yn yr ardaloedd hynny. Dyna yw'r her, a dyna nad yw, hyd yn hyn, wedi cael ei ateb gan ein gweithredoedd.

A sustainable economy is something that is missing from large areas in Wales, areas where there are no opportunities nor a variety of jobs for young people, and where we cannot ensure that we can attract and keep young families in those areas. That is the challenge, and that is what, so far, has not been solved by our actions.

Ymhlith amcanion Ewrop 2020, sy'n sail i wariant cronfeydd strwythurol i'r dyfodol, mae targed y dylai 75% o bobl rhwng 20 a 64 oed fod mewn gwaith. Y ffigur ar gyfer y Cymoedd a'r gorllewin ar hyn o bryd yw 63.8%. Targed arall yw y dylai 3% o gynnyrch mewnwladol crynswth gael ei wario ar ymchwil a datblygu. Yn y gorllewin a'r Cymoedd, mae'r ffigur hwnnw yn nes at 1 y cant. Yr ydym wedi derbyn arian sylweddol dros 12 mlynedd o'r cronfeydd Ewropeaidd, ac mae'n ymddangos nad yw ffigurau 2008

Among the Europe 2020 objectives, which are the basis for the expenditure of structural funds for the future, there is a target that 75% of those aged between 20 and 64 should be in work. The figure for the Valleys and west Wales at the moment is 63.8%. Another target is that 3% of gross domestic product should be spent on research and development. In west Wales and the Valleys, that figure is closer to 1 per cent. We have received a substantial amount of funding over 12 years in European funds, but it seems that

yn rhai y gallwn ymfalchïo ynddynt.

O droi at welliannau Plaid Cymru, mae gwelliant 2 yn cyfeirio at gyfraniad gwerthfawr y cronfeydd, ac, fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, gall bob un ohonom gyfeirio at gynlluniau sydd wedi creu cyfleoedd newydd o ran hyfforddi, dysgu neu gyflogaeth. Fodd bynnag, gallwn hefyd gyfeirio at nifer o gynlluniau sydd wedi profi yn anghynladwy dros y blynyddoedd.

Rwyf yn awr am droi at y rhan o'r gwelliant sy'n sôn am bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i'n heconomi.

There is little doubt that David Cameron's Billy no-mates position in Brussels on 9 December was motivated by the anti-European stance and headlines of the London tabloid press. It was also a victory for the extreme Eurosceptic wing of the Tory party. It may play well politically in the short term, but it could be very bad economics in the longer term.

Andrew R.T. Davies: When the Institute of Directors, which has been very supportive over the years of the actions taken by the European Commission and UK Governments in engaging with Europe, polled its members, 77 per cent believed that, in this instance, the Prime Minister was correct to issue the veto at that meeting. Do you not believe that those members, who have their fingers on the pulse of UK business, are better placed to say that the Prime Minister was right than your good self?

Alun Ffred Jones: That may be so, but, on the other hand, the Institute of Directors is not always right itself. I repeat that, in the short term, it may be an astute move politically, but, in the longer term, I think that the Prime Minister is playing a dangerous game. God knows what the Liberal Democrats were doing at that time.

David Cameron's stance could be construed as the playing of a political game or a political position that may not have any great significance in the longer term, but we have to consider the concerns of people on the ground. That was brought home to me during

the figures for 2008 are not ones that we can be proud of.

Turning to Plaid Cymru's amendments, amendment 2 refers to the positive contribution of the funds, and, as the leader of the opposition stated, all of us can refer to schemes that have created new opportunities in terms of training, learning or employment. However, we can also refer to a number of schemes that have proven to be unsustainable over the years.

I turn now to the part of the amendment that refers to the importance of the European market to our economy.

Nid oes fawr o amheuaeth y cafodd sefyllfa ynysig David Cameron ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr ei hysgogi gan y safiad gwrth-Ewropeaidd a phenawdau'r wasg tabloid yn Llundain. Roedd hefyd yn fuddugoliaeth i adain Ewrosgeptig eithafol y blaid Doriaidd. Gall edrych yn dda yn wleidyddol yn y tymor byr, ond gallai fod yn economeg wael iawn yn y tymor hwy.

Andrew R.T. Davies: Pan holodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr, sydd wedi bod yn gefnogol iawn dros y blynyddoedd i'r camau y mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i ymgysylltu ag Ewrop, ei aelodau, roedd 77 y cant o'r farn bod y Prif Weinidog yn iawn yn yr achos hwn i ddefnyddio'r fetó yn y cyfarfod hwnnw. A ydych yn credu bod yr aelodau hynny, sy'n effro i fyd busnes yn y DU, mewn sefyllfa well i ddweud bod y Prif Weinidog yn iawn na chi?

Alun Ffred Jones: Efallai wir, ond ar y llaw arall, nid yw Sefydliad y Cyfarwyddwyr bob amser yn iawn ei hun. Dywedaf eto, gall fod yn symudiad praff yn wleidyddol yn y tymor byr, ond, yn yr hirdymor, rwy'n credu bod y Prif Weinidog yn chwarae gêm beryglus. Duw a wŷyr beth oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud ar y pryd.

Gellir dehongli safbwynt David Cameron fel rhywun sy'n chwarae gêm wleidyddol na all fod â fawr o arwyddocâd yn y tymor hwy, ond rhaid inni ystyried pryderon pobl ar lawr gwlad. Cafodd hyn ei bwysleisio imi yn ystod ymweliad â nifer o gwmnïau bach a

a visit to a number of small and medium-sized companies in the Bethesda area. One of the business owners, who is involved in manufacturing, immediately expressed concern to me about David Cameron's position, because he is dependent on exports to the European market. He was very concerned that that stance could undermine the position of companies such as his in what is an important market for his company and for many other companies.

Gwelliant 3 Peter Black

Ym mhwynt 1 ar ôl 'wedi'i wneud' rhoi 'ond hefyd yn nodi methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r rhaglenni hynny'n effeithiol i wella ffyniant economaidd cymharol Cymru'.

Gwelliant 6 Peter Black

Ym mhwynt 4 dileu 'yn mynd ati unwaith eto i chwarae' a rhoi 'yn chwarae'.

Eluned Parrott: I move amendments 3 and 6 in the name of Peter Black.

I thank the Government for bringing forward this debate today and I welcome the Welsh Government's recognition of the value of the European Union not just to Wales but to the wider UK. However, we also need to recognise that not all European programmes have been successful, and our amendment 3 recognises that more nuanced picture. Only 32 per cent of people on European funded training programmes who were expected to enter employment have done so. The Prince of Wales Innovation Scholarships scheme, which, according to some, has been very successful, and certainly offered an opportunity, has been scrapped and has not yet been replaced. To ignore the numerous failures in the European programmes is careless. The Government claims that individual programmes have been successful, which may well be the case, and we welcome those successes when they come. However, its approach is focused too much on outputs and not enough on outcomes and priorities. That is why we are the only UK region to have taken a backward step compared to the regions. That will present us with a challenge in Wales, as the EU is now seeking to move

chanolig yn ardal Bethesda. Mynegodd un o'r perchnogion busnes, sydd yn y maes gweithgynhyrchu, bryder yn syth imi am safbwynt David Cameron, oherwydd bod ei gwmmi'n dibynnu ar allforion i'r farchnad Ewropeaidd. Roedd yn bryderus iawn y gallai'r safiad hwnnw danseilio cwmnïau fel ei un ef mewn marchnad bwysig i'w gwmmi ei hun a llawer o gwmmïau eraill.

Amendment 3 Peter Black

In point 1 after 'Programmes' insert 'but also notes the failure of the Welsh Government to effectively use those programmes to improve Wales' relative economic prosperity'.

Amendment 6 Peter Black

In point 4 delete 'returns to playing' and insert 'plays'.

Eluned Parrott: Cynigïaf welliannau 3 a 6 yn enw Peter Black.

Diolchaf i'r Llywodraeth am gyflwyno'r ddadl hon heddiw, ac rwy'n croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o werth yr Undeb Ewropeaidd nid yn unig i Gymru, ond i'r DU ehangach. Fodd bynnag, mae angen inni gydnabod hefyd nad yw pob rhaglen Ewropeaidd wedi bod yn llwyddiannus, ac mae ein gwelliant 3 ni yn cydnabod y darlun mwy cynnil hwnnw. Dim ond 32 y cant o'r bobl sydd ar raglenni hyfforddiant a ariennir gan Ewrop yr oedd disgwyl iddynt fynd i fyd gwaith sydd wedi gwneud hynny. Cafwyd gwared ar gynllun Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru er iddo fod yn llwyddiannus iawn, yn ôl rhai, ac yn sicr roedd yn cynnig cyfle, ac nid oes cynllun arall wedi cymryd ei le hyd yn hyn. Byddai anwybyddu'r methiannau niferus yn y rhaglenni Ewropeaidd yn ffôl. Mae'r Llywodraeth yn honni bod rhaglenni unigol wedi bod yn llwyddiannus; efallai wir, ac rydym yn croesawu'r llwyddiannau hynny yn eu tro. Fodd bynnag, mae dull y Llywodraeth yn canolbwyntio gormod ar allbynnau a dim digon ar ganlyniadau a blaenoriaethau. Dyna pam mai ni yw'r unig ranbarth o'r DU sydd wedi cymryd cam yn ôl o'i gymharu â'r

away from an outputs-led approach to monitoring structural funds to a more outcomes-led approach.

The reasons often cited for the failure of EU funding to rejuvenate Wales are such things as too great a focus on soft schemes and not enough of a focus on economic development, a failure to adequately audit the outcomes, as opposed to the outputs, of programmes, and thereby subsequent investment in the wrong programmes, and perhaps not enough investment in key areas for economic growth, such as skills and infrastructure, for example. A key point that is often cited is the failure to adequately involve the private sector. The private sector has won a minuscule amount of European funding, despite our unbalanced economy, which relies so heavily on the public sector. Its involvement should be much more than winning contracts for the delivery of projects. We also need to work much more closely with it to help us to design programmes, using its expertise to help inform how best to help them to grow and develop.

When Alun Davies came to the Enterprise and Business Committee to give evidence, he claimed that

‘when it comes to the private sector’s relationship with these European programmes, we are second from top of the European countries in working with the private sector.’

However, the Federation of Small Business obviously does not agree. It stated in evidence to the same committee that it is received wisdom within the small business community that strategic investment planning in the last 12 years has been driven by the public and voluntary sectors, with no lasting outcomes in terms of increased GDP per capita and sustained employment. Those two statements are entirely at odds with each other. It demonstrates that we must redouble our engagement with the private sector in order to use European funding more effectively.

rhanbarthau. Bydd hynny’n her inni yng Nghymru, gan fod yr UE bellach yn ceisio symud i ffwrdd o ddull sy’n canolbwyntio ar allbynnau wrth fonitro’r cronfeydd strwythurol i ddull sy’n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau.

Ymysg y rhesymau a nodir yn aml dros fethiant arian yr UE i adfywio Cymru mae pethau fel gormod o ffocws ar gynlluniau meddal a dim digon o ffocws ar ddatblygu economaidd, methiant i archwilio canlyniadau rhaglenni’n ddigonol, yn hytrach na’r allbynnau, a thrwy hynny, buddsoddi yn y rhaglenni anghywir, ac efallai dim digon o fuddsoddiad mewn meysydd allweddol ar gyfer twf economaidd, fel sgiliau a seilwaith. Pwynt allweddol sy’n cael ei nodi’n aml yw’r methiant i gynnwys y sector preifat yn ddigonol. Dim ond swm pitw o arian Ewropeaidd y mae’r sector preifat wedi llwyddo i’w ennill, er gwaethaf ein heconomi anghytbwys, sy’n dibynnu cymaint ar y sector cyhoeddus. Dylai ei gyfranogiad fod yn llawer mwy nag ennill contractau ar gyfer cyflawni prosiectau. Mae angen inni hefyd weithio’n llawer agosach â’r sector er mwyn ein helpu i ddylunio rhaglenni, gan ddefnyddio ei arbenigedd i helpu’r rhaglenni i dyfu a datblygu.

Pan ddaeth Alun Davies i’r Pwyllgor Menter a Busnes i roi tystiolaeth, honnodd,

pan ddaw i’r berthynas rhwng y sector preifat â’r rhaglenni Ewropeaidd hyn, mai ni yw’r ail wlad o’r uchaf o holl wledydd Ewrop o ran gweithio gyda’r sector preifat.

Fodd bynnag, mae’r Ffederasiwn Busnesau Bach yn amlwg yn anghytuno. Mewn tystiolaeth i’r un pwyllgor, dywedodd fod y gymuned o fusnesau bach yn derbyn yn gyffredinol bod buddsoddi strategol dros y 12 mlynedd diwethaf wedi cael ei arwain gan y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, heb unrhyw ganlyniadau parhaol o ran cynyddu CMC y pen a chyflogaeth barhaus. Mae’r ddau ddatganiad uchod yn gwrthddech ei gilydd yn llwyr. Mae’n dangos bod rhaid inni ddyblu ein gwaith o ymgysylltu â’r sector preifat er mwyn defnyddio arian Ewropeaidd yn fwy effeithiol.

Point 2 of the Government's motion describes the common agricultural policy and structural funds as being 'vital in supporting Wales's economy'. That is very true, but it is not necessarily something to be proud of. Two rounds of structural funds should have built us up to a point at which we are not reliant on hand-outs, like some kind of national embodiment of Oliver Twist, holding out a bowl and begging for more. I hope that we can work together across this Chamber over this next round of funding to do things differently and more effectively. Debates on Europe seem to be falling into a pattern of claim and counter claim, and blame and counter blame. I cannot help feeling that, in the long term, that does us no service.

This year is a critical one for the European Union and presents us with a unique opportunity to move the narrative forward and to look to the future. We have the opportunity to contribute to the debate on reforms of the CAP, structural funds and procurement rules, all of which have a vital contribution to make to Wales's economic future. There are positive discussions to be had about how Wales can influence and use these reforms to improve the impact of these funds for the people of Wales. That debate is already taking place in our committees and I look forward to seeing those positive contributions develop. Chances such as this do not come around every day. There is an opportunity here, particularly in how we approach the next round of structural funds, but we need a positive vision, realism and a recognition that a change of approach is needed. Sadly, realism seems to be in short supply, as, apparently, is positivity. We should acknowledge that while there have been successes—and it is right that we should celebrate them—there have also been failures. We will never learn from the mistakes of the past unless we acknowledge those failures and undertake to learn from them. If we do not, we will keep on repeating them, ad infinitum, and we will be consigning the Welsh economy to a future of dependency. There is an alternative to that depressing future, and we should grab that chance with both hands.

Mae pwynt 2 o gynnig y Llywodraeth yn disgrifio'r polisi amaethyddol cyffredin a chronfeydd strwythurol fel pethau sy'n chwarae 'rôl hanfodol...o ran cefnogi economi Cymru'. Mae hynny'n wir, ond nid yw o reidrwydd yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Dylai dwy rownd o gronfeydd strwythurol fod wedi'n harwain at bwynt lle nad ydym yn dibynnu ar gardod, fel rhyw ymgorfforiad cenedlaethol o Oliver Twist yn cydio'n ei bowlen a gofyn am ragor. Rwy'n gobeithio y gallwn weithio gyda'n gilydd ar draws y Siambr yn ystod y rownd nesaf o gyllid er mwyn gwneud pethau'n wahanol ac yn fwy effeithiol. Mae dadleuon ar Ewrop yn tueddi i ddilyn patrwm o honiadau a gwrth-honiadau, a beio a gwrth-feio. Rwy'n teimlo nad yw hynny'n gwneud dim lles inni yn y tymor hir.

Mae eleni'n flwyddyn hanfodol i'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n gyfle unigryw i symud y naratif ymlaen ac i edrych i'r dyfodol. Mae gennym y cyfle i gyfrannu at y ddatl ar y diwygiadau i'r polisi amaethyddol cyffredin, y cronfeydd strwythurol a'r rheolau caffael, meysydd sydd i gyd â chyfraniad hanfodol i'w wneud i ddyfodol economaidd Cymru. Mae trafodaethau cadarnhaol i'w cael o ran sut y gall Cymru ddylanwadu ar y diwygiadau hyn a'u defnyddio i wella effaith y cronfeydd hyn er lles pobl Cymru. Mae'r ddatl honno eisoes yn digwydd yn ein pwyllgorau ac edrychaf ymlaen at weld y cyfraniadau cadarnhaol hynny yn datblygu. Nid yw cyfleoedd fel hyn yn dod i'n rhan bob dydd. Mae cyfle yma, yn enwedig yn y ffordd rydym yn ymdrin â'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol, ond mae arnom angen weledigaeth gadarnhaol, bod yn realistig a chydabod bod angen newid ein ffordd o weithio. Yn anffodus, ymddengys fod realaeth ac, yn ôl pob tebyg, positifrwydd, yn bethau prin. Dylem gydnabod, er y bu llwyddiannau—ac mae'n iawn i ni eu dathlu—y bu methiannau hefyd. Ni fyddwn byth yn dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol oni bai ein bod yn cydnabod y methiannau ac yn ymrwymo i ddysgu ohonynt. Os nad wnawn ni hynny, byddwn yn parhau i'w hailadrodd yn ddi-ddiwedd, gan arwain at ddyfodol o ddibyniaeth i economi Cymru. Mae yna ddewis arall yn hytrach na'r dyfodol digalon hwnnw, a dylem fanteisio'n frwd ar y

cyfle hwnnw.

Keith Davies: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu heddiw. Nid yw pethau mor ddu ag yr awgrymwyd gan rhai cyfranwyr. Ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999, mae'n wir i ddweud bod y Blaid Lafur yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus wrth weithio gyda'r Undeb Ewropeaidd. Drwy ein haelodaeth, cafwyd manteision enfawr i Gymru. Mae dros 500 o gwmnïau yng Nghymru yn allforio nwyddau werth dros £5.5 biliwn y flwyddyn i'r UE. Gan ystyried y sefyllfa ariannol bresennol a nifer y toriadau a wnaed gan y Llywodraeth glymblaid yn Llundain, mae'r swyddi sy'n gysylltiedig ag allforio—mae tua 150,000 ohonynt—yn fwy pwysig nag erioed.

Keith Davies: I am grateful for the opportunity to contribute today. Things are not as bleak as some contributors have suggested. Since the establishment of the Assembly in 1999, it is true to say that the Labour Party in Wales has been successful in working with the European Union. Through our membership, there have been huge benefits to Wales. More than 500 companies in Wales export goods worth more than £5.5 billion per year to the EU. Bearing in mind the current financial situation and the number of cuts made by the coalition Government in London, the jobs related to export—there are around 150,000 of them—are more important than ever.

Yn ychwanegol, o ran rhaglenni Ewropeaidd, bydd 236 o brosiectau gwerth £3.1 biliwn wedi'i cymeradwyo drwy gronfeydd strwythurol. Yn eu tro, bydd y prosiectau hyn yn darparu dros 500,000 o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Yn ogystal, drwy'r prosiectau hyn, cefnogwyd 71,000 o bobl i ennill cymwysterau, a roddwyd cymorth i 29,000 o bobl ddod o hyd i waith.

Furthermore, in terms of European programmes, 236 projects worth £3.1 billion have been approved through structural funds. In turn, these projects will provide more than 500,000 employment and training opportunities. In addition, through these projects, 71,000 people have been supported in gaining qualifications, and 29,000 have been helped into work.

O ganlyniad i waith Llywodraeth Cymru, cafwyd cydnabyddiaeth ledled Ewrop mai Cymru sy'n arwain y ffordd o ran defnydd effeithiol o gyllid Ewropeaidd a bod ffactorau allanol sy'n amharu ar ein llwyddiant. Dywedodd Johannes Hahn yn ddiweddar:

As a result of the work of the Welsh Government, it has been recognised throughout Europe that Wales is leading the way in making effective use of European funds and that external factors are adversely affecting our success. Johannes Hahn said recently:

'I want to say, in that area, the external factors have outweighed internal factors.'

Hoffwn ddweud, yn y maes hwnnw, fod y ffactorau allanol wedi dod yn bwysicach na'r ffactorau mewnol.

Mae'r Llywodraeth hefyd ar y blaen i ranbarthau eraill o ran sefydlu proses gynllunio ar gyfer ystyried gwariant arian Ewropeaidd yn y dyfodol. Heddiw, datganodd y Dirprwy Weinidog bod gan Lywodraeth Cymru £30 miliwn ar gyfer ymestyn rhaglen Twf Sgiliau Cymru, a hynny ar ben y £17 miliwn o gronfa gymdeithasol Ewrop. Gyda'r cyllid hwn, gellir darparu cymorth hyfforddiant i bron 12,000 o weithwyr mewn sectorau busnes allweddol.

Therefore, what is the solution? In the first place, we must recognise the need to think differently about transport in rural areas. Rather than trying to make urban models fit rural communities, and rather than seeing the service as an extension of urban provision, we need to take a step back. We need to look from the other end of the telescope. We need to ask first what makes rural communities tick and what the fundamental needs of those communities are and then see how transport can respond to that. Rural proofing as a concept emphasises the fact that we perhaps need a different starting point—not assessing policy against the needs of rural communities, but assessing the needs of rural communities and then developing policy.

We therefore need to assess a stronger baseline for our rural communities, make an analysis and to see transport as one part, but a key part, of a wider, comprehensive solution to ensure a more sustainable future for those communities, which feel that they are being pushed further away from basic services. The provision of rural transport is not an end in itself, but rather a means to maintain and develop the viability of rural communities. In creating a strategic agenda for the development of rural areas, we need to consider the range of ways in which people access places and services. People in rural Wales need more accessibility rather than more mobility, which has been provided for them by a host of road improvement programmes, which sometimes only save a few minutes on the travelling time.

safbwynt amser teithio.

Mae trafnidiaeth, felly, yn cyflawni rôl cwbl ganolog i alluogi cymunedau gwledig i weithredu neu i beidio â gweithredu. Gall trafnidiaeth fod yn *place-maker* neu'n *place-breaker*. Gall helpu i greu cymunedau hyfyw, bywiog sy'n cyflawni eu potensial mewn sawl swyddogaeth, neu, wrth gwrs, gallai ein gadael â chymunedau nad ydynt yn weithredol, yn effeithiol nac yn cyfrannu at wella bywydau pobl fel y dylent.

17.15 p.m.

Rhaid inni beidio chwaith â meddwl am drafnidiaeth yn y cyd-destun gwledig fel rhywbeth unffordd. Er bod gwahaniaethau amlwg rhwng cymunedau trefol a rhai gwledig, mae rhyng-gysylltiad pwysig rhyngddynt hefyd. Nid dim ond dod â phobl wledig i'r dref yw'r nod, ond hefyd dod â phobl drefol i'r wlad. Byddent yn llawer mwy tebygol o wneud hynny heb y car pe baent yn hyderus fod y gwasanaethau trafnidiaeth amgen yn well ac yn fwy effeithiol. Mae cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus amgen yn y parciau cenedlaethol ac yn rhai o'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol wedi dangos yn gyson y buddiannau o safbwynt lleihau traffig ceir, darparu modd trafnidiaeth amgen i dwristiaid a darparu gwasanaethau ychwanegol gwerthfawr i'r cymunedau gwledig hynny y maent yn teithio drwyddynt. Felly, mae'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn glir.

There are plenty of examples around of proven alternative and more sustainable modes of transport. Demand-responsive transport is a more flexible form of bus travel that is tailored to the needs of the passengers by operating in response to pre-booked journey requests. There are examples such as that in Monmouthshire, where over 35,000 passenger journeys are currently undertaken per annum, with numbers increasing year on year. The local authority has noted over £80,000 of cost savings through the withdrawal of previously under-utilised routes in favour of the more popular demand-responsive service.

Transport, therefore, plays a central role in enabling rural communities to operate or not. Transport can be a place-maker or a place-breaker. It can help to create viable, vibrant communities that achieve their potential in many respects, or, of course, it can leave us with communities that are not viable, effective, and that do not contribute to improving people's lives as they should.

We must also not think of transport in the rural context as something one-way. Although there are clear differences between urban and rural communities, there is also an important connection between them. The aim is not only to bring rural people to the towns, but to bring townspeople to the countryside. They would be much more likely to do so without a car if they were confident that alternative transport methods were better and more effective. Alternative public transport schemes in the national parks and in some of the areas of outstanding natural beauty have consistently shown the benefits in terms of reducing car traffic, providing alternative modes of transport for tourists and providing valuable additional services for the rural communities through which they travel. Therefore, the economic, social and environmental advantages are clear.

Mae digon o enghreifftiau o ddulliau teithio a brofwyd sy'n amgen ac yn fwy cynaliadwy. Mae trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn ffurf fwy hyblyg o deithio ar fws sydd wedi'i theilwra i anghenion y teithwyr drwy weithredu mewn ymateb i geisiadau am deithiau ymlaen llaw. Mae enghreifftiau fel yr un yn Sir Fynwy, lle mae dros 35,000 o siwrneiau i deithwyr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar hyn o bryd, gyda'r nifer yn cynyddu bob blwyddyn. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi dros £80,000 o arbedion cost drwy ddileu llwybrau nad oedd yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn y gorffennol, er mwyn blaenoriaethu'r gwasanaeth ymateb i'r galw, sy'n fwy poblogaidd.

Dial-a-ride services provide demand-responsive door-to-door services, often using accessible vehicles to take people to particular destinations such as town centres or hospitals, and to drop people off anywhere within a defined area.

Group transport services offer affordable transport for voluntary and community groups, usually using minibuses or multi-purpose vehicles. Social car schemes and lift-giving schemes are often run by volunteers using their own cars, although some schemes also operate a fleet of pool cars, including small, accessible vehicles. These vehicles typically provide door-to-door and, in some cases, room-to-room transport for individuals, providing essential journeys such as for shopping or trips to the doctor.

As evidenced by the various initiatives already in existence in rural areas, there is no reason why innovative transport alternatives such as these cannot be provided if the desire and support is there to do so. However, current initiatives often reflect local initiatives rather than being part of a planned national approach. While those that exist are hugely beneficial, they often have no long-term or stable funding, and do not form part of an overall co-ordinated approach to the issue. That is one challenge, namely to move away from the current piecemeal approach towards a more integrated and co-ordinated provision which reflects local need and circumstances.

If just 1% of the nearly £600 million that has been spent on major road improvement schemes in recent years had been dedicated to developing alternative rural transport schemes, this would have created a fund of nearly £6 million to improve accessibility in rural areas of Wales, which is a huge amount that would make a huge difference. If the Welsh Government acknowledges the need for sustainable transport centres in urban areas through the allocation of a £5 million fund, as indicated by the Minister recently, there is similar or perhaps even greater justification for the development of

Mae gwasanaethau galw'r gyrrwr yn darparu gwasanaethau drws-i-ddrws sy'n ymateb i'r galw. Maent yn aml yn defnyddio cerbydau hygyrch i fynd â phobl i gyrchfannau penodol fel canol trefi neu ysbytai, ac i ollwng pobl unrhyw le o fewn ardal benodol.

Mae gwasanaethau trafndiaeth grŵp yn cynnig trafndiaeth fforddiadwy ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol, fel arfer gan ddefnyddio bysiau mini neu gerbydau amblwrpas. Yn aml, caiff cynlluniau ceir cymdeithasol a chynlluniau lifft eu rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n defnyddio eu ceir eu hunain, er bod rhai cynlluniau hefyd yn gweithredu fflyd o geir, gan gynnwys cerbydau bach, hygyrch. Mae'r cerbydau hyn fel arfer yn darparu trafndiaeth drws-i-ddrws ac, mewn rhai achosion, yn darparu trafndiaeth ystafell-i-ystafell ar gyfer unigolion, sy'n darparu teithiau hanfodol, er enghraifft i siopa neu i fynd at y meddyg.

Fel y gwelwyd o'r mentrau amrywiol sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, nid oes rheswm pam na all ddewisiadau trafndiaeth arloesol fel y rhain gael eu darparu os yw'r awydd a'r gefnogaeth ar gael i wneud hynny. Fodd bynnag, mae mentrau presennol yn aml yn adlewyrchu mentrau lleol yn hytrach na bod yn rhan o ddull gweithredu cenedlaethol a gynlluniwyd. Er bod y rhai sy'n bodoli o fudd mawr, yn aml nid oes ganddynt gyllid hirdymor neu sefydlog, ac nid ydynt yn ffurfio rhan o ddull cydlynol cyffredinol o fynd i'r afael â'r mater. Un o'r heriau yw symud i ffwrdd oddi wrth y dull tameidiog presennol, tuag at ddarpariaeth fwy integredig a chydlynol sy'n adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol.

Pe bai dim ond 1% o'r bron i £600 miliwn a wariwyd ar gynlluniau gwella ffyrdd mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei roi i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth wledig amgen, byddai hyn wedi creu cronfa o bron i £6 miliwn i wella hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, sy'n swm enfawr a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ganolfannau trafndiaeth cynaliadwy mewn ardaloedd trefol drwy ddyrannu cronfa o £5 miliwn, fel y nodwyd gan y Gweinidog yn ddiweddar, mae cyfiawnhad tebyg, neu mwy o

sustainable rural transport areas with a similar budget to develop strategic approaches to innovative, alternative and community-based rural transport schemes.

Rural transport is not just about one Government portfolio, and that adds to the difficulty of looking at it in the round. It should be relevant not only to the Minister for transport, but to all Ministers with social, economic and environmental responsibilities. This Government needs to investigate the issue of transport poverty in rural Wales as an integral part of the development of a comprehensive agenda for the sustainable development of these areas. We need a national strategy for the provision of rural transport in Wales, complemented by a special fund for the implementation of a co-ordinated approach to these matters.

As the consequences of peak oil become increasingly apparent, it is wiser to invest in more effective transport alternatives and develop a robust network of community transport services, rather than wait until all the communities of rural Wales have declined to such an extent that the car is their only lifeline.

Rebecca Evans: I am pleased that the idea of transport poverty is becoming more recognised within the Assembly, because the issue of transport within rural areas is very much a social justice issue. Llyr Huws Gruffydd and I have been doing the same research, because I also wanted to point out that, for the poorest fifth of households that own a car, almost a quarter of their income is spent on motoring. Buying and maintaining a car is a major cause of people getting into debt at the moment. Of course, a quarter of households do not have access to a car anyway. For this reason, I am pleased that the Government is supporting innovative sustainable transport solutions that do not revolve around the private car. Sustainable answers come in the form of innovative ideas such as the award-winning Bwcabus scheme, and the creation of traffic-free paths for walking and cycling, helping communities to

gyfiawnhad efallai, dros ddatblygu ardaloedd trafndiaeth wledig gynaliadwy gyda chyllideb debyg i ddatblygu dulliau strategol o weithredu cynlluniau trafndiaeth gymunedol sy'n arloesol ac yn wahanol.

Mae trafndiaeth wledig yn ymwneud â mwy nag un portffolio Llywodraeth, ac mae hynny'n ychwanegu at yr anhawster o edrych ar hyn yn ei grynsyth. Dylai fod yn berthnasol nid yn unig i'r Gweinidog trafndiaeth, ond i'r holl Weinidogion sydd â chyfrifoldebau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae angen i'r Llywodraeth hon ymchwilio i dlodi trafndiaeth yng nghefn gwlad Cymru fel rhan annatod o ddatblygu agenda cynhwysfawr ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y meysydd hyn. Mae angen strategaeth genedlaethol arnom ar gyfer darparu trafndiaeth wledig yng Nghymru, sy'n cael ei ategu gan gronfa arbennig ar gyfer gweithredu dull cydlynol o ystyried y materion hyn.

Wrth i ganlyniadau prisiau brig am olew ddod yn fwyfwy amlwg, mae'n ddoethach i fuddsoddi mewn dewisiadau amgen a mwy effeithiol o ran trafndiaeth ac i ddatblygu rhwydwaith gadarn o wasanaethau trafndiaeth gymunedol, yn hytrach nag aros nes bod holl gymunedau cefn gwlad Cymru wedi dirywio i'r fath raddau mai'r car yw eu hunig dewis.

Rebecca Evans: Rwy'n falch bod tlodi trafndiaeth yn cael ei gydnabod yn fwy yn y Cynulliad, gan fod trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig yn fater cyfiawnder cymdeithasol. Mae Llyr Huws Gruffydd a minnau wedi bod yn gwneud yr un gwaith ymchwil, oherwydd roeddwn hefyd am nodi bod y pumed tlotaf o aelwydydd sy'n berchen ar gar yn gwario bron i chwarter eu hincwm ar foduro. Mae prynu a chynnal car yn un o'r prif achosion o bobl yn mynd i ddyled ar hyn o bryd. Wrth gwrs, nid oes gan chwarter y cartrefi fynediad at gar beth bynnag. Am y rheswm hwn, rwy'n falch bod y Llywodraeth yn cefnogi atebion trafndiaeth gynaliadwy arloesol nad ydynt yn ymwneud â'r car preifat. Mae atebion cynaliadwy yn dod ar ffurf syniadau arloesol fel y cynllun Bwcabus, sydd wedi ennill gwobrau, yn ogystal â chreu llwybrau di-draffig ar gyfer cerdded a beicio, sy'n helpu cymunedau i

link up to their nearest towns. We have already heard of other examples. Minister, we need to see continued investment in the expansion of such schemes.

Continued and increased investment in broadband and technologies in health and social care is also essential to help service users and professionals in rural areas reduce the number of journeys that they need to make. A lack of transport can put key services and opportunities out of the reach of people in rural areas. It is a barrier to gaining a job and accessing health care and education, as well as a restriction to social and cultural opportunities. Together, that can have a huge impact on people's quality of life.

Russell George: It is important to improve the road network. There is also a need for options that are less car-centric, which are responsive and can accommodate wider public demand, such as car clubs and community bus schemes. In these tough economic times, there will be pressure on local authority funds and support for these types of schemes, so it is vital that we work smartly with new technology, where appropriate, and in partnership with voluntary and private sector organisations. I am pleased that the Member mentioned dial-a-ride, which is such an important and vital service. I recently wrote to the Minister regarding Newtown dial-a-ride and its shortfall in funding, and the possible closure of that scheme. That would be devastating for the community; it is used to get to shops, appointments and so on.

Finally, we should not forget the importance of good walking and cycling paths. In my constituency, work on the Penegoes to Machynlleth cycle route has finally started after many years of campaigning by the local community, and it is going to be a well-used route. I think that you will agree Minister that, in order to strengthen the rural economy in Wales, we need to be more active in putting more investment into sustainable transport. I thank the Member for allowing

gysylltu â'u trefi agosaf. Rydym eisoes wedi clywed enghreifftiau eraill. Weinidog, mae angen inni weld buddsoddiad parhaus mewn ehangu cynlluniau o'r fath.

Mae rhagor o fuddsoddiad parhaus mewn band eang a thechnoleg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn hanfodol i helpu defnyddwyr y gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol mewn ardaloedd gwledig i leihau'r nifer o deithiau y mae angen iddynt eu gwneud. Gall diffyg cludiant olygu bod gwasanaethau a chyfleoedd allweddol y tu hwnt i gyrraedd pobl mewn ardaloedd gwledig. Mae'n rhwystr i gael swydd a chael gafael ar ofal iechyd ac addysg, ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol. Gyda'i gilydd, gall hynny gael effaith mawr ar ansawdd bywyd pobl.

Russell George: Mae gwella'r rhwydwaith ffyrdd yn bwysig. Mae hefyd angen opsiynau sydd wedi'u seilio llai ar geir, sy'n ymatebol ac sy'n gallu darparu ar gyfer galw cyhoeddus ehangach, fel clybiau ceir a chynlluniau bws cymunedol. Yn y cyfnod economaidd anodd hwn, bydd pwysau ar gronfeydd awdurdodau lleol ac ar gefnogaeth ar gyfer y mathau hyn o gynlluniau, felly mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio mewn modd craff gyda thechnoleg newydd, lle bo hynny'n briodol, a'n bod yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector gwirfoddol a phreifat. Rwy'n falch bod yr Aelod wedi crybwyll y gwasanaeth galw'r gyrrwr, sy'n bwysig ac yn hanfodol. Ysgrifennais at y Gweinidog yn ddiweddar ynghylch y gwasanaeth galw'r gyrrwr yn y Drenewydd, y diffyg arian ar ei gyfer, a'r posibilrwydd o gau'r cynllun hwnnw. Byddai hynny'n drychinebus ar gyfer y gymuned; mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth i fynd i siopa ac i apwyntiadau, ac yn y blaen.

Yn olaf, ni ddylem anghofio pwysigrwydd llwybrau cerdded a beicio da. Yn fy etholaeth, mae'r gwaith ar y llwybr beicio o Benegoes i Fachynlleth wedi dechrau o'r diwedd ar ôl blynyddoedd lawer o ymgyrchu gan y gymuned leol, a bydd nifer fawr o bobl yn ei ddefnyddio. Credaf y byddwch yn cytuno, Weinidog, fod angen inni fod yn fwy gweithgar wrth fuddsoddi mwy o arian mewn trafnidiaeth gynaliadwy, er mwyn cryfhau'r economi wledig yng Nghymru. Diolchaf i'r

me a minute to take part in this debate.

Joyce Watson: I will talk about rail services. Last year the Welsh Government invested £1.4 million to deliver five extra trains a day between Fishguard harbour and Carmarthen. The revised national transport plan, published at the end of last term, included a commitment to bring forward the scheme to redouble the line between Gowerton and Loughor by next spring. Those are two important projects for Wales that are using sustainable transport. We can invest in transport, but its cost is not controlled by the Assembly. The Member for North Wales will know that the fare for a Llandudno to Bangor annual season ticket has increased by over 10%, as has the fare on the Swansea to Llanelli route, which has increased by 10.45%. Commuters are finding that their rail fares have rocketed. They will want to know why that has happened. When we have a Government that holds the legislative powers that we do not hold, it will impact negatively on what we are doing here; it is beyond our control. What will the Minister do to secure more value for money from the £170 million subsidy that we control and pay to Arriva Trains Wales?

The Deputy Presiding Officer: As we are running ahead of time, I will use my discretion and call William Powell. I remind Members that this cannot be assumed to be normal practice in the short debate.

William Powell: I thank Llyr Huws Gruffydd and you, Deputy Presiding Officer, for giving me the time to make a few points. First, reference has been made to the Bwcabus scheme and to other community transport schemes that are enormously valuable, as is dial-a-ride, to which Russell George referred. I put on record my appreciation of what has been achieved, in Powys, in the Brecon Beacons National Park and in Carmarthenshire, using European Union rural development funds. That good practice needs to be rolled out across Wales, and we have something to learn in that

Aelod am ganiatáu imi siarad am funud yn y ddadl hon.

Joyce Watson: Rwyf am siarad am wasanaethau rheilffyrdd. Y llynedd, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £1.4 miliwn i ddarparu pum trên ychwanegol y dydd rhwng harbwr Abergwaun a Chaerfyrddin. Roedd y cynllun trafndiaeth cenedlaethol diwygiedig, a gyhoeddwyd ddiwedd tymor diwethaf, yn cynnwys ymrwymiad i ddyblu'r lein rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr erbyn y gwanwyn nesaf. Mae'r rheini yn brosiectau pwysig i Gymru sy'n defnyddio trafndiaeth gynaliadwy. Gallwn fuddsoddi mewn trafndiaeth, ond ni chaiff cost y drafnidiaeth honno ei reoli gan y Cynulliad. Bydd yr Aelod dros Ogledd Cymru yn gwybod bod pris tocyn tymor blynyddol o Landudno i Fangor wedi cynyddu dros 10%, fel y mae pris y tocyn ar y llwybr o Abertawe i Lanelli, sydd wedi cynyddu 10.45%. Mae cymudwyr yn gweld bod eu tocynnau rheilffordd wedi cynyddu'n aruthrol. Byddant yn awyddus i wybod pam bod hynny wedi digwydd. Pan fod gennym Lywodraeth sydd â'r pwerau deddfu nad oes gennym ni, bydd yn cael effaith negyddol ar yr hyn rydym yn ei wneud yma; mae y tu hwnt i'n rheolaeth. Beth fydd y Gweinidog yn ei wneud i sicrhau mwy o werth am arian o'r cymhorthdal £170 miliwn a reolir gennym ac a delir i Trenau Arriva Cymru?

Y Dirprwy Lywydd: Gan ein bod yn rhedeg o flaen amser, byddaf yn defnyddio fy nisgresiwn ac yn galw William Powell. Atgoffaf yr Aelodau na ellir cymryd yn ganiataol bod hyn yn arfer cyffredin yn ystod y ddadl fer.

William Powell: Rwy'n diolch i Llyr Huws Gruffydd ac i chi, Ddirprwy Lywydd, am roi amser imi wneud ychydig o bwytiau. Yn gyntaf, cyfeiriwyd at y cynllun Bwcabus ac at gynlluniau trafndiaeth gymunedol eraill sy'n hynod werthfawr, fel y cynllun galw'r gyrwr, y soniodd Russel George amdano. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r hyn a gyflawnwyd ym Mhowys, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn Sir Gaerfyrddin, gan ddefnyddio cronfeydd datblygu gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid cyflwyno'r arfer da hwnnw ledled Cymru, ac mae gennym rywbeth i'w ddysgu

context. I also make an appeal for cross-cutting, cross-department working. For example, I urge the Minister for Local Government and Communities to engage with the Minister for Environment and Sustainable Development to explore more robust technical advice for larger housing schemes, particularly those that are out of town, in terms of sustainable transport plans. If we raise the bar at the stage when developments come forward, we will gain in the long term.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I thank everyone for their contributions today. I thank the Member for North Wales for tabling this debate on making sustainable transport easier for people living in rural communities.

I understand the crucial contribution that transport makes to people's quality of life in rural communities. I also recognise that those living in rural communities are often faced with different transport problems to those living in urban areas. We have heard from Members today very detailed and real examples of this happening in their constituencies.

In December, I published the reprioritisation of the national transport plan. This reprioritisation is realistic about what we can achieve and how we are distributing our resources where they will make the most difference to the lives of the people we serve. I focused this exercise on improving mobility and connectivity, so that the people of Wales can access the things that Members have talked about today, such as jobs, healthcare, education and childcare. The plan includes specific interventions targeted at improving sustainable transport in rural communities, and I will explain a little more about those interventions and how we intend to deliver.

Nationally, the Government's continued support for the Wales concessionary bus pass scheme brings real benefits to local and rural communities as it helps older and disabled

yn y cyd-destun hwnnw. Rwyf hefyd yn apelio am waith trawsbynciol a thrawsadrannol. Er enghraifft, rwy'n annog y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ymgysylltu â Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i geisio cyngor technegol mwy cadarn ar gyfer cynlluniau tai mwy o faint, yn enwedig y rhai sydd y tu allan i'r dref, o ran y cynlluniau trafndiaeth cynaliadwy. Os byddwn yn codi'r safon yn y cyfnod pan fydd datblygiadau yn cael eu cyflwyno, byddwn yn elwa yn yr hirdymor.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Rwy'n diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw. Rwy'n diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am gyflwyno'r ddadl hon ar wneud trafndiaeth gynaliadwy yn haws i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Rwy'n deall y cyfraniad hanfodol y mae trafndiaeth yn ei wneud i ansawdd bywyd pobl mewn cymunedau gwledig. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn aml yn wynebu problemau trafndiaeth gwahanol i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Heddiw rydym wedi clywed enghreifftiau manwl a real iawn gan Aelodau o'r hyn sy'n digwydd yn eu hetholaethau.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais ail-flaenoriaethu'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Mae'r ail-flaenoriaethu hyn yn realistig o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni ac o ran sut rydym yn dosbarthu ein hadnoddau lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau'r bobl a wasanaethwn. Mae'r ymarfer hwn yn canolbwyntio ar wella symudedd a chysylltedd, fel y gall pobl Cymru gael mynediad at y pethau y mae Aelodau wedi siarad amdanynt heddiw, fel swyddi, gofal iechyd, addysg a gofal plant. Mae'r cynllun yn cynnwys ymyriadau penodol wedi'u targedu at wella trafndiaeth gynaliadwy mewn cymunedau gwledig, a byddaf yn esbonio ychydig mwy am yr ymyriadau hynny a sut rydym yn bwriadu eu darparu.

Yn genedlaethol, mae cefnogaeth barhaus y Llywodraeth ar gyfer cynllun teithio rhatach Cymru yn dod â manteision gwirioneddol i gymunedau lleol a gwledig gan ei fod yn

people to access services without having to worry about the cost of transport, which might otherwise be prohibitively expensive. Recently, I also confirmed that the popular concessionary rail fare scheme will be continued for rural routes across Wales for a two-year period, covering the Heart of Wales line, the Cambrian coast line, the Borderlands line and the Conwy valley line. I know that this action has also been welcomed by many Members across the Chamber.

The sustainable travel centre initiative involves a programme of continued investment in Cardiff, Môn a Menai, Carmarthenshire, Haverfordwest and Aberystwyth. The initiative is achieving less congestion, less pollution and healthier lifestyles through its infrastructure enhancements and through behavioural changes in terms of how people use the transport system. In the report on making sustainable transport easier for rural communities, there is recognition of the value of the role of demand-responsive transport in rural communities. One such scheme is the Bwcabus scheme in Carmarthenshire and Ceredigion. Members have talked today about how community and rural transport is a cross-Governmental issue. I often have discussions with Ministers Alun Davies and Huw Lewis, who provide financial support for rural communities through their portfolios and actions. We are really pleased with the Bwcabus service. It received funding from European funds and from the Welsh Government. We believe that this initiative is a best practice model that we could potentially replicate in other rural communities across Wales. We recently supported the extension of the Bwcabus network to increase coverage to other communities around Lampeter and Felinfach. I know that Members have a great interest in how that service develops. This shows how we can use initiatives to enhance service delivery, and the Bwcabus service has been a particularly successful programme.

5.30 p.m.

helpu pobl hŷn a phobl anabl i gael mynediad at wasanaethau heb orfod poeni am gost teithio, a fyddai fel arall yn afresymol o gostus. Yn ddiweddar, cadarnheais hefyd y bydd y cynllun tocynnau trŷn rhatach poblogaidd yn parhau ar gyfer llwybrau gwledig ar draws Cymru am gyfnod o ddwy flynedd, a fydd yn cwmpasu rheilffordd Calon Cymru, lein arfordir y Cambrian, lein y Gororau a lein Dyffryn Conwy. Rwy'n gwybod bod y camau hyn hefyd wedi cael eu croesawu gan nifer o Aelodau ar draws y Siambr.

Mae'r fenter canolfannau teithio cynaliadwy yn cynnwys rhaglen o fuddsoddi parhaus yng Nghaerdydd, Môn a Menai, Sir Gaerfyrddin, Hwlfordd ac Aberystwyth. Mae'r fenter yn cyflawni llai o dagfeydd, llai o lygredd a ffyrdd o fyw iachach drwy ei welliannau isadeiledd a thrwy newidiadau ymddygiadol o ran sut mae pobl yn defnyddio'r system drafnidiaeth. Yn yr adroddiad ar wneud trafnidiaeth gynaliadwy yn haws i gymunedau gwledig, ceir cydnabyddiaeth o werth trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw mewn cymunedau gwledig. Un cynllun o'r fath yw'r cynllun Bwcabus yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae Aelodau wedi siarad heddiw am sut y mae trafnidiaeth gymunedol a gwledig yn fater o bwys i'r Llywodraeth gyfan. Rwyf yn aml yn cael trafodaethau â'r Gweinidogion Alun Davies a Huw Lewis, sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer cymunedau gwledig drwy eu portffolios a'u gweithredoedd. Rydym yn falch iawn o'r gwasanaeth Bwcabus. Cafodd arian o gronfeydd Ewropeaidd a chan Lywodraeth Cymru. Credwn fod y fenter hon yn fodel arfer gorau y gallem o bosibl ei dyblygu mewn cymunedau gwledig eraill ledled Cymru. Yn ddiweddar, bu inni gefnogi ymestyn y rhwydwaith Bwcabus i gynyddu'r ddarpariaeth i gymunedau eraill o amgylch Llanbedr Pont Steffan a Felin-fach. Gwn fod gan Aelodau ddiddordeb mawr yn y modd y mae'r gwasanaeth hwnnw yn datblygu. Mae hyn yn dangos sut y gallwn ddefnyddio mentrau i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, ac mae'r gwasanaeth Bwcabus wedi bod yn rhaglen arbennig o lwyddiannus.

We also recognise the importance of timetabled bus services in rural communities, and we are committed to working with service providers to tackle barriers to access, such as ticketing, timetabling and frequency of integrated modes of transport. I welcome the comments made by the Member for North Wales not just on how we can look at transport as an enabler but on looking beyond buses to the future of the rail franchise renewal in Wales in 2018. That provides us with a great opportunity to develop a transport system for Wales that fully integrates bus, train, cycling and walking provision. That is something that I am working on with my officials now, looking at how we can start to develop that.

Recently, Members with an interest in community transport schemes have written to me. They play an important role in helping people in rural communities to access services, particularly healthcare appointments. We are looking at different and more affordable ways to support that sector in future. Win Griffiths's review of the provision of non-emergency patient transport services has led to the implementation of four pilot schemes, bringing together community transport operators and the NHS to deliver a more patient-focused transport service.

Kirsty Williams: Minister, you will be aware that many patients in rural areas travel to district general hospitals some distance away, often under voluntary car or community support schemes. Those volunteers are reimbursed by the boards. There is huge variation in the amount of mileage paid by each board, meaning that some patients are actively asking their GPs to be referred to England because the recompense to voluntary sector car schemes is more generous there than that offered by, say, the Aneurin Bevan Local Health Board. Will you agree to discuss this with your health colleagues, to ensure that a level playing field operates throughout NHS organisations in Wales with regard to what they pay volunteer drivers to take people to

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bws wedi'u hamserlennu mewn cymunedau gwledig, ac rydym wedi ymrwmo i weithio gyda darparwyr gwasanaethau i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, fel tocynnau, amserlennu ac amllder y dulliau integredig o drafnidiaeth. Croesawaf y sylwadau a wnaed gan yr Aelod dros Ogledd Cymru, nid yn unig ar sut y gallwn edrych ar drafnidiaeth fel galluogwr, ond ar edrych y tu hwnt i fysiau ac at ddyfodol y fasnachfrait rheilffyrdd yng Nghymru ar ôl ei hadnewyddu yn 2018. Bydd hwnnw'n gyfle gwych i ddatblygu system drafnidiaeth i Gymru sy'n integreiddio'n llawn y ddarpariaeth bysiau, trenau, beicio a cherdded. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n gweithio arno yn awr gyda fy swyddogion, sef sut y gallwn ddechrau datblygu hynny.

Yn ddiweddar, mae Aelodau sydd â diddordeb mewn cynlluniau trafndiaeth gymunedol wedi ysgrifennu ataf. Mae'r cynlluniau'n bwysig i helpu pobl mewn cymunedau gwledig i gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig apwyntiadau gofal iechyd. Rydym yn edrych ar ffyrdd gwahanol a mwy fforddiadwy o gefnogi'r sector hwnnw yn y dyfodol. Mae adolygiad Win Griffiths o'r ddarpariaeth o wasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys wedi arwain at weithredu pedwar cynllun peilot, gan ddwyn ynghyd weithredwyr trafndiaeth gymunedol a'r GIG i ddarparu gwasanaeth cludo cleifion sy'n canolbwyntio fwy ar y claf.

Kirsty Williams: Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod llawer o gleifion mewn ardaloedd gwledig yn teithio i ysbytai cyffredinol dosbarth sydd gryn bellter i ffwrdd, yn aml drwy gynlluniau ceir gwirfoddol neu gynlluniau cymorth cymunedol. Caiff y gwirfoddolwyr hynny eu had-dalu gan y byrddau. Mae amrywiaeth enfawr yn y swm yn ôl y filltir y mae pob bwrdd yn ei dalu, sy'n golygu bod rhai cleifion yn gofyn i'w meddygon teulu eu cyfeirio i Loegr am fod yr ad-daliad i gynlluniau ceir y sector gwirfoddol yn fwy hael na'r hyn a gynigir gan, dyweder, Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. A wenwch chi gytuno i drafod hyn â'ch cydweithwyr iechyd, er mwyn sicrhau chwarae teg ymysg sefydliadau'r GIG yng Nghymru o ran yr hyn

appointments?

Carl Sargeant: I thank the Member for her contribution. You have sort of pre-empted some discussions that we have already started. I am already working with Lesley Griffiths on how we can develop a better service and infrastructure around community transport and support for patients with transport to wherever it may be, which may sometimes be across the border. It is a discussion that we have already started. I would expect any Ministers with an interest—Alun Davies, Lesley Griffiths and Huw Lewis, with regard to all the rural elements that they support—to have sight of the Record of Proceedings from today. I will take the issue up with them directly.

On transport services, we will learn lessons from the pilot schemes. We will bring those together for more organised collaboration on what we can do with NHS organisations and community transport in future. I will keep Members fully informed on how we conclude that.

The prioritised national transport plan commits the Government to investing in sustainable travel and transport across Wales. I have ensured that it is a specific intervention that helps to address the transport needs of people living in rural communities. There is much more work to be done. Through our ongoing work with stakeholders, we can continue to address the issues of transport poverty through concessionary fare schemes and more sustainable transport options. To refer to the contribution made by Russell George, supporting local authorities to support community transport schemes is important. Again, I was grateful that the Assembly today passed what is a reasonable settlement for local government in order that it can enable a continuation of support for schemes across the whole of Wales. It is disappointing that the Members on the Conservative benches were unable to support me in that debate today. However, we need to move on with regard to the transport issues. This Government has made it very clear how it will continue to support Wales on sustainable

y maent yn ei dalu i yrwyr gwirfoddol i fynd â phobl i apwyntiadau?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Rydych wedi rhagdybio rhai o'r trafodaethau rydym eisoes wedi eu dechrau. Rwyf eisoes yn gweithio gyda Lesley Griffiths ar sut y gallwn ddatblygu gwell gwasanaeth a seilwaith i gludiant cymunedol a chymorth i gleifion i'w cludo i le bynnag y gall hynny fod, sydd weithiau dros y ffin. Mae'n drafodaeth rydym eisoes wedi dechrau arni. Byddwn yn disgwyl i Weinidogion sydd â diddordeb—Alun Davies, Lesley Griffiths a Huw Lewis, mewn perthynas â'r holl elfennau gwledig y maent yn gyfrifol amdanynt—ddarllen Cofnod y Trafodion am heddiw. Byddaf yn crybwyll y mater yn uniongyrchol iddynt.

Ar wasanaethau trafndiaeth, byddwn yn dysgu gwersi o'r cynlluniau peilot. Byddwn yn dod â rheini at ei gilydd er mwyn cydweithio'n fwy trefnus ar yr hyn y gallwn ei wneud gyda sefydliadau'r GIG ar drafndiaeth gymunedol yn y dyfodol. Byddaf yn hysbysu'r Aelodau yn llawn am ganlyniad hynny.

Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn ymrwmo'r Llywodraeth i fuddsoddi mewn teithio a thrafndiaeth gynaliadwy ledled Cymru. Rwyf wedi sicrhau ei fod yn ymyriad penodol sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion trafndiaeth y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae llawer mwy o waith i'w wneud. Drwy ein gwaith parhaus â rhanddeiliaid, gallwn barhau i fynd i'r afael â materion tlodi trafndiaeth drwy gynlluniau tocynnau rhatach ac opsiynau trafndiaeth mwy cynaliadwy. Gan gyfeirio at gyfraniad Russell George, mae cefnogi awdurdodau lleol i gefnogi cynlluniau trafndiaeth gymunedol yn bwysig. Eto, rwy'n ddiolchgar bod y Cynulliad heddiw wedi pasio setliad rhesymol i lywodraeth leol er mwyn ei galluogi i barhau i roi cefnogaeth i gynlluniau ledled Cymru. Mae'n siomedig na allai'r Ceidwadwyr fy nghefnogi yn y ddadl honno heddiw. Fodd bynnag, mae angen i ni symud ymlaen o ran materion trafndiaeth. Mae'r Llywodraeth hon wedi ei gwneud yn glir sut y bydd yn parhau i gefnogi Cymru ar deithio cynaliadwy yn y dyfodol.

travel in future.

I thank the Member for North Wales for his commitment to supporting the Government in taking this forward. I noted many of his comments with regard to developing new schemes and how we can create a better style of travel for Wales, fit for the future. It is a desire that I share. I thank Members for their contributions today. I will certainly ensure that my ministerial colleagues also take note of this debate.

Diolchaf i'r Aelod dros Ogledd Cymru am ei ymrwymiad i gefnogi'r Llywodraeth i fwrw ymlaen â hyn. Nodais lawer o'i sylwadau o ran datblygu cynlluniau newydd a sut y gallwn greu gwell dull o deithio i Gymru, sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddyhead yr wyf yn ei rannu. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Byddaf yn sicrhau bod fy nghyd-Weinidogion hefyd yn cymryd sylw o'r ddadl hon.

The Deputy Presiding Officer: Thank you. That concludes today's proceedings.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch yn fawr. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 p.m.
The meeting ended at 5.35 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Keith (Llafur – Labour)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
 Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Julie (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)

Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank